# Ymgeisio am rownd 2 y gronfa ffyniant bro

## Manylion y cais

| | |
|---|---|
| [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] |

### Beth yw enw cyfreithiol y prif sefydliad sy'n ymgeisio?

Dinas a Sir Abertawe

### Ble mae eich cynnig yn cael ei gyflwyno?

Cymru

### Dewiswch eich awdurdod lleol

Abertawe

### Rhowch enw eich cynnig

Cwm Tawe Isaf: Adfywio trwy Etifeddiaeth Vivian

| | |
|---|---|
| **A yw eich cynnig yn cynnwys unrhyw brosiectau a gyflwynwyd yn flaenorol yn rownd 1?** | Ydy |

### Manylion cyswllt rheolwr y cynnig

| | |
|---|---|
| [redacted] | [redacted] |
| **Swydd** | Rheolwr Ariannu Allanol |
| [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] |
| **Cyfeiriad post** | Y Ganolfan Ddinesig<br>Heol Ystumllwynarth<br>Abertawe<br>Abertawe<br>SA1 3SN |

## Manylion cyswllt yr Uwch-swyddog Cyfrifol

| | |
|---|---|
| [redacted] | [redacted] |
| **Swydd** | Cyfarwyddwr Lle |
| [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] |

## Manylion cyswllt y Prif Swyddog Cyllid

| | |
|---|---|
| **Swydd** | Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151 |
| [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] |

## Manylion cyswllt Arweinydd yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| [redacted] | [redacted] |
| **Swydd** | Arweinydd |
| [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] |

[redacted]

| | |
|---|---|
| | [redacted] |

## Nodwch gyfanswm y grant y gofynnwyd amdano o'r Gronfa Ffyniant Bro

£20000000

## Themâu buddsoddi

| | |
|---|---|
| **Adfywio canol trefi** | 60% |
| **Diwylliannol** | 40% |
| **Trafnidiaeth** | 0% |

## Pa lwfans cynnig ydych chi'n ei ddefnyddio?

Lwfans etholaeth lawn

## Faint o brosiectau sy'n rhan o'ch cynnig?

3

## A ydych yn cyflwyno cynnig ar y cyd?

Nac ydw

## Datganiad gwerth grant

**Yr wyf yn cyflwyno cynnig fel ymgeisydd unigol a gallaf gadarnhau nad yw gwerth grant y cynnig yn gyffredinol yn fwy na £20 miliwn**

Tic

## Meini prawf porth: costau, cynllunio a thaliadau

**Cadarnhaf y bydd rhywfaint o arian grant y GFfB yn cael ei dalu ym mlwyddyn ariannol 2022/23**

Tic

[redacted]

[redacted]

## Rhowch enw'r cynnig

Cwm Tawe Isaf: Adfywio trwy Etifeddiaeth Vivian

## Rhowch ddisgrifiad byr o'ch cynnig

Bydd cynllun Cwm Tawe Isaf yn cyflwyno tri phrosiect a ddiffinnir yn ddaearyddol, sy'n cydgrynhoi llwybr strategol buddsoddiadau mewn asedau hanesyddol sydd â'r nod o amlygu a chyfoethogi etifeddiaeth entrepreneuriaeth Fictoraidd a'r diwydiant copr. Mae creu cyrchfan treftadaeth newydd yng Ngwaith Copr Hafod-Morfa a fydd yn cynnwys arddangosfeydd, opsiynau lletygarwch a  marchnadleoedd drwy adfywio adeiladau hanesyddol, yn allweddol i hyn. Bydd cysylltedd â'r afon, gwelliannau i barthau cyhoeddus ac ailddychmygu bwâu rheilffordd Fictoraidd yn gwella'r rhyngwyneb cyhoeddus rhwng Gwaith Copr Hafod-Morfa a Chanol y Ddinas. Yn olaf, caiff Amgueddfa Abertawe ei huwchraddio'n sylweddol i gynyddu'r gofod arddangos a'r arlwy diwylliannol.

## Rhowch drosolwg mwy manwl o'ch cynnig

Ailddiffiniwyd Abertawe gan y teulu Vivian yn y 19eg Ganrif, gan greu menter copr o'r radd flaenaf gan adael etifeddiaeth helaeth, nid lleiaf etifeddiaeth ddiwylliannol a threftadol sylweddol sy'n sail i'r Ddinas fodern a Chwm Tawe isaf.

Mae'r cynllun uchelgeisiol hwn yn atgyfnerthu llwybr strategol o fuddsoddiadau yn dwyn pobl yn nes at dreftadaeth a diwylliant eiconig Abertawe, gan ddibynnu ar berthnasoedd gwaith cyhoeddus, preifat a chymunedol cryf wrth ystyried y lleoliad a'r defnydd gorau o asedau a chyfleusterau treftadaeth a diwylliannol allweddol i ysgogi ac annog canlyniadau cymdeithasol, cyflogaeth ac adfywio cryf. Bydd y prosiect yn cymysgu cyfleoedd creu incwm newydd gydag asedau treftadaeth sy'n cael trafferth, gan eu bywiogi o'r newydd a rhoi dyfodol hirdymor cynaliadwy. Wrth i atgofion tywyllach o'r oes ddiwydiannol bylu, mae yna gyfle newydd i ystyried yr effeithiau etifeddiaeth cyferbyniol, cadarnhaol a negyddol, wrth i ni ddod â ffyniant i'n sir.

Mae'r cynnig yn cynnwys tri phrosiect a ddiffinnir yn ddaearyddol. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar agweddau amlwg ar etifeddiaeth entrepreneuriaeth Fictoraidd a'i heffeithiau ar y ddinas fodern, gan eu hamlygu yn erbyn y rhaglen adfywio gref ar waith ar draws y sir.

Mae Prosiect 1 yn cydgrynhoi etifeddiaeth ddiwydiannol y diwydiant copr ar lannau Afon Tawe ar safle Gwaith Copr Hafod-Morfa, gan warchod y nodweddion treftadaeth cyfoethog gan gynnwys nifer o adeiladau rhestredig a'u rhyddhau ar gyfer defnydd busnes, paratoi ar gyfer buddsoddiad sector preifat newydd ar raddfa a chynyddu cysylltedd ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd ac adrodd y stori i genedlaethau newydd.

Mae Prosiect 2 yn trafod cysylltiadau'r afon ac yn hwyluso'r rhyngwyneb cyhoeddus â chraidd Canol y Ddinas trwy ail-ddefnyddio bwâu rheilffordd Fictoraidd yn greadigol i alluogi gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar fysiau, trenau ac afon, a pharhau y profiad treftadaeth na fanteisir ddigon arno ar hyn o bryd.

Mae Prosiect 3 yn creu cyrchfan sy'n asio gyda'r coridor treftadaeth drwy uwchraddio a gwella Amgueddfa Abertawe, yr hynaf yng Nghymru, gan alluogi arddangos hanes y lle mewn modd mwy cyfoethog, yn ogystal â dod â'i gasgliad at y gofod arddangos mwy er mwyn rhyddhau melin rolio y Gwaith Copr ar gyfer adfywio defnydd cymysg a budd economaidd.

Bydd y prosiect yn gweithio ar draws sectorau gan gynnwys Prifysgol Abertawe, amrywiaeth o grwpiau cyfeillion gweithgar a phartneriaid yn y sector preifat i gyflawni pecyn ariannu cynaliadwy arloesol a chynhwysfawr a fydd yn rhoi Abertawe ar y map fel lle sy’n trawsnewid treftadaeth mewn perygl yn ased mawr sy’n asio yn sensitif â dyfodol y Ddinas.

Ynghyd â'r manteision cymunedol a chymdeithasol sylweddol, bydd y prosiect yn creu cyflogaeth, yn enwedig mewn elfennau masnachol ond hefyd yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer ymgysylltu cymunedol a gwaith gwirfoddol o ansawdd uchel, yn enwedig o ystyried yr cynnydd yn y boblogaeth myfyrwyr o fewn pellter cerdded i'r holl gyfleusterau hyn. Bydd creu gofod masnachol newydd hefyd yn creu lle fforddiadwy ar gyfer micro-fentrau newydd ar draws ystod o sectorau.

Bydd y cyfuniad o fuddsoddiadau yn gwella'n sylweddol gyfleoedd i bob oedran i ymgysylltu â threftadaeth, gan gynyddu hyfywedd a chynaladwyedd asedau allweddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a gwerthfawrogiad a dealltwriaeth llawer cryfach ymhlith y boblogaeth ehangach

## Rhowch ddisgrifiad byr o'r ardal lle bydd y buddsoddi'n digwydd

Mae'r prosiect yn rhychwantu tri safle gwahanol yn Abertawe – fel yr amlinellir yn y llyfr gwaith dylunio atodedig.

Mae Prosiect 1 yn cynnwys safle Gwaith Copr sy'n rhedeg yn gyfochrog â Heol y Morfa ac afon Tawe.

Mae Prosiect 2 yn cysylltu'r safle Gwaith Copr ac yn anelu tua'r de lle mae Heol y Morfa yn ymuno â'r Strand – mae hon yn rhedeg gyfochrog â'r Stryd Fawr.

Mae Prosiect 3 yn canolbwyntio ar Amgueddfa Abertawe sydd wedi'i lleoli i'r de o'r A4067 a nesaf at Burrows Place, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Pharc yr Amgueddfeydd yng nghanol dinas Abertawe.

## A yw eich cais yn cynnwys unrhyw brosiectau trafnidiaeth?

Nac ydy

## Rhoi gwybodaeth am y lleoliadau

**Lleoliad 1**

| | |
|---|---|
| **Rhowch god post y lleoliad** | SA1 2LE |
| **Rhowch gyfeirnod grid y lleoliad** | SS660952 |
| **Canran y cais a fuddsoddir yn y lleoliad** | 42% |
| [redacted] | [redacted] |

**Lleoliad 2**

| | |
|---|---|
| **Rhowch god post y lleoliad** | SA1 2EA |
| **Rhowch gyfeirnod grid y lleoliad** | SS659937 |
| **Canran y cais a fuddsoddir yn y lleoliad** | 34% |
| [redacted] | [redacted] |

**Lleoliad 3**

| | |
|---|---|
| **Rhowch god post y lleoliad** | SA1 1SN |
| **Rhowch gyfeirnod grid y lleoliad** | SS659927 |
| **Canran y cais a fuddsoddir yn y lleoliad** | 24% |
| [redacted] | [redacted] |

## Dewiswch yr etholaethau a gwmpesir yn y cais

**Etholaeth 1**

| | |
|---|---|
| **Enw'r etholaeth** | Dwyrain Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y cais a fuddsoddir yn yr etholaeth hon** | 43% |

**Etholaeth 2**

| | |
|---|---|
| **Enw'r etholaeth** | Gorllewin Abertawe |

| | |
|---|---|
| **Amcangyfrifwch ganran y cais a fuddsoddir yn yr etholaeth hon** | 57% |

## Dewiswch yr awdurdodau lleol a gynhwysir yn y cais

**Awdurdod Lleol 1**

| | |
|---|---|
| **Enw'r awdurdod lleol** | Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y y cais a fuddsoddir yn yr awdurdod lleol hwn** | 100% |

## Is-gategorïau sy'n berthnasol i'ch buddsoddiad

| | |
|---|---|
| **Dewiswch un neu fwy is-gategori adfywio sy'n berthnasol i'ch buddsoddiad** | Masnachol |
| **Dewiswch un neu fwy o is-gategorïau diwylliannol sydd yn berthnasol i'ch buddsoddiad** | Economi Ymwelwyr<br>Adeiladau a safleoedd treftadaeth |

## Rhowch fanylion unrhyw geisiadau a wnaed i gynlluniau ariannu eraill ar gyfer yr un cynnig lle disgwylir am ganlyniad ar hyn o bryd

Dim cynigion eraill i gynlluniau ariannu

[redacted]

[redacted]

## Gwahoddir cynigwyr i amlinellu sut y bydd eu cynnig yn hyrwyddo cysylltiadau cymunedol da, yn helpu i leihau gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau, neu gryfhau integreiddio ar draws y gymuned leol

Bydd y cynlluniau hyn yn adeiladu ar y cysylltiadau presennol gyda chymunedau lleol ac yn cryfhau integreiddio trwy weithio'n agos gyda'r grŵp 'cyfeillion' cymunedol sy'n bodoli. Er enghraifft, mae nifer o grwpiau 'Cyfeillion' gwirfoddol yn gweithio gyda'r Cyngor ar safleoedd treftadaeth Cwm Tawe Isaf. Bydd gwaith yn cael ei symud ymlaen mewn partneriaeth â'r grwpiau hyn gan ymgysylltu â chymunedau trwy'r amrywiol ddigwyddiadau, teithiau cerdded wedi'u trefnu, ac ati., sy'n cael eu rhedeg gan y grwpiau hyn a'r rhwydweithiau sydd ganddynt.

Bydd y buddsoddiad diwylliannol a gynigir yn y prosiect hwn yn ail-ddefnyddio adeiladau a safleoedd treftadaeth a'u dwyn yn ôl yn fyw at ddefnydd cymunedol a masnachol, gan gefnogi ehangu economi ymwelwyr Abertawe. Bydd hyn yn denu mwy o ymwelwyr i Abertawe gan alluogi'r economi leol i dyfu a darparu mwy o gyfleoedd i gymunedau.

Bydd cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant ar gyfer y di-waith a'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn cael eu sicrhau trwy gymalau buddion i gymunedau mewn contractau caffael gan dîm ymroddgar y Tu Hwnt i Frics a Morter (BBM) y cyngor. Mae tîm BBM yn gweithio'n agos gyda phrosiectau cyflogadwyedd a bydd cymorth ar gael i alluogi'r rhai mewn angen i gael mynediad i'r cyfleoedd hyn. Bydd hyn yn creu effaith gadarnhaol sylweddol a lleihau'r gwahaniaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

Bydd y cynllun yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth, polisïau a strategaethau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal bob amser.

## A yw'r cymorth yn cael ei ddarparu gan 'awdurdod cyhoeddus' ac a yw'r cymorth yn gyfystyr â chyfraniad ariannol (neu mewn da) megis grant, benthyciad neu warant?

Ydy

## A yw'r cymorth yn rhoi mantais economaidd i un neu fwy o gyfranogwyr economaidd?

Ydy

**Rhowch fwy o wybodaeth i gefnogi eich ateb**

Gweler yr ymateb manwl isod mewn perthynas â phob cydran o'r prosiect gan fod gan rai elfennau o'r prosiect y potensial i roi mantais i un neu fwy o gyfranogwyr economaidd ac eraill heb:

1. Trosglwyddo grant o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) i'r Cyngor - Nac ydy.
   Nid yw'r cyngor yn fenter pan fydd yn derbyn ac yn gweinyddu'r grant ac felly nid oes mantais economaidd i fenter (cyfranogwr economaidd) mewn perthynas â'r
2. Cysylltiadau, parthau cyhoeddus ac amwynder cyhoeddus o amgylch bwâu Fictoraidd a'r Gwaith Copr – Nac ydy, gan nad yw hyn ar gyfer gweithgaredd economaidd gan ei fod yn isadeiledd rhad ac am ddim ac yn agored i'r cyhoedd
3. Amgueddfa Abertawe – Nac ydy, gan nad yw hwn yn weithgaredd economaidd. Dyrennir y cyllid cyhoeddus tuag at ased diwylliant a threftadaeth mynediad agored ac am ddim
4. Adnewyddu Bwâu Rheilffordd — Ydy, dyrennir cyllid cyhoeddus ar gyfer isadeiledd y gellir manteisio arno'n fasnachol ar gyfer gofod manwerthu sy'n weithgaredd economaidd.
5. Adnewyddu Gwaith Copr – Ydy, gan fod hwn ar gyfer darparu gweithleoedd a reolir yn fasnachol. Mae'r cyllid cyhoeddus yn rhoi mantais economaidd i'r Cyngor fel darparwr eiddo masnachol ac felly yn fenter (cyfranogwr economaidd).

[redacted]

## A yw'r mesur cymorth yn benodol i'r graddau y bo o fudd, fel mater o gyfraith neu ffaith, i rai cyfranogwyr economaidd dros eraill mewn perthynas â chynhyrchu nwyddau neu wasanaethau penodol?

Ydy

**Rhowch fwy o wybodaeth i gefnogi eich ateb**

Gweler yr ymateb manwl isod mewn perthynas â phob cydran o'r prosiect, gan fod gan rai elfennau y potensial i roi budd ac eraill heb:

1. Trosglwyddo grant o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) i'r Cyngor - Nac oes. Nid yw'r Cyngor yn fenter pan fydd yn derbyn y grant gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Bydd y trosglwyddiad cychwynnol hwn felly heb fod o fudd i rai mentrau (cyfranogwyr economaidd) dros eraill mewn perthynas â chynhyrchu nwyddau neu wasanaethau.
2. Cysylltiadau â pharthau cyhoeddus ac amwynderau cyhoeddus - Nac ydy. Ni fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn gweithgaredd economaidd.
3. Amgueddfa Abertawe atyniad diwylliannol mynediad agored am ddim – Nac ydy. Ni fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn gweithgaredd economaidd.
4. Bwâu Rheilffordd – Ydy. Bydd y Cyngor yn cefnogi isadeiledd manwerthu masnachol

sydd yn fenter (cyfranogwr economaidd). Gellir dadlau felly y byddai cefnogaeth y cyhoedd o fudd i rai mentrau (cyfranogwr economaidd - h.y. y Cyngor) dros eraill wrth gynhyrchu gwasanaethau penodol (eiddo tirol).

5. Gwaith Copr – Ydy. Bydd y Cyngor yn cefnogi gweithleoedd a reolir yn fasnachol a darpariaeth gofod manwerthu sy'n fenter (cyfranogwr economaidd). Gellir dadlau felly y byddai cefnogaeth y cyhoedd o fudd i rai mentrau (cyfranogwr economaidd h.y. y Cyngor) dros eraill wrth gynhyrchu rhai gwasanaethau (eiddo tirol). [redacted]

---

## A oes gan y mesur cymorth y potensial i wyrdroi neu niweidio cystadleuaeth, masnach neu fuddsoddiad?

Oes

---

**Rhowch fwy o wybodaeth i gefnogi eich ateb**

Gweler yr ymateb manwl isod mewn perthynas â phob cydran o'r prosiect, gan fod gan rai elfennau y potensial i wyrdroi cystadleuaeth, masnach a buddsoddiad ac eraill heb:

1. Trosglwyddo grant o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau DLUHC) i'r Cyngor - Nac oes. Nid yw'r Cyngor yn fenter (cyfranogwr economaidd).
2. Cysylltiadau â pharthau cyhoeddus ac amwynderau cyhoeddus - Nac oes. Nid yw'n weithgaredd economaidd.
3. Amgueddfa Abertawe – treftadaeth gyhoeddus a diwylliant – Nac oes. Nid yw'n weithgaredd economaidd
4. Bwâu Rheilffordd – Oes, mae yna effaith bosibl ar ddarparwyr manwerthu masnachol a gofod swyddfa eraill
5. Gwaith Copr – Ydy. Mae effaith bosibl ar ddarparwyr gweithleoedd a reolir yn fasnachol a manwerthu a gwasanaethau cysylltiedig eraill. [redacted]

---

## Egwyddor amcan polisi cyhoeddus

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Mae'r safleoedd segur yn y Gwaith Copr a'r Bwâu Rheilffordd yn asedau treftadaeth ac mae'r ymyriadau'n sicrhau bod safleoedd treftadaeth adfeiliedig yn cael eu defnyddio eto'n economaidd. Mae Adran 3.3 y cais isod yn darparu'r ymyriadau:

"yn atgyfnerthu etifeddiaeth ddiwydiannol y diwydiant copr ar lannau'r afon Tawe yng Ngwaith Copr Hafod-Morfa, gan warchod nodweddion treftadaeth gyfoethog gan gynnwys nifer o adeiladau rhestredig, gan eu rhyddhau at ddefnydd busnes, a pharatoi ar gyfer buddsoddiad sector preifat newydd a chynyddu cysylltedd cymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd ac yn adrodd y stori i genedlaethau newydd."

Yr amcan cyffredinol uchod yw rhesymeg ecwiti yn seiliedig ar greu ffyniant mewn ardal o dan anfantais yn rhanbarthol drwy ddod ag asedau treftadaeth yn ôl i ddefnydd economaidd.

Mae yna hefyd fethiant a nodwyd yn y farchnad ers ymgynghori â rhanddeiliaid a datblygwyr sector preifat sy'n dangos amharodrwydd i fodloni'r diffyg cadwraeth sylweddol o ran cadw agweddau treftadaeth yr adeiladau dan sylw. Mae hyn hefyd oherwydd yr arenillion rhent isel yn gyffredinol yn yr ardal.

Mae hyn yn creu bwlch hyfywedd fel yr amlinellir yn y ffurflen gais.

Yr amcan penodol yw ateb y galw a aseswyd trwy ymgynghori, cynnal arolwg ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y datblygiad (fel yr amlinellir isod) a'r prif gynllun cysylltiedig.

Mae'r prif gynllun ar gyfer y prosiect wedi'i seilio ar adborth o amrywiol ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi nodi'r angen am ymyriadau allweddol yn y Ddinas. Mae'r adborth hwn wedi'i ymgorffori yn ein Cynllun Gwella Corfforaethol 2022-23 sy'n amlygu ein hamcanion polisi, lle byddwn yn ceisio:

Darparu ymagwedd alluogol i gefnogi unigolion, busnesau a chymunedau drwy ein cymorth cyflogaeth a busnes, gweithgareddau adfywio, asedau diwylliannol, cysylltedd trafnidiaeth, cynllunio a chefnogaeth arall a fframweithiau rheoleiddio wrth gyflwyno'r mesurau ymarferol hyn.

Sicrhau bod Abertawe yn lle a nodweddir gan gymunedau cynaliadwy gyda digon o dai o ansawdd da a lleoedd ar gyfer gwaith a hamdden.

Creu dyfodol newydd i Ganol y Ddinas a'r ardal lai a chanolfannau lleol ac addasu i ffyrdd newydd o weithio gan gynnwys dulliau cludiant a chysylltedd ac effaith gadarnhaol ar leoedd.

Helpu i leihau bwlch hyfywedd eiddo masnachol trwy ddarparu gofod swyddfa hyblyg ac o ansawdd da

y gellir eu haddasu mewn ymateb i lefelau cynyddol ddiddordeb i fewnfuddsoddi a thwf busnesau annibynnol lleol yng nghanol trefi ac mewn lleoliadau diwydiannol modern.

[redacted]

## Egwyddor gymesur a chyfyngedig

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Mae'r cyngor yn fodlon dros dro, drwy ddadansoddiad bwlch hyfywedd o'r gwahaniaeth rhwng costau cyfalaf y gwaith a gwerth presennol yr elw gweithredu a ragamcenir dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig pob ased.

Mae’r bwlch hyfywedd yn codi’n bennaf o ganlyniad i ddiffyg cadwraeth (gweler fwy o fanylion yn y ffurflen gais).

Mae'r dadansoddiad a wnaed yn cadarnhau nad yw'r arian cyhoeddus yn cwmpasu mwy na'r bwlch hyfywedd hwnnw, na all yr ymyriad ddigwydd hebddo. Mae'r Cyngor yn agored i gytundeb ariannu yn amodol ar adfachu elw gormodol pe byddai'r bwlch hyfywedd yn llai na'r hyn a ragwelwyd. Mae'r Cyngor hefyd yn agored i gynnal yr ymyriadau trwy SPV berchnogaeth lwyr os oes angen iddo ddarparu rhywfaint o'r cyllid ar gyfer yr ymyriadau ar ffurf a benthyciad masnachol.

[redacted]

## Egwyddor newid ymddygiad economaidd

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Mae'r dadansoddiad Theori Newid yn y ffurflen gais yn archwilio ymagwedd "gwneud dim byd" na fyddai'n darparu cymhareb cost a budd mor sylweddol â'r opsiwn a ffefrir (yr ymyriadau a gynigir).

Mae effaith y dyfarniad, a allai newid ymddygiad, yn gysylltiedig â mynd i'r afael â'r bwlch hyfywedd sy'n atal y prosiect rhag symud yn ei flaen fel arall. Mae'r Cyngor felly'n fodlon y bydd y cymhorthdal yn galluogi'r cyfleuster i gael ei adeiladu yn y modd a gynigiwyd i gyflawni yr amcan, na fyddai'n gallu ddigwydd fel arall.

Gwnaeth adrannau cost a budd a gwerth am arian y ffurflen gais asesu opsiynau cyflawni a'r ymyriadau a gynigir i gyflawni'r gymhareb cost a budd (BCR) uchaf (2.8).

[redacted]

## Digolledu costau a ariennir fel arall gan egwyddor y buddiolwr

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Nid oes unrhyw ymrwymiad cyfreithiol i fwrw ymlaen â’r prosiect ar hyn o bryd. Mae'r Arweiniad Drafft yn ceisio atal cymorthdaliadau tuag at gostau gweithredu (fel rhentu les) gan y disgwylir yn gyffredinol iddynt gael eu hariannu trwy refeniw gweithredu.

Nid yw'r cymhorthdal yma tuag at gostau gweithredu parhaus ond yn hytrach ar gyfer costau cyfalaf untro caffael a datblygu safleoedd treftadaeth adfeiliedig i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd economaidd. Caiff y costau cyfalaf hyn eu rhestru a'u hasesu yn rhesymol gan brisiadau RICS a QS.

Mae'r bwlch hyfywedd hefyd yn dangos na fyddai'r ymyriad neu yn wir unrhyw ran ohono yn cael ei gyflawni heb gymhorthdal.

[redacted]

## Egwyddor offeryn polisi priodol

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Mae’r ymyriadau’n cael eu hariannu’n gyfan gwbl gan y cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn fodlon na ellir cyflawni'r amcan heb gymhorthdal o ystyried y bwlch hyfywedd a'r diffyg cadwraeth sylweddol sydd yn cyfrannu ato.

Byddai unrhyw gyllid arall yn seiliedig ar enillion masnachol, fel dyled neu ecwiti, yn gwaethygu'r bwlch hyfywedd i lefelau annerbyniol.

Mae'r Prosiect yn cael ei arwain gan y Cyngor er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy ystyried buddion ariannol ehangach yn ogystal â buddion cychwynnol. Pe bai'r prosiect o dan arweiniad y sector preifat byddai'n anodd denu diddordeb o ystyried dirprwyo risgiau. Bydd ymyriadau yn rhy benodol i'r Cyngor eu cyflawni drwy weithred reoleiddio yn hytrach na chymhorthdal.

[redacted]

## Egwyddor cystadleuaeth a buddsoddi

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Nod yr ymyriadau yw bodloni'r galw cudd yn yr ardal a nodwyd trwy ymgynghori ac arolwg. O ganlyniad mae prin yw'r ffactorau afleoliad, gollyngiadau a adleoli o ardaloedd cyfagos.
Mae'r Cyngor yn fodlon y bydd effeithiau negyddol y prosiect yn ddi-bwys ar gystadleuaeth ar sail y galw a ragwelir am y cyfleusterau a diffyg cyflenwad presennol, gan nodi hefyd y math o denantiaid y mae'n rhagweld na fyddent fel arall yn debygol o fod eisiau gadael yr ardal i fyw yn rhywle arall beth bynnag.
Mae bwlch hyfywedd a methiant a nodwyd yn y farchnad yn golygu bod risg effeithiau negyddol ar gystadleuaeth yn yr ardal yn debygol o fod yn fach iawn.
Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymrwymo i gynnal astudiaeth economaidd i gystadleuaeth benodol bellach ar y pwynt hwn i ganfod a oes unrhyw effeithiau negyddol perthnasol y gellid eu rhagweld ac os felly sut gallai'r Cyngor leihau hyn orau (trwy addasu'r Prosiect os oes angen).

[redacted]

## Egwyddor effeithiau cadarnhaol clir

**Dangoswch isod sut mae eich cynnig yn bodloni'r egwyddor hon**

Fel y cyfeiriwyd ato uchod mae'r Cyngor yn fodlon dros dro bod Bydd y prosiect yn arwain at effeithiau negyddol dibwys a bydd effeithiau cadarnhaol cyflawni'r amcanion a amlinellir uchod yn gorbwyso yn hawdd. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau maes o law, yn benodol wedi cwblhau'r astudiaeth bellach ar effeithiau cystadleuaeth fel y nodir uchod.
Prawf cydbwyso yw hwn ac mae'r Cyngor yn cadarnhau dros dro bod rhestr o elfennau cadarnhaol wedi'i llunio a bod yr elfennau cadarnhaol yn gorbwyso'r elfennau negyddol yn sylweddol (yn enwedig pan fo manteision ehangach adfywio ac ardaloedd difreintiedig cronig yn cael eu hystyried).
Adlewyrchir hyn yn y gymhareb cost a budd yn yr adran ar y ffurflen gais sy'n rhestru effeithiau negyddol y cymhorthdal, yn benodol o ran dadleoli, adleoli, gollyngiadau ac ati, ac mae'r pwyntiau hyn hefyd yn berthnasol i ddadansoddi cystadleuaeth y farchnad.

[redacted]

## A fyddwch chi’n dosbarthu’r arian fel cymhorthdal posibl i drydydd partïon?

Na fyddwn

## A oes AS wedi rhoi cefnogaeth blaenoriaeth ffurfiol i gefnogi'r cynnig hwn?

Oes

| | |
|---|---|
| **Enw llawn yr AS** | AS Carolyn Harris |
| **Etholaeth yr AS** | Dwyrain Abertawe |
| [redacted] | [redacted] |

## Disgrifiwch pa ymgysylltu yr ydych wedi'i wneud â rhanddeiliaid perthnasol lleol. Sut mae hyn wedi llywio eich cynnig a pha gymorth sydd gennych chi ganddynt?

Prosiect Cymunedau Cysylltiedig
Mae'r prosiect wedi'i adeiladu ar sylfaen gadarn o ymgysylltu sylweddol dros y degawd diwethaf oherwydd y cydweithio ar Brosiect Cu@Swansea rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor Abertawe, Prosiect Cymunedau Cysylltiedig Prifysgol Abertawe a datblygiad Prif Gynllun ar gyfer y safle gan Purcell sydd wedi parhau i esblygu.

Mae ymgysylltu wedi cynnwys:

Y Digwyddiad Diwrnod Copr cyntaf yn 2010 gan ddenu 3,000 o bobl
• Lansiad y safle ar ddiwedd y prosiect a ariannwyd gan Cadw ym mis Mehefin 2014 gan ddenu 7000+ o bobl.
7

• Gwnaeth sefydlu Grŵp Cyfeillion gan Brosiect Cu@Swansea annog cydweithio gyda'r cyhoedd a sefydliadau cymdeithas sifil. Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori deirgwaith y flwyddyn, ac maent yn denu 60+ o bobl, gan ddarparu adborth parhaus ar y prosiect.

• Enwebodd y Cyfeillion bwyllgor rheoli yn 2015 i ddatblygu a nifer o weithgareddau prosiect, gan gyfarfod 8-10 gwaith y flwyddyn. Caiff grwpiau cyfeillion eu llunio gan wirfoddolwyr lleol o'r gymuned sy'n helpu i sicrhau bod safbwyntiau cymunedol yn cael eu hymgorffori yn y cynigion.

• Mae cyfnodau gwaith a ysgogir gan y gymuned ers 2018 hyd yma wedi gweld ymgysylltiad y gymuned yn datgloi arian ac arbenigedd i gefnogi adnewyddu mwy o strwythurau ac adeiladau, yn benodol Tŷ Injan Musgrave a'i injan annatod.

• Ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau lleol am welliannau arfaethedig i asedau allweddol. Gwnaeth y defnydd o gyfryngau cymdeithasol helpu i gyrraedd aelodau ychwanegol o'r gymuned na fyddent efallai wedi ymgysylltu fel arall.

Y Prif Gynllun
Roedd y gwaith o baratoi Prif Gynllun y Safle yn 2013 yn seiliedig ar ymgynghori â nifer fawr ac amrywiol o bartneriaid, grwpiau cymunedol, a rhanddeiliaid posib. Mae'r cynllun hwn yn cael ei fireinio'n barhaus wrth inni ddysgu mwy am y safle, ystyried adborth gan randdeiliaid a phartneriaid adfywio ac wrth i anghenion economaidd a chymdeithasol esblygu, mae'r cynllun i bob pwrpas wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cyfres o ymyriadau ariannu llai yn arwain at yr ymagwedd cwm cyfan mwy hwn.

Ymgynghorwyd â'r tenant sector preifat ar gyfer adeilad y Pwerdy, sydd i'w adnewyddu'n fuan, ar safle Gwaith Copr Hafod-Morfa ar y cynllun ac mae wedi darparu llythyr o gefnogaeth ar gyfer ailddatblygu'r safle ehangach. – gweler [redacted]

[redacted]

Mae Porth y Gorllewin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y cynllun o ran manteision economaidd yn cael eu gwireddu ar y safle Gwaith Copr, gwell cysylltiadau a nifer ymwelwyr yng nghanol y ddinas. [redacted]

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cafodd yr adborth a dderbyniwyd wedi'r ymgysylltu uchod â rhanddeiliaid ei goladu a lluniodd datblygiad y prosiect hwn yn uniongyrchol a darparu tystiolaeth gadarn o'r angen am y cynllun arfaethedig. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau wrth i'r prosiect ddechrau ar ei gamau dylunio a chyflwyno manwl a fydd yn cynnwys prosesau ymgynghori statudol gyda rhanddeiliaid fel rhan o'r broses gynllunio.

## A yw eich cynnig wedi wynebu unrhyw wrthwynebiad?

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol
Mae Cyngor Abertawe wedi datblygu'r cynllun mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yr effeithir arnynt gan y cynigion, ochr yn ochr â'r gymuned ehangach. Mae hyn wedi cyfrannu at ennyn cefnogaeth eang i'r cynigion, a fydd chwarae rhan allweddol wrth gefnogi adfywiad tymor hir y dref. Ar y sail hon, nid oes unrhyw ymgyrchoedd na grwpiau wedi'u trefnu i wrthwynebu'r prosiect.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod:

- datblygiad y cynllun yn parhau i gael ei lywio gan fewnbwn cymunedol wrth iddo symud yn ei flaen; a
- bydd y tarfu ar fusnesau a thrigolion cyn lleied â phosibl yn ystod y gwaith adeiladu.

## A oes gennych chi gyfrifoldeb statudol dros gyflawni pob agwedd ar y cynnig?

Oes

## Rhowch dystiolaeth o'r heriau / rhwystrau lleol i dwf a chyd-destun y mae'r bid yn ceisio ymateb iddo

Prif ddinas ranbarthol

Abertawe yw ail ddinas fwyaf Cymru a hefyd brifddinas ranbarthol a phrif ysgogwr ar gyfer twf economaidd yn ne-orllewin Cymru. Wedi'i bendithio ag arfordir hardd, mae'n gartref i ardal o harddwch naturiol eithriadol gyntaf y Deyrnas Unedig. Mae'n elwa o fuddsoddiad y fargen ddinesig sydd wedi creu’r Arena Ddigidol newydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas. Mae gan y ddinas amrywiaeth o asedau naturiol a threftadaeth, fodd bynnag, mae'n wynebu nifer o heriau a rhwystrau economaidd: -

- Lefelau uchel o amddifadedd - mae 17 (11.5%) o’i 148 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 191 (10%) mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae ffigurau cyfrif hawlwyr (Maw-22) yn dangos bod gan rai wardiau gyfraddau sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Abertawe (3.8%); Townhill (8.4%), Penderi (7.5%), Castell (6.9%) a Glandŵr (5.6%).
- Er bod Abertawe wedi dangos twf mewn GYC y pen yn y blynyddoedd diwethaf, mae ar ei hôl hi yn y Deyrnas Unedig. Dros y cyfnod 2014-19 mae Abertawe wedi cynyddu 12.9% o gymharu â 5.6% a 15.1% yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Yn seiliedig ar y llwybr hwn, mae Abertawe mewn perygl o ddisgyn ymhellach y tu ôl i’r Deyrnas Unedig o ran twf economaidd oni bai bod cyfleoedd newydd yn cael eu creu.
- Nid oes gan Ganol y Ddinas a'r ardaloedd cyfagos yr arwynebedd llawr masnachol modern, hyblyg a fforddiadwy, na'r cynnig hamdden sydd ei angen i fanteisio ar y cyfleoedd posibl. Oherwydd rhenti marchnad isel mae angen cymorth ar y sector preifat i ddatblygu adeiladau.
- Mae dirywiad manwerthu a llai o bobl yn ymweld â chanol dinasoedd wedi cael eu gwaethygu gan y pandemig. Er bod nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas yn dechrau adfer, mae ffigurau diweddaraf Springboard ar gyfer wythnos 22 (20 Mehefin) yn dangos ei fod yn parhau 24.2% yn is na lefelau cyn pandemig 2019. Mae'r adferiad yn arafach nag ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru sydd yn 20.1% a 21.3% yn is na lefelau 2019 yn y drefn honno.
Mae llawer o ganolfannau ardal gan gynnwys tref gyfagos Treforys hefyd yn dioddef nifer isel o ymwelwyr.
- Ceir lefelau uchel o fandaliaeth a difrod i'r adeiladau rhestredig gwag yn y Safle Gwaith Copr.

Wrth i ni symud allan o'r pandemig, y pedwar maes ffocws/thema allweddol yn y Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd i adfer economi Abertawe yw

1. Datblygu’r economi leol
2. Lles
3. Cymuned
4. Pobl a Swyddi

Mae’r cynigion yn ceisio mynd i’r afael â’r uchod drwy:
· greu cyrchfan unigryw i ymwelwyr, cyfleoedd i fusnesau lleol,

The linked image cannot be displayed. The file may have been moved, renamed, or deleted. Verify that the link points to the correct file and location.

gwella cysylltiadau cerddwyr o'r ardal i'r orsaf, canol y ddinas, y marina a phrifysgolion, gan gefnogi nifer yr ymwelwyr sydd ar droed a gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio'r ardal ymhellach.

Bydd trawsnewid adeilad y Felin Rolio (Prosiect 1) yn Neuadd Fwyd hyblyg yn creu cyfleoedd i'r sector bwyd dyfu.
Bydd y prosiectau arfaethedig yn ward Glandŵr yn helpu'n uniongyrchol i greu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer yr hawlwyr hyn drwy raglen adnewyddu Prosiect 1.

Bydd adnewyddu a dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd masnachol yn goresgyn problemau troseddol cysylltiedig.
Bydd trosglwyddo arteffactau treftadaeth o'r Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn

galluogi eu harddangos a'u cadw yn unol ag arfer gorau, gan wella arlwy amgueddfa hynaf Cymru ac arwain at fwy o ymwelwyr ar gyfer economi canol y ddinas yn unol â Fframwaith Datblygu Diwylliannol Abertawe.

## Eglurwch pam mae angen buddsoddiad gan y Llywodraeth (beth yw methiant y farchnad)

Diffyg cadwraeth sylweddol a bwlch hyfywedd.
Fel y cyfeiriwyd ato uchod ac yn y Theori Newid [redacted] mae Gwaith Copr Hafod-Morfa wedi bod mewn cyflwr adfeiliog ers i'r Gwaith Copr gau dros 40 mlynedd yn ôl. Caeodd safle Gwaith Copr yn 1980 pan oedd yn eiddo i Yorkshire Imperial Metals, ac ers hynny mae'r safle a'r adeiladau rhestredig cysylltiedig wedi mynd yn adfail. Oherwydd halogiad y tir, archeoleg, cyflwr dirywiol yr adeiladau ac asedau treftadaeth ar y safle mae yna ddiffyg cadwraeth sylweddol abwlch hyfywedd. Dros y degawdau diwethaf ni fu unrhyw ddiddordeb gwirioneddol yn y safle o'r sector preifat oherwydd y problemau risg uchel amrywiol ar y safle a'r gwaith adfywio sylweddol angenrheidiol i wneud y safle yn hyfyw ac â defnydd economaidd,

– sy'n fethiant amlwg yn y farchnad sydd eto i'w oresgyn yn ystod y 40 o flynyddoedd ers i'r gwaith gau.

Felly mae angen buddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus i adfywio'r ardal i safon sy'n dileu'r risgiau ar gyfer buddsoddiad pellach gan y sector preifat ac yn denu'r buddsoddiad a'r diddordeb cywir gan fusnesau preifat. Nid yw'r arian o'r raddfa angenrheidiol i gefnogi lefel yr isadeiledd sy'n ofynnol wedi bod ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyda'r modd i gwmpasu y mathau hyn o fuddsoddiadau.

Llawer i'w wneud
Mae'n werth nodi bod gwaith wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf i adfer ac adfywio un ased treftadaeth allweddol ar safle Gwaith Copr – adeilad y cyn-Bwerdy. Nid yw'r adeilad hwn wedi'i gynnwys yng nghwmpas y cynllun hwn am fod y cynllun wedi cael ei ariannu ar y cyd gan y Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chyngor Abertawe. Bydd y cynllun hwn yn dod yn gartref i Ddistyllfa Penderyn ar ôl cwblhau'r gwaith yn ail hanner 2022. Mae cynllun y Pwerdy wedi creu diddordeb o'r newydd yn safle'r gwaith copr ehangach ac mae wedi adeiladu momentwm a diddordeb gan y sector preifat ynghyd â budd y cyhoedd. Tra bod y cynllun yn arwyddocaol wrth adfer a moderneiddio adeilad treftadaeth ar y safle i greu cyrchfan i ymwelwyr a'r gweithredwr masnachol cyntaf ar y safle mewn mwy na 40 mlynedd, mae llawer i'w wneud o hyd i ailddatblygu'r safle ehangach a datgloi'r adeiladau sy'n weddill at ddefnydd masnachol, diwylliannol a chymunedol. Mae hwn yn amser hollbwysig i fanteisio ar hyn ochr yn ochr â'r gweithgaredd adfywio sy'n digwydd yng nghanol y ddinas.

Mae'r un peth yn wir am welliannau i'r Strand a'r Stryd Fawr ac Amgueddfa Abertawe. Nid yw'r Amgueddfa ei hun wedi derbyn buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd diffyg arian grant o faint digonol i gynnal asedau diwylliannol. Mae'r gwaith ehangu a gwella arfaethedig yn rhesymegol ac yn ymagwedd bragmataidd at wneud y defnydd gorau o'r tir o amgylch yr Amgueddfa a fydd yn caniatáu mwy o ofod arddangos a chynyddu nifer yr ymwelwyr i gyfoethogi arlwy hanesyddol a diwylliannol yn Abertawe.

## Eglurwch yr hyn yr ydych yn bwriadu buddsoddi ynddo a pham bydd yr ymyriadau arfaethedig yn y cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau hynny

Prosiect 1 – Mae Prosiect Adfywio Safle Gwaith Copr Hafod Morfa (H-MCwS) yn atgyfnerthu etifeddiaeth ddiwydiannol y diwydiant copr ar lannau'r afon Tawe yn H-MCwS, gan gadw nodweddion treftadaeth cyfoethog gan gynnwys adeiladau rhestredig a'u rhyddhau at ddefnydd busnes, paratoi ar gyfer buddsoddiad newydd y sector preifat a chynyddu cysylltedd ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr, ac adrodd y stori i genedlaethau newydd.

- Adfer hen adeilad y Labordy i greu bwyty/man bwyd a diod (F&B).
- Tŷ Musgrave a Thŷ Injan Vivian - adeiladu ardal newydd i greu atyniad treftadaeth i ymwelwyr a chaffi.
- Sied V&S - ailosod trac a locomotif.
- Creu marchnad yn adeilad y Felin Rolio gynt.
- Parthau cyhoeddus bywiog newydd

Prosiect 2 – Mae Cysylltiadau Afon Tawe o'r Gwaith Copr i Dwneli'r Traeth a Chanol y Ddinas yn trafod cysylltiadau'r afon ac yn hwyluso'r rhyngwyneb cyhoeddus â chanol y ddinas trwy ailddefnyddio bwâu rheilffordd Fictoraidd yn greadigol, galluogi gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus (bws, rheilffordd, afon) a pharhau â'r profiad treftadaeth na fanteisir arno'n ddigonol ar hyn o bryd.

- Gosod dau bontŵn ar hyd Afon Tawe; I'r gogledd o safle'r Gwaith Copr yn Stadiwm Liberty/Pont Bascule, ac i'r de o'r safle Gwaith Copr yn agos at Dwneli Fictoraidd y Strand yng nghanol y Ddinas.
- Creu blaenau siopau ac unedau manwerthu bychan i fusnesau bach a chanolig eu maint ym Mwâu Fictoraidd y Strand, mynedfa esgynyddion allanol i'r Stryd Fawr.
- Gwelliant sylweddol i isadeiledd cyhoeddus a thirlunio parthau cyhoeddus yn y Strand, cyfagos i'r bwâu a'r twneli.
- Gwell cysylltiadau i gerddwyr yn Nhwneli'r Strand, gan gynnwys creu podiau manwerthu ac uwchraddio'r goleuadau.

Prosiect 3 – Mae prosiect uwchraddio ac ehangu Amgueddfa Abertawe yn creu cyrchfan gyda'r coridor treftadaeth wrth uwchraddio a gwella Amgueddfa Abertawe, yr hynaf yng Nghymru, gan alluogi arddangosfa gyfoethocach o'i hanes, a dod â'i gasgliad yn nes at y gofod arddangos cynyddol, gan ryddhau y Felin Rolio ar gyfer adfywio defnydd cymysg a budd economaidd.

- Ychwanegu adeilad newydd i Amgueddfa Abertawe yn darparu ôl troed sylweddol i'r ehangiad.
- Gofod arddangos ac oriel ychwanegol, gan ddod â chasgliadau sydd wedi'u storio yn y Felin Rolio i leoliad cyhoeddus i'w harddangos.
- Creu ardaloedd cadwraeth a storio newydd
- Creu caffi newydd a fydd ar agor i'r cyhoedd
- Mynedfa ddeuol newydd i ddarparu 'cysylltiad' rhwng yr amgueddfa bresennol ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a leolir ar draws y cwrt allanol.

Bydd y tri phrosiect cyflenwol hyn yn helpu i arallgyfeirio arlwy'r ddinas i'w thrigolion ac ymwelwyr drwy greu gofod masnachol i wella mannau gwerthu bwyd a diod, cyflwyno cyfleusterau hamdden a chysylltu cynigion diwylliant a threftadaeth cyfoethog y rhanbarth a chan adeiladu ar y gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth sy'n cael ei gyflawni yn Nhreforys, y mae ei hanes yn rhan annatod o'r safle Gwaith Copr.

Fel yr amlinellir isod, bydd cyflawni'r tri phrosiect hyn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol fel y'u nodir yn ein hachos dros fuddsoddi a'n pedwar Thema Adferiad Economaidd isod: Datblygu'r economi leol, Lles, y Gymuned, Pobl a Swyddi

Mae'r prosiect yn chwarae rhan uniongyrchol yn 'Datblygu'r economi leol' wrth greu gofod masnachol newydd drwy adfywio asedau adfeiliedig a chreu atyniadau ymwelwyr newydd gwell, gan greu buddion economi sylweddol. Bydd yn cefnogi ein blaenoriaeth 'Lles' drwy fuddsoddi mewn parthau cyhoeddus creu lleoedd a chynigion diwylliannol gwell, gan gefnogi cydlyniant cymdeithasol o fewn y 'Gymuned' drwy fannau gwyrdd ychwanegol, llwybrau cerdded, a balchder yn eu hardal. Bydd ein blaenoriaeth 'Pobl a Swyddi' yn cael sylw trwy greu swyddi ychwanegol, lleoliadau gwaith a chyfleoedd prentisiaeth o ganlyniad i fuddsoddiad mewn arwynebedd llawr masnachol a chreu atyniadau i ymwelwyr.

Bydd y prosiect yn helpu i ailgysylltu cymunedau â'u treftadaeth leol ac yn meithrin ymdeimlad o falchder yn eu hardal. Mae'n cynnig cyfleoedd i bobl wella eu hiechyd a'u lles drwy'r llwybrau cerdded drwy'r safleoedd.

Mae'r prosiectau'n creu gofod i fusnesau lleol ddatblygu a thyfu a byddant yn arwain at fwy o gyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol gan felly godi safonau byw. Bydd cyfleoedd gwaith a lleoliadau hyfforddiant sgiliau hefyd yn cael eu creu yn ystod y gwaith adnewyddu ar yr adeiladau rhestredig.

Bydd symud y gwrthrychau treftadaeth a hanes sydd wedi'u storio yn y Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn gwella mynediad ac yn cefnogi ysgolion i addysgu am dreftadaeth a hanes.

Trwy ddechrau defnyddio'r Felin Rolio a Thwneli'r Strand unwaith eto bydd yn helpu i ddiogelu'r safleoedd hyn rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd twf economi ymwelwyr Abertawe yn chwarae rhan bwysig yn adferiad economaidd Abertawe; mae angen amrywio'r hyn a gynigir i ymwelwyr a chreu mwy o resymau i bobl aros yn hwy yn y ddinas. Disgwylir i Ganolfan Ymwelwyr newydd Penderyn ar safle'r Gwaith Copr ddenu 80,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Bydd y gwaith o adnewyddu adeiladau a amlinellwyd ym Mhrosiect 1 yn darparu gofod masnachol mawr ei angen ar gyfer busnesau newydd, a busnesau bwyd. Bydd hyn yn adeiladu ar gyfleusterau'r Ganolfan Ymwelwyr ac yn darparu cyfleoedd i ymwelwyr gynyddu hyd eu harhosiad a'u gwariant dilynol yn y ddinas. Bydd trosglwyddo'r casgliad treftadaeth sy'n cael ei storio yn y Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn galluogi'r amgueddfa i gynyddu nifer ei hymwelwyr a gwella ei harlwy i ysgolion gan alluogi mwynhau mwy ar dreftadaeth y ddinas.

Mae'r pecyn CFfB yn allweddol i ysgogi adfywio a thwf economaidd drwy greu cyrchfan unigryw i ymwelwyr a bydd yn datgloi buddsoddiad preifat pellach.

[redacted]

Bydd y datblygiadau hyn yn denu degau o filoedd o ymwelwyr newydd i'r ddinas, yn creu arwynebedd llawr a chyfleoedd gwario a chyflenwi newydd i fusnesau, sydd yn ei dro yn cryfhau'r economi i hwyluso lles economaidd.

[redacted]

## Sut byddwch chi'n cyflwyno'r allbynnau ac yn cadarnhau sut mae canlyniadau'n debygol o lifo o'r ymyriadau?

### Problemau, Heriau a Rhwystrau

Cyflwr gwael a/neu adfeiliedig asedau treftadaeth ar y safle Gwaith Copr
Cyn-safle diwydiant trwm na chaiff ei ddefnyddio ddigon a oedd unwaith yn flaenllaw yn y diwydiant copr.

Mae halogiad tir hanesyddol yn y safle Gwaith Copr yn cyflwyno risgiau anhysbys a goblygiadau cost ar gyfer gwaith adfer.

Mae diffyg buddsoddiad yn Amgueddfa Abertawe dros y degawdau diwethaf wedi golygu bod llawer o'r casgliad yn parhau i fod mewn storfa nad yw'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Felin Rolio.

Diffyg cysylltiad rhwng y Strand a'r Stryd Fawr oherwydd cysylltiadau gwael a pharth cyhoeddus yn creu ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau troseddu. Diffyg cydlyniant cymunedol.

Bwlch hyfywedd sylweddol ar gyfer adfywio, gan atal buddsoddiad gan y sector preifat.
Nid oes ffynhonnell cyllid grant arall o'r un maint ar gael i symud y gwaith o ddatblygu safleoedd ac asedau yn ei flaen, ar wahân i'r Gronfa Ffyniant Bro. O'r herwydd cafwyd diffyg buddsoddiad mewn mwy na 30 mlynedd - methiant amlwg yn y farchnad.

**Mewnbynnau a Gweithgareddau**

Buddsoddiad CFfB Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Arian cyfatebol Cyngor Abertawe (DASA) ac adnoddau rheoli prosiect

Penodi tîm rheoli prosiectau cleientiaid DASA a chaffael Tîm Dylunio Amlddisgyblaethol (MDT)

Datblygu dyluniadau ar gyfer pob ased yn rhaglen Cwm Tawe Isaf, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a derbyn mewnbwn ganddynt.

Marchnata opsiynau masnachol a thwristiaeth terfynol i'r tenantiaid/gweithredwyr yn y pen draw yn ystod RIBA 2

Caffael prif gontractwr i gyflawni'r gwaith canlynol:
- Ymestyn ac ailgyflunio Amgueddfa Abertawe
- Adfer Tŷ Injan Musgrave a Thŷ Injan Vivian ac adeiladu ardal newydd
- Gwelliannau i'r Felin Rolio
- Adfer Sied V&S, ailosod trac a locomotif, ynghyd â gwelliannau a dadhalogi parthau cyhoeddus.
- Gwaith gwella i Dwneli'r Strand a'r Stryd Fawr
- Gwelliannau bychan i lwybr cerdded Cwm Tawe Isaf i Ganol y Ddinas a'r Graig Wen

**Allbynnau ar Unwaith**

Adfer a datblygu safle segur ac adfeiliedig yn y Safle Gwaith Copr.

Darparu mannau cyhoeddus a llwybrau cerdded newydd ar safle'r Gwaith Copr a Choridor Afon Tawe

Cyflwyno unedau masnachol yn adeilad y Felin Rolio Mill, bwâu'r Stryd Fawr ac Adeilad y Labordy

Cyflwyno Amgueddfa estynedig ac addas at y diben gyda'r gallu i arddangos y casgliad cyfan mewn un lleoliad o fewn Ardal yr Amgueddfeydd yng nghanol dinas Abertawe.
Cyflwyno cyrchfan unigryw newydd i ymwelwyr yn Nhai Injan Musgrave a Vivian

Cyflwyno a chreu atyniad locomotif newydd i dwristiaid yn Sied V&S.

Creu swyddi adeiladu / lleoliadau gwirfoddoli / cyfleoedd hyfforddi o ganlyniad i waith cysylltiedig.

Cyfleoedd cyflogaeth o fewn y gwahanol leoliadau parod.

**Canlyniadau Tymor Byr**

Parthau cyhoeddus a threfwedd gwell

Parthau cyhoeddus gwell ac adeiladau treftadaeth ailddatblygedig yn safle'r Gwaith Copr

Mwy o ddiddordeb a buddsoddiad gan fusnesau

Amgueddfa wedi'i hehangu ac yn addas i'r diben yn gwella'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn sylweddol

**Effeithiau Tymor Hwy**

Adfywio safle sy'n cael ei anwybyddu na'i ddefnyddio ddigon yn agos at ganol y ddinas.

Mwy o gyflogaeth / llai o ddiweithdra.

Gwell iechyd a lles i drigolion ac ymwelwyr

Arlwy diwylliannol gwell ac amrywiol i drigolion y ddinas ac ymwelwyr

The linked image cannot be displayed. The file may have been moved, renamed, or deleted. Verify that the link points to the correct file and location.

Ehangu ac arallgyfeirio busnesau lleol.

Creu canolfan economaidd gynaliadwy hirdymor

Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Twf busnesau newydd o unedau busnesau bach a grëwyd mewn twneli/bwâu.

[redacted]

[redacted]

## Eglurwch sut mae'r prosiectau cydrannol yn eich cynnig yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn cynrychioli set gydlynol o ymyriadau

### Prosiectau treftadaeth rhyng-gysylltiedig

Bydd y cynllun adfywio hwn sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth, sy'n cynnwys tri phrosiect cydberthynol arwyddocaol, yn gwarchod ac yn rhoi sylw i lwyddiannau entrepreneuriaeth y gorffennol, gan agor ystod eang o fentrau masnachol cymunedol, cyfranogiad cymunedol, treftadaeth, integreiddio cymdeithasol, mentrau hamdden a thwristiaeth yn y dyfodol.
Bydd ein hymagwedd gynaliadwy at adnewyddu ac ail-bwrpasu asedau treftadaeth arwyddocaol, at ddefnydd busnesau, llu o brofiadau ymwelwyr a gweithgareddau a gaiff eu harwain gan y gymuned, yn creu Llwybr Treftadaeth os dymunwch, yn llifo o Amgueddfa Abertawe ar ei newydd wedd, trwy Ganol y Ddinas ac ar hyd Cwm Tawe Isaf, tuag at Dreforys (y dref hanesyddol a grëwyd i gynnal diwydiannu yn y gorffennol).

Bydd y gwelliannau i'r dyfrffyrdd, y twneli a'r bwâu rheilffordd, ynghyd â gwaith parthau cyhoeddus arall, yn ailgysylltu'r safle cyfan, gan ganiatáu i weithwyr, trigolion a thwristiaid lifo yn ôl ac ymlaen o'r Amgueddfa a chanol y ddinas i Dreforys. Bydd y cysylltedd hwn yn hybu nifer yr ymwelwyr ar draws yr ardal, yn caniatáu gwell mynediad i fentrau, yn galluogi cyfleoedd cyflogaeth newydd ac yn cefnogi'r economi trwy wariant cynradd ac eilaidd mewn lleoliadau ar draws y cwm.

Dychmygwch fore yn yr Amgueddfa, yna ginio yng nghanol y ddinas, yna taith mewn cwch i ymweld â Distyllfa Penderyn ac yna i gaffi am baned yn y prynhawn – mae'r cyfuniadau posib yn niferus.

Mae nifer o grwpiau Cyfeillion Treftadaeth yn weithredol mewn gwahanol rannau o'r safle sydd eisoes yn dechrau gweithio ar y cyd. Byddai'r cynllun hwn yn caniatáu iddynt gynyddu gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn sylweddol, cefnogi profiadau Cyrchfan Treftadaeth i dwristiaid, ysgolion, myfyrwyr a thrigolion lleol.

## Nodwch sut manteisir ar gyllid cyhoeddus a phreifat arall fel rhan o'r ymyriad

### Budd economaidd ar unwaith

Bydd buddsoddiad o £20 miliwn yng Nghwm Tawe Isaf yn trosoli £8.76 miliwn o fuddsoddiad sector cyhoeddus gan Gyngor Abertawe i gyflawni'r prosiect fel rhan o gynllun £28.7 miliwn.

Ar wahân i fuddsoddiad y sector cyhoeddus a drosolwyd yn uniongyrchol fel rhan o brosiect Cwm Tawe Isaf, mae'r cynllun yn darparu'r isadeiledd hanfodol a gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn y Strand ar gyfer datblygu safleoedd manwerthu, tai ac adeiladau swyddfa sector preifat ychwanegol ar safleoedd cyfagos ynghyd â chymysgedd o fannau bwyta ac yfed, manwerthu, caffi ac atyniadau ymwelwyr ar safle'r Gwaith Copr.
Mae'r prosiect felly nid yn unig yn darparu budd economaidd uniongyrchol i Abertawe o'r cynllun ond mae hefyd yn datgloi safleoedd ac adeiladau allweddol ar gyfer defnydd sector preifat neu ddatblygiadau yn y dyfodol.

## Eglurwch sut mae eich cynnig yn cyd-fynd ac yn cefnogi strategaethau lleol perthnasol ac amcanion lleol ar gyfer buddsoddi, gwella isadeiledd a ffyniant

Cynllun Adfer Economaidd
Wedi'i ddatblygu gan Bartneriaeth Adfywio Abertawe, mae'n rhestru camau gweithredu i gefnogi busnesau, unigolion a gwella cydnerthedd yr economi leol ar ôl Covid-19, gan gyd-fynd â nodau Hybu Hyder, Cefnogi Busnesau a Hyrwyddo Bwyd Lleol. Bydd y cynigion hyn yn hwyluso gweithgaredd unnos (bwyd, sinema, digwyddiadau diwylliannol) yn adeilad y Felin Rolio. Bydd hyn yn cefnogi busnesau crefft a chynnyrch lleol yn unol ag egwyddorion ymgyrch 'Siopa'n lleol, siopa'n Abertawe' yn y cynllun adfer hwn. Mae'r cynnig hefyd yn ceisio uwchraddio llwybrau cerdded bychan sy'n cysylltu'r Gwaith Copr â chanol y ddinas a hyrwyddo cyfleoedd lles cerdded a beicio ac opsiynau teithio cynaliadwy.

Cynllun Corfforaethol y Cyngor
Bydd y cynigion hyn yn helpu i gyflawni blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol y Cyngor o Drawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd. Mae gan Abertawe dreftadaeth gyfoethog a bydd y cynigion yn y cynnig hwn am arian yn helpu i gadw a dathlu hyn gan hefyd greu cyfleoedd economaidd i unigolion a busnesau drwy greu swyddi, hamdden a lles.

Fframwaith Datblygu Diwylliannol
mae'r cynigion yn unol â'r fframwaith i gydlynu'r arlwy diwylliannol er mwyn arallgyfeirio a thyfu twristiaeth a manteisio i'r eithaf ar botensial Bae Abertawe fel cyrchfan drefol a gwledig.

Astudiaeth Coridor Glannau Afon Tawe
Bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r dyheadau a amlygwyd yn Astudiaeth Coridor Glannau Afon Tawe 2009 am gyfleusterau bwyd a diod yng Ngwaith Copr yr Hafod, ynghyd â mwy o lwybrau cerdded a beicio, tacsis dŵr a chreu man cyhoeddus ar lan yr afon.

Prif Gynllun Gwaith Copr Hafod-Morfa
Mae Prif Gynllun Gwaith Copr Hafod-Morfa yn cynnig datblygu llawer o'r ymyriadau cychwynnol a awgrymwyd yn y cynllun gwreiddiol, gan gynnwys adfer Tŷ Injan Vivian a Thŷ Injan Musgrave, Sied V&S, a chreu a llwybr cerdded ar lan yr afon a phont cerddwyr. Mae gwaith wedi mynd rhagddo ers drafftio'r prif gynllun, sef adnewyddu'r Pwerdy a chomisiynu pontŵn ar gyfer angori'r Cwch Cymunedol.

Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol
Y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol (REDP) yw polisi datblygu economaidd arweiniol y Cyngor a ddatblygwyd ar y cyd â rhanbarth Bae Abertawe. Bydd y cynnig hwn yn helpu i gyflawni cenhadaeth y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol – i dyfu a datblygu arlwy 'profiad' y rhanbarth sy'n canolbwyntio ar ansawdd yr hyn a gynigir i ymwelydd ac apêl de-orllewin Cymru fel lle i fyw a gweithio ynddo. Bydd rhan o'r cynnig hwn i ddatblygu safle'r gwaith copr yn datblygu asedau naturiol a threftadaeth y rhanbarth sy'n cynnig ansawdd bywyd apelgar ac yn ehangu yr ystod o atyniadau a chyfleoedd ar draws y rhanbarth. Bydd cynigion i ddatblygu cyfleusterau yn y Felin Rolio, Amgueddfa Abertawe a Thwneli'r Strand yn helpu i amrywio arlwy'r ddinas i drigolion ac ymwelwyr a busnesau. Bydd cysylltu arlwy ddiwylliannol a threftadaeth gyfoethog y rhanbarth yn helpu i ddenu mwy o ymwelwyr a goresgyn y dirywiad yn y sector manwerthu gan arwain at economi mwy cydnerth.

Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Mae asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r angen i dyfu Economi Abertawe, denu ymwelwyr newydd i'r ddinas, creu gwariant newydd a chyflenwi cyfleoedd i wella lles economaidd trigolion, gan helpu i godi pobl allan o dlodi. Mae'r cynigion hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â hyn drwy wella'r amgylchedd, creu lle ar gyfer datblygu busnes a denu ymwelwyr i'r ardal.

## Eglurwch sut mae'r cais yn alinio ag amcanion polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn eu cefnogi

Mae’r prosiect yn alinio’n uniongyrchol ag amcanion polisi lluosog y Deyrnas Unedig:

Ffyniant bro
Fel yr amlyga'r Gronfa hon, mae'r Llywodraeth yn sylweddol ymroddedig i dwf rhanbarthol i gefnogi 'ffyniant bro' ar draws y wlad. Mae Abertawe yn y categori “Blaenoriaeth 1” gydag ardaloedd o amddifadedd difrifol, gan gynnwys ardal ward Glandŵr sydd ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

Mae'r cynllun yn cefnogi'n uniongyrchol y gronfa ffyniant bro gan gefnogi adfywio canol y dref, ac asedau diwylliannol a threftadaeth. Mae tair agwedd y cynnig hwn yn datblygu asedau lleol a fydd yn cefnogi’r economi ymwelwyr ac yn helpu i greu cyrchfan ymwelwyr unigryw gan gadarnhau rôl y ddinas fel y ganolfan economaidd ranbarthol.

[redacted]

Prydain Fyd-eang
Yn wyneb Brexit, mae’r Deyrnas Unedig yn dymuno “parhau i fod yn agored, yn gynhwysol ac yn wynebu tuag allan; masnachu'n rhydd; bod yn bendant wrth gynrychioli buddiannau Prydain a'i gwerthoedd; ac yn benderfynol wrth hybu ein statws a'n dylanwad rhyngwladol”.
Mae gan Abertawe enw da yn rhyngwladol ac mae'n denu ymwelwyr o bell. Bydd hyrwyddo'r ased treftadaeth hwn a'i integreiddio â chanol y ddinas yn denu mwy o ymwelwyr, ac yn cynyddu cyfleoedd i fasnachwyr a buddsoddiad pellach i'r ddinas.
Bydd y cynnig hwn yn cefnogi'r strategaeth hon drwy wella'r arlwy dwristiaeth, sy'n enwog yn rhyngwladol, a'i gyfleusterau a'i alluogi i wneud cais am statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Sero net
Mae llwybrau newydd i gerddwyr a mynediad uniongyrchol i lwybrau bysiau, beicio a threnau yn cyfrannu at deithio cynaliadwy. Bydd y prosiect yn ail-ddefnyddio adeiladau gwag yn hytrach nag adeiladu adeiladau newydd gan felly leihau effaith amgylcheddol y datblygiad.

Mae'r Cyngor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac wedi gosod targed i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, o dan arweiniad Bwrdd Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd. Yn gyson â hyn, mae cynigion ar gyfer adeiladu elfennau o'r newydd yn y cynllun wedi'u dylunio at safonau sero net, drwy gynnwys mesurau penodol i fwyafu'r effeithlonrwydd gweithredol a chynhyrchu ynni cynaliadwy. Bydd y cynllun yn gweithredu fel esiampl ar gyfer datblygiad carbon isel.

Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru
Un o'r pedair blaenoriaeth fuddsoddi o dan y fframwaith hwn yw creu economi ffyniannus a bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at hynny drwy gefnogi'r economi ymwelwyr (safle Amgueddfa a Gwaith Copr) a darparu cyfleusterau i fusnesau gychwyn a thyfu. (Adnewyddu adeilad y Felin Rolio).

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru Llywodraeth Cymru
Bydd y cynnig hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cenadaethau canlynol yn y fframwaith hwn
Cenhadaeth 2 – Llunio sylfaen fusnes gref, gydnerth ac wedi’i wreiddio
Cenhadaeth 3 – Tyfu a chynnal arlwy 'profiad de-orllewin Cymru'
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
Mae'r cynigion yn cyd-fynd â nodau llesiant
- Cymru Lewyrchus
- Diwylliant Bywiog
- Iachach
- Mwy cyfartal
- Cydnerth

## Aliniad gyda a chefnogaeth ar gyfer buddsoddiadau presennol

**Lle y bo'n berthnasol esboniwch sut** Y rhaglen adfywio fwyaf

The linked image cannot be displayed. The file may have been moved, renamed, or deleted. Verify that the link points to the correct file and location.

**mae'r cynnig yn ategu neu'n cyd-fynd â ac yn cefnogi buddsoddiadau presennol a/neu arfaethedig yn yr un bro**

Mae Cyngor Abertawe, ar hyn o bryd, yn ymgymryd â'r rhaglen adfywio fwyaf yn ei hanes fel Dinas, sy'n cynnwys Cam 1 Bae Copr a gwblhawyd yn ddiweddar [redacted] ac mae cynlluniau megis 71/72 Pentref Digidol Ffordd y Brenin [redacted] Bargen Ddinesig, ERDF), The Palace Theatre [redacted]a Hyb Cymunedol Canol y Ddinas [redacted] Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru) ar y gweill. Ochr yn ochr â hyn mae lleoliadau hanesyddol a diwylliannol eraill, fel Neuadd Albert sy'n cael ei hailddatblygu gan y sector preifat gyda chymorth grant o Ewrop [redacted] ac adeilad y Pwerdy yng Ngwaith Copr Hafod-Morfa [redacted]

Cyfleoedd cyflogaeth
Mae'r cynnig yn ategu'r ystod bresennol o ymyriadau drwy fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn cael eu creu yng Nghanol y Ddinas, yn enwedig yn y Palace, Hwb Canol y Ddinas a'r Pentref Digidol. Wrth ragweld cynnydd sylweddol mewn swyddi a swyddi sy'n talu'n uchel yng nghanol y ddinas, mae angen mwy o gyrchfannau diwylliannol, twristiaeth a lletygarwch i wasanaethu cynnydd yn y galw ac i annog mwy o wariant lleol fel rhan o'r economi gylchol.

## Cadarnhewch pa Genadaethau Papur Gwyn Ffyniant Bro y mae eich prosiect yn cyfrannu atynt

**Dewiswch Ffyniant Bro Gwyn Cenadaethau Papur (t.120-21)**

Safonau Byw
Addysg
Sgiliau
Iechyd
Lles
Balchder yn eu hardal
Trosedd

**Ysgrifennwch frawddeg fer i ddangos sut mae eich cynnig yn cyfrannu at y Genhadaeth(Cenadaethau)**

Bydd y prosiect yn helpu i ailgysylltu cymunedau â'u treftadaeth leol ac yn meithrin ymdeimlad o falchder yn eu hardal. Mae'n cynnig cyfleoedd i bobl wella eu hiechyd a'u lles drwy'r llwybrau cerdded drwy'r safleoedd.

Mae'r prosiectau'n creu gofod i fusnesau lleol ddatblygu a thyfu a byddant yn arwain at fwy o gyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol gan felly godi safonau byw. Bydd cyfleoedd gwaith a lleoliadau hyfforddiant sgiliau hefyd yn cael eu creu yn ystod y gwaith adnewyddu ar yr adeiladau rhestredig.

Bydd symud y gwrthrychau treftadaeth a hanes sydd wedi'u storio yn y Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn gwella mynediad ac yn cefnogi ysgolion i addysgu amm dreftadaeth a hanes.

Trwy ddechrau defnyddio'r Felin Rolio a Thwneli'r Strand unwaith eto bydd yn helpu i ddiogelu'r safleoedd hyn rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Darparwch dystiolaeth gyfredol i ddangos graddfa ac arwyddocâd problemau a materion lleol

Amddifadedd

Mae Abertawe yng nghategori blaenoriaeth 1 Mynegai Lleoliadau Blaenoriaeth y GFfB. Mae Awdurdod Lleol Abertawe yn cynnwys 148 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) (7.8% o'r cyfanswm o 1909 LSOA yng Nghymru). O’r 0-10% LSOA mwyaf difreintiedig yn gyffredinol yng Nghymru (yn ôl MALlC), mae 17 o fewn Awdurdod Lleol Abertawe (sy'n cyfrif am 11.5% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol). Mae 18 LSOA arall yn Abertawe o fewn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r mwyafrif o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) hyn wedi'u clystyru o amgylch Canol y Ddinas. Mae stori debyg yn dod i'r amlwg wrth edrych ar is-barthau penodol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC/WIMD): Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, a Diogelwch Cymunedol.
Cyflogaeth

Roedd nifer yr hawlwyr yn Nwyrain Abertawe ym mis Mehefin 2022 yn 4.1% o'r boblogaeth oedran gweithio (16-64), a 4.0% yng Ngorllewin Abertawe cyfagos.

Bydd yn cymharu â chyfartaledd ehangach yr awdurdod lleol o 3.5% ar gyfer ardal awdurdod lleol Abertawe, a 3.3% ar gyfer Cymru gyfan.

Iechyd

Cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw'r ail uchaf o blith holl fyrddau iechyd yng Nghymru, sef 1,230 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth, y tu ôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn unig gyda 1,335 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Y bwlch disgwyliad oes ar gyfer y cyfnod 2018-2020 yn awdurdod lleol Abertawe (o gymharu â'r pumedau lleiaf difreintiedig) oedd 9 mlynedd ar gyfer dynion (yn arwyddocaol uwch na chyfartaledd Cymru o 7.6 mlynedd), a 7.1 mlynedd ar gyfer menywod (yn uwch na chyfartaledd Cymru o 6.3).

Mae data'r cyfrifiad ar nifer yr aelwydydd ag o leiaf un person â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yn dangos bod 43% o aelwydydd yng Nglandŵr (ward gyfun y cyfrifiad) felly, o gymharu â 41% ar gyfer Abertawe a 40% i Gymru.

Menter / cynhyrchiant

Mae'r sylfaen fusnes (fel y'i mesurwyd yn ôl nifer y mentrau fesul 10,000 o boblogaeth) yn gymharol wan yn Abertawe, sef 299 o gymharu â 345 i Gymru. Mae hyn er gwaethaf bod gan Abertawe gyfradd goroesiad menter 1-mlynedd a 5 mlynedd tebyg-neu-well (92% a 40% yn y drefn honno) o gymharu â Chymru (91% a 40%).

Roedd y gwerth ychwanegol gros (GVA) fesul swydd wedi'i llenwi yn Abertawe yn [redacted] yn 2019, a oedd yn sylweddol islaw'r gwerth cenedlaethol [redacted] ar draws y Deyrnas Unedig (SYG Subregional Productivity Gorffennaf 2021, Tabl B3: GVA (B) bras (wedi ei lyfnhau) fesul swydd wedi'i llenwi (£)). Mae'r bwlch allbwn cynhyrchiant yn yr ardal yn adlewyrchu proffiliau sgiliau is, cyfraddau cyflogaeth is a diffyg busnes newydd yn cychwyn arni.

Nifer yr ymwelwyr a materion safle

Mae ffigurau diweddaraf Springboard ar gyfer wythnos 22 (20 Mehefin) yn dangos bod nifer yr ymwelwyr yn parhau 24.2% yn is na lefelau cyn pandemig 2019.

Mae'r adferiad yn arafach nag ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru sydd yn 20.1% a 21.3% yn is na lefelau 2019 yn y drefn honno. Mae llawer o ganolfannau ardal gan gynnwys tref gyfagos Treforys hefyd yn dioddef nifer isel o ymwelwyr.

Cafwyd lefelau uchel o fandaliaeth a difrod i'r adeiladau rhestredig gwag yn safle'r Gwaith Copr. Mae data Police UK yn dangos bod tua 60 o droseddau bob mis yn cael eu cyflawni yn ardal Glandŵr, gyda 36.1% o'r troseddau a gafodd eu cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'u categoreiddio fel Trais a throseddau rhywiol, ac yna ymddygiad gwrthgymdeithasol (16.3%), a difrod troseddol a llosgi bwriadol (11.3%).

## Dangoswch sicrwydd ansawdd y gwaith dadansoddi data a'r dystiolaeth ar gyfer egluro maint ac arwyddocâd problemau a materion lleol

Ffynonellau cyfoes

Mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o gyd-destun lleol ac i fynegi cryfderau, heriau a chyfleoedd lleol er mwyn targedu ymyriadau'n briodol i ddiwallu anghenion a bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Mae'r sylfaen dystiolaeth wedi'i chasglu drwy ymchwil bwrdd gwaith, a'i hategu gan astudiaethau achos a dogfennau ymgynghori.

- Mapiau Iechyd Cymru (2020/21)
- Disgwyliad Oes a Marwolaethau yng Nghymru (2020)
- y Cyfrifiad (2011)
- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2021),
- Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (2020),
- Mynegeion Amddifadedd Lloegr (2019),
- Nodyn methodoleg Levelling Up Fund: Prioritisation of places (2021),
- Sub-regional Productivity y SYG (2019),
- Claimant Count y SYG (2022),
- Crime Statistics, Police UK (2022),

- Ffigurau Springboard (2019-22)

Cadernid a natur ddiduedd y data
Er mwyn sicrhau cadernid, archwiliwyd ffynonellau lluosog i wirio'r un casgliadau. Yn ogystal, mae'r cyfuniad o ffynonellau data yn caniatáu archwilio problemau lleol yn ogystal â phatrymau is-leol. Gelli coladu'r ffynonellau data lled-gyhoeddus i arddangos darlun clir a chadarn o'r prif faterion sy'n wynebu ardal Cwm Tawe Isaf, gan ategu'n glir y rhesymeg dros fuddsoddi mewn cyfres o ddatblygiadau defnydd cymysg a thwristiaeth. At hynny, mae rhai ffynonellau cyhoeddus, megis y Mynegeion Amddifadedd Lluosog ac APS, yn caniatáu archwilio ardaloedd is-leol i groeswirio canfyddiadau adroddiadau a gwaith ymgysylltu. Gellir gweld yr ymagwedd hon uchod, gydag adnoddau lluosog y llywodraeth wedi'u cefnogi gan astudiaethau penodol o'r ardal leol a'r datblygiadau dan sylw.

Mae'r data wedi'i adolygu i ystyried amodau newidiol trwy gydol y pandemig.

Mae cadernid a natur ddiduedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ffynonellau cyhoeddus swyddogol wedi'u gwirio'n barhaus ac ystyrir bod y rhain yn adnodd sylfaenol ar gyfer data yn y Deyrnas Unedig. Mae'r data hwn hefyd wedi'i groesgyfeirio yn ystod ein hymchwil i sicrhau bod canfyddiadau tebyg yn codi, er enghraifft, o'r APS a nifer yr hawlwyr yn cael ei gymharu â safleoedd MALI. Er enghraifft, canfu'r ymarfer hwn yr un casgliadau yn codi o ran y materion lluosog yn yr ardal ar gyfer amddifadedd a chynhyrchiant.

Mae'r prosiect hefyd wedi'i adeiladu ar sylfaen gadarn o ymgysylltu sylweddol dros y degawd diwethaf oherwydd y Cu@Abertawe. Prosiect cydweithio rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor Abertawe, Prosiect Cymunedau Cysylltiedig Prifysgol Abertawe a datblygiad Prif Gynllun ar gyfer y safle gan Purcell sydd wedi parhau i esblygu.

Roedd y gwaith o baratoi Prif Gynllun y Safle yn 2013 yn seiliedig ar ymgynghori â nifer fawr ac amrywiol o bartneriaid, grwpiau cymunedol, a rhanddeiliaid posib. Mae'r cynllun hwn yn cael ei fireinio'n barhaus wrth inni ddysgu mwy am y safle, ystyried adborth gan randdeiliaid a phartneriaid adfywio ac wrth i anghenion economaidd a chymdeithasol esblygu, mae'r cynllun i bob pwrpas wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cyfres o ymyriadau ariannu llai yn arwain at yr ymagwedd cwm cyfan mwy hwn.

Cafodd yr adborth a dderbyniwyd wedi'r ymgysylltu uchod â rhanddeiliaid ei goladu a lluniodd datblygiad y prosiect hwn yn uniongyrchol a darparu tystiolaeth gadarn o'r angen am y cynllun arfaethedig. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau wrth i'r prosiect ddechrau ar ei gamau dylunio a chyflwyno manwl a fydd yn cynnwys prosesau ymgynghori statudol gyda rhanddeiliaid fel rhan o'r broses gynllunio.

## Dangos bod y data a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn briodol i faes dylanwad yr ymyriadau

O bwysigrwydd allweddol wrth asesu effaith cyflogaeth ac economaidd y cynigion ar yr economi leol ac asesu buddion ar lefel genedlaethol yn y asesiad gwerth am arian, yw deall i ba raddau y mae gweithgaredd newydd yn wirioneddol ychwanegol ac nid yn disodli gweithgaredd presennol yn unig. Mae'n bwysig deall pwy sy'n debygol o elwa o'r effeithiau a gynhyrchir ac i ba raddau y mae galw a buddsoddiad pellach yn cael eu hysgogi.

Mae'r buddion economaidd gros ar gyfer cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros (GVA) wedi cael eu cyflwyno ar lefel genedlaethol, gyda'r buddion economaidd net yn cael eu cyflwyno ar lefel leol.

Un o'r elfennau allweddol i'w ddeall yw gollyngiadau: cyfran yr allbynnau sydd o fudd i'r rhai y tu allan i ardal neu grŵp targed y prosiect. O ganlyniad, mae data teithio i'r gwaith hefyd wedi'i asesu. Cafodd ychwanegolrwydd, dadansoddiad o ymwelwyr â'r ardal ei asesu i ddeall maes dylanwad tebygol yr ymyriadau. Mae tîm ymgynghorol [redacted] ar Ymwelwyr a Hamdden wedi llunio rhagamcanion ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r atyniadau ymwelwyr newydd ac ardal Cwm Tawe Isaf yn seiliedig ar yr ymyriad hwn o astudiaethau

achos a phrofiad. Mae'r dalgylch ar gyfer y codiad yn y gwerth tir ehangach wedi cael ei hysbysu gan astudiaethau academaidd ac yn berthnasol i 2km o amgylch y datblygiad felly, defnyddiwyd data lleol lle y bo modd.

## Darparwch ddadansoddiad a thystiolaeth i ddangos sut y bydd y cynnig yn mynd i'r afael â phroblemau presennol neu a ragwelir yn y dyfodol

Cyflwyniad
Disgwylir i ymyriadau arfaethedig y Gronfa Ffyniant Bro gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â phroblemau presennol yn Abertawe. Mae effaith y prosiectau a gynlluniwyd sy'n mynd i'r afael â heriau presennol wedi'i hamlinellu yn Namcaniaeth Newid y cynllun.

Mae'r dadansoddiad a gyflawnwyd yn adlewyrchu cyfres o effeithiau a gaiff canlyniadau cadarnhaol yn y dref ac yn yr ardal gyfagos. Bydd y canlyniadau cadarnhaol hyn yn mynd i'r afael â'r problemau sylweddol y mae Abertawe'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Nodwyd y problemau presennol ac a ragwelir canlynol:

1) Cyflwr gwael a/neu adfeiliedig asedau treftadaeth ar y safle Gwaith Copr
2) Cyn-safle diwydiant trwm na chaiff ei ddefnyddio ddigon a oedd unwaith yn flaenllaw yn y diwydiant Copr.
3) Mae halogiad tir hanesyddol yn y safle Gwaith Copr yn cyflwyno risgiau anhysbys a goblygiadau cost ar gyfer gwaith adfer.
4) Mae diffyg buddsoddiad yn Amgueddfa Abertawe dros y degawdau diwethaf wedi golygu bod llawer o'r casgliad yn parhau i fod mewn storfa nad yw'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Felin Rolio.
5) Datgysylltiad rhwng y Strand a'r Stryd Fawr oherwydd cysylltiadau gwael a pharth cyhoeddus yn creu ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau troseddu. Diffyg cydlyniant cymunedol.
6) Bwlch hyfywedd sylweddol ar gyfer adfywio, gan atal buddsoddiad gan y sector preifat.
7) Nid oes ffynhonnell cyllid grant arall o'r un maint ar gael i symud y gwaith o ddatblygu safleoedd ac asedau yn ei flaen, ar wahân i'r Gronfa Ffyniant Bro. O'r herwydd cafwyd diffyg mewn mwy na 30 mlynedd - methiant amlwg yn y farchnad.

Mae'r cynigion yn ceisio mynd i'r afael â'r ymyriadau a'r amcanion cynllun canlynol:

1) creu cyrchfan unigryw i ymwelwyr, cyfleoedd i fusnesau lleol,
2) gwella’r cysylltiadau i gerddwyr o’r ardal i’r orsaf, canol y ddinas, y marina a’r prifysgolion gan gefnogi nifer yr ymwelwyr ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer rhagor o adfywio yn yr ardal.
3) Bydd trawsnewid adeilad y Felin Rolio (Prosiect 1) yn Neuadd Fwyd hyblyg yn creu cyfleoedd i’r sector bwyd dyfu.
4) Bydd y prosiectau arfaethedig sydd wedi'u lleoli yn ward Glandŵr felly yn helpu'n uniongyrchol i greu cyfleoedd cyflogaeth i’r hawlwyr hyn drwy waith rhaglen adnewyddu prosiect 1.
5) Bydd adnewyddu a dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd masnachol yn goresgyn problemau troseddol cysylltiedig.
6) Bydd trosglwyddo arteffactau treftadaeth o'r Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn galluogi eu harddangos a’u cadw yn unol ag arfer gorau, gwella arlwy amgueddfa hynaf Cymru ac arwain at gynnydd yn ymwelwyr ar gyfer economi canol y ddinas yn unol â Fframwaith Datblygu Diwylliannol Abertawe.

Bydd yr ymyriadau hyn yn arwain at yr allbynnau a’r canlyniadau canlynol:

Creu swyddi a gwerth ychwanegol gros - Creu swyddi o fewn y cyrchfannau ymwelwyr newydd, lleoliadau masnachol fel Bwyd a Diod, bwytai, a marchnadoedd.Bydd rhaglen gyffredinol y datblygiad yn darparu tua 6,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth o fewn gofodau amrywiol. Gan ddefnyddio'r Canllaw Dwysedd Cyflogaeth, disgwylir i hyn gefnogi 106 o swyddi uniongyrchol gros. Gan gymhwyso ffactorau ychwanegedd priodol a gollyngiadau, bydd yr ymyriad yn darparu 69 o swyddi ychwanegol lleol net i ardal Abertawe. Cymhwyso'r gwerth ychwanegol gros (GVA) fesul ystadegau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Abertawe, bydd rhaglen y gronfa ffyniant bro yn cynhyrchu [redacted] GVA gros uniongyrchol y flwyddyn a [redacted] GVA ychwanegol net y flwyddyn.

Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr – bydd y rhaglen yn darparu neu'n gwella dros 6,000 metr sgwâr o

leoliadau parth cyhoeddus yn Abertawe, yn ymwneud â naill ai ardaloedd chwarae newydd, mannau agored wedi'u tirlunio, neu leoedd parcio gwell. Ochr yn ochr â'r atyniadau newydd a gwell i ymwelwyr, bydd yr ymyriad hwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal gan gefnogi busnesau ac amwynderau cyfagos. Disgwylir i'r parthau cyhoeddus gwell ym Mhrosiect 2 hefyd leihau nifer y troseddau a adroddir oherwydd gwell dyluniad a mesurau diogelwch.

Nifer yr ymwelwyr – bydd buddsoddiad y Gronfa Ffyniant Bro yn darparu Amguedda fwy ac addas i'r diben, cyrchfan unigryw newydd i ymwelwyr yn Nhŷ Injan Musgrave a Thŷ Injan Vivian, ac atyniad twristiaid locomotif newydd yn Sied V&S. Bydd yr atyniadau hyn yn darparu cyfleoedd diwylliannol a threftadaeth newydd i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Yn seiliedig ar astudiaethau achos ar gyfer canolfannau treftadaeth, atyniadau ar thema trafnidiaeth, ac atyniadau diwydiannol rhanbarthol cyfartalog, mae tîm Ymwelwyr a Hamdden arbenigol [redacted] wedi rhagweld cyfanswm o 11,500 o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn i Sied V&S a Thŷ Injan Musgrave. Bydd effaith gyfunol yr ymyriadau hefyd yn ddigon sylweddol i gael effaith gadarnhaol ar apêl y ddau gyrchfan, gan wella canfyddiadau o'r ddau fel lleoedd i ymweld â nhw. Yn seiliedig ar gynnydd o 0.5%-1% yn nifer yr ymwelwyr ag ardal Abertawe, disgwylir 8,350 o ymwelwyr ychwanegol dros nos a 31,200 o ymwelwyr yn ystod y dydd yn deillio o'r rhaglen bob blwyddyn.

Defnyddiwyd fodel CBA [redacted] i fodelu buddion. Mae hyn yn seiliedig ar fuddiannau Llyfr Gwyrdd gan gynnwys effeithiau cyflogaeth a GVA, ynghyd â data o DCMS ynghylch effeithiau llesiant o ddiwylliant. Mae'r modelu o fewn yr asesiad gwerth am arian wedi defnyddio gwerthoedd a hyrwyddir yn Arweiniad Llesiant y Llyfr Gwyrdd a Diwylliant DCMS a Banc Tystiolaeth Cyfalaf Diwylliant Treftadaeth.

## Disgrifiwch gadernid y dadansoddiad a'r dystiolaeth a ddarparwyd megis y rhagfynegi rhagdybiaethau, y fethodoleg a'r allbynnau model

Rhagolygon Costau ac Allbwn
Penodwyd ymgynghorwyr cost [redacted] i ymgymryd â'r gwaith o gostio'r cynllun. Mae adroddiadau cost QS ar gyfer pob elfen o'r prosiect wedi'u cynnwys yn y llyfr gwaith. Mae gan [redacted] ill dau gronfa ddata costau tai a luniawyd o brosiectau blaenorol, ac a ddefnyddir i feincnodi'r holl gyngor cost cyn ei gyhoeddi.

Mae'r amserlen ddatblygu ar gyfer pob prosiect wedi llywio'r arwynebedd llawr sy'n creu cyflogaeth. Defnyddiwyd dwyseddau cyflogaeth o Ganllaw Dwysedd Cyflogaeth HCA i gyfrifo nifer y swyddi a ddaw o'r datblygiad. Mae'r dwyseddau a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

Manwerthu A1 a Bwytai a Chaffis A3 = 1 CALl fesul 17.5 metr sgwâr
Atyniad ymwelwyr D2 = 1 CALl fesul 125 metr sgwâr

Mae rhagolygon Experian ar gyfer yr ardal leol wedi'u cymhwyso i gyfrifo effeithiau'r GVA a nodir yn y Nodyn Technegol.

Mae tîm Ymwelwyr a Hamdden [redacted] wedi cynhyrchu rhagolygon ymwelwyr ar gyfer y prosiect. Mae nifer yr ymwelwyr â'r atyniadau newydd wedi defnyddio'r meincnodau canlynol

- Ymweliadau â chanolfannau treftadaeth rhanbarthol yn amrywio rhwng 1,000 a 50,000.
- Ymweliadau ag atyniadau bychain ar thema treftadaeth trafnidiaeth yn amrywio rhwng 500 a 10,000
- Ymweliadau ag atyniadau diwydiannol a chanolfannau treftadaeth yn ne-orllewin Cymru rhwng 800 a 10,000

Mae defnyddio ystod is i ganolig ein cronfa ddata o gymaryddion wedi arwain at amcangyfrif o 4,000 o ymweliadau ychwanegol y flwyddyn ar gyfer V&S a 7,500 ychwanegol o ymweliadau y flwyddyn â Thŷ Injan Musgrave.

Yn ogystal ag effeithiau ymwelwyr penodol ar gyfer pob ymyriad, mae cynlluniau cronnus Cwm Tawe Isaf yn ddigon arwyddocaol i gael effaith gadarnhaol ar apêl y ddau gyrchfan, gan wella canfyddiadau o'r ddau le i ymweld â nhw. Yn 2019, y flwyddyn 'arferol' olaf cyn y pandemig, denodd sir Abertawe 1.67m o ymwelwyr aros a 3.12m o ymwelwyr dydd. Fel ar gyfer y rhan fwyaf o gyrchfannau, rhagwelir heb yr ymyriadau, y byddai niferoedd ymwelwyr yn dychwelyd i lefelau 2025 erbyn 2024/25. Cynnydd ychwanegol o 0.5% ar gyfer ymwelwyr dros nos a disgwylir cynnydd

o 1% ar gyfer ymwelwyr dydd yn seiliedig ar yr ymyriadau hyn.

Mae rhagdybiaethau modelu buddiannau [redacted], sy'n arbenigwr achos busnes, sydd wedi arwain y dadansoddiad modelu budd. Fel a nodir yn y Nodyn Technegol, mae pob methodoleg yn gysylltiedig â chanllawiau'r llywodraeth a cheisiadau blaenorol am gyllid. Mae fframwaith modelu [redacted] wedi'i adolygu'n ddiweddar gan ddadansoddwyr Homes England ar ran DLUHC.

Mae amcangyfrifon codiad gwerth tir wedi defnyddio Amcangyfrifon Gwerth Tir ar gyfer Arfarnu Polisi cyhoeddedig y Llywodraeth.

Mae ymchwil ddiweddar [redacted] ar gyfer MHCLG i effeithiau creu lleoedd, ac Astudiaethau 'Placemaking: Value and the public realm' CBRE a 'Placemaking and value' RICS wedi llywio'r cyfrifiadau ar gyfer y cyfrifiadau codiad gwerth tir ehangach. Mae'r astudiaethau hyn wedi darparu'r sail ar gyfer cyfrifiadau blaenorol sydd wedi cael eu derbyn yn eang gan y llywodraeth a chyrff cyhoeddus.

Budd-daliadau llesiant yn ymwneud â phreswylwyr di-waith yn symud i gyflogaeth, cynhwysiant cymdeithasol, ymgysylltu â'r celfyddydau, ac ymwelwyr â safleoedd diwylliant a threftadaeth ac AHNE wedi cael eu llywio gan Ganllawiau Atodol y Llyfr Gwyrdd ar gyfer Astudiaethau Lles a DCMS. Mae manteision gyrchfannau diwylliannol newydd ymwelwyr wedi defnyddio astudiaeth o ansawdd uchel a hyrwyddwyd gan y Banc Tystiolaeth Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth.

## Eglurwch sut mae costau economaidd y cynnig wedi'u cyfrifo, gan gynnwys y costau oes cyfan

Trosolwg
Mae'r sail ar gyfer cyfrifo costau economaidd yn gyson â'r arfarniad ariannol, fel yr amlinellwyd yn Adran 6 y cynnig. Mae'n tynnu ar amcangyfrifon cost a baratowyd gan ymgynghorwyr cost [redacted]. Mae adroddiadau cost QS ar gyfer pob un elfen o'r prosiect wedi'u cynnwys [redacted].

Trosi Costau Ariannol i Gostau Economaidd
Mae'r costau ariannol enwol yn yr Achos Ariannol wedi'u trosi i gostau economaidd yn unol ag ymagwedd y Llyfr Gwyrdd drwy ddefnyddio amcangyfrifon chwyddiant Rhagolygon Economaidd ac Ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) i drosi amcangyfrifon o gostau'r dyfodol i brisiau cyson (2022/23).

Mae'r costau pris cyson wedi'u haddasu i gostau gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt Ffafriaeth Amser Gymdeithasol y Trysorlys o 3.5% y flwyddyn. Disgwylir i wariant cyfalaf cyhoeddus o fewn y rhaglen redeg tan 2025, yn unol â chanllawiau Ffyniant Bro. [redacted]

Tuedd Optimistiaeth
Mae costau economaidd pob ymyriad yn cynnwys lwfans ar gyfer Tuedd Optimistiaeth. Amcangyfrifwyd hyn gan ddefnyddio Model Lliniaru Tuedd Optimistiaeth yn seiliedig ar Arweiniad y Llyfr Gwyrdd Atodol a gynhyrchwyd gan Mott MacDonald.

Mae'r costau ar gyfer y tri phrosiect wedi'u hystyried yn wariant sy'n ymwneud ag ymyriadau adeiladu safonol (Tuedd optimistiaeth Arffin Uchaf o 24%). Mae'r lefel hon o duedd optimistiaeth wedi'i leihau drwy'r mesurau lliniaru o'r prosiect, megis gwybodaeth y Cyngor am y safle neu ddiwydrwydd dyladwy presennol. Mae crynodeb o'r mesurau lliniaru mwyaf sylweddol ar gyfer pob math o ymyriad wedi'i gynnwys yn Atodiad Technegol yr Achos Economaidd. Bernir bod y TO lliniarol ar gyfer elfennau safonol adeiladu yn [redacted]% ar gyfer pob prosiect.

O ran hyd y gwaith, mae'r mesurau lliniaru yn golygu y disgwylir bod unrhyw orwariant yn [redacted]% o hyd y rhaglen gwaith adeiladu. Nid yw'n ddisgwyliedig y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar gostau rhaglenni. Fodd bynnag, mae effaith lefelau uwch o duedd optimistiaeth yn cael ei brofi yn y dadansoddiadau sensitifrwydd dilynol dadansoddiadau.

Costau cyfalaf
Mae'r amcangyfrif o gost gostyngol y prosiect cyffredinol i'r sector cyhoeddus gyda phrisiau cyson 2022/23 sy'n deillio o amcangyfrifon cost y gyllideb ariannol wedi'u gosod isod. Ni ddisgwylir unrhyw incwm cyhoeddus yn yr ymyriad na chostau ychwanegol o fewn yr Achos Cyfeirio. Nid oes ychwaith unrhyw gyfraniadau sector preifat i'w tynnu o'r cyfrifiadau buddion.

[redacted]

## Disgrifiwch sut mae'r buddion economaidd wedi'u hamcangyfrif

Mae'r fframwaith ar gyfer asesu buddion economaidd rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, canllawiau a gyhoeddwyd gan DLUHC ac adrannau eraill y llywodraeth gan gynnwys DCMS a BEIS. Yn dilyn canllawiau cyhoeddedig, mae hyn wedi cynnwys ystyried y buddion canlynol o fewn y BCRs, gyda'r prosiectau perthnasol wedi'u cynnwys yn y cromfachau.

• Codiad gwerth tir (1,2,3) – dadansoddiad o newidiadau mewn gwerthoedd tir, sy'n Adlewyrchu manteision effeithlonrwydd economaidd trosi tir yn ddefnydd mwy cynhyrchiol. Mae gwerth presennol y tir yn cael ei dynnu o werth y tir â defnydd mwy cynhyrchiol.

• Cynnydd ehangach yng ngwerth tir (1,2,3) – effeithiau creu lleoedd ehangach yn deillio o'r prosiectau ffyniant bro wedi'u hamcangyfrif yn unol â chanllawiau MHCLG, gan ddefnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) ar gyfer dadansoddiad masnachol a data bandiau Treth y Cyngor ar gyfer yr asesiad gwerth preswyl. Diffiniwyd dalgylchoedd cynradd ac eilaidd ar gyfer yr ymyriadau, gyda chodiadau priodol yn cael eu cymhwyso ar sail tystiolaeth academaidd. Mae codiad o 0.5-5% wedi'i gymhwyso i werth eiddo masnachol, a 0.5-2% i werthoedd eiddo preswyl.

• Arbedion costau trosedd (2) – Mae'r buddion hyn yn ymwneud â gostyngiad yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn yr ardal gyfagos oherwydd y parthau cyhoeddus o ansawdd uchel yn y prosiectau hyn. Cymhwysir costau a amcangyfrifir pob math o drosedd i gymdeithas i'r gostyngiad disgwyliedig mewn troseddau. Cymerir y costau hyn o Adroddiad Ymchwil y Swyddfa Gartref ac fe'u diweddarwyd â phrisiau 2022/23.

• Buddion amwynder (1,2) – Yn gyson â Chanllaw Arfarnu MHCLG, tybiwyd bod gan fannau gwyrdd newydd mewn amgylchedd trefol fudd economaidd o [redacted] yr hectar y flwyddyn (prisiau 2016). Mae hyn wedi'i addasu i brisiau 2022 a'i gymhwyso i'r barthau cyhoeddus newydd. Os bydd y parthau cyhoeddus yn ymwneud â gwelliannau, bydd 25% o'r gwerth hwn wedi ei gymhwyso.

• Y Farchnad Lafur (1,2,3) – manteision sy'n gysylltiedig â chreu swyddi lleihau rhwystrau i gyflogaeth i weithwyr lleol. Yn unol ag arweiniad MHCLG mae'r ffigur gwerth ychwanegol gros lleol fesul gweithiwr ar gyfer y sectorau perthnasol wedi cael ei gymhwyso i'r swyddi a gymerwyd gan newydd-ddyfodiaid. Yn unol ag argaeledd y farchnad lafur a chanllawiau WebTAG, rhagdybir y bydd 10% o swyddi'n cael eu llenwi gan newydd-ddyfodiaid a bydd effaith lles o 40% ar gyfer y swyddi hyn.

• Lles cyflogaeth (1,2,3) – Mae'r buddion a brofir gan drigolion nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd ac sy'n symud i swyddi a grëwyd gan brosiect wedi'u hamcangyfrif yn seiliedig ar werthoedd ([redacted] y flwyddyn yn ôl prisiau 2018) Arweiniad Atodol ar gyfer Llesiant y Llyfr Gwyrdd.

• Cynhwysiant cymdeithasol (2) – Mae'r Canllawiau Atodol ar gyfer Llesiant yn dangos bod bodlonrwydd bywyd yn gwella cynhwysiant cymdeithasol gwell h.y. llai o unigrwydd. Mae nifer y buddiolwyr wedi'i gyfrifo ar sail nifer yr ymwelwyr newydd ac ystadegau lleol ar unigrwydd. Rydym wedi rhoi gwerth ariannol ar yr effaith hon o [redacted] y flwyddyn (prisiau 2019) ar gyfer pob cyfranogwr, a ddyfynnir yn y canllawiau Llesiant.

• Ymgysylltu â'r celfyddydau a threftadaeth (1) – Amcangyfrifwyd buddion sy'n gysylltiedig â gwerth mynychu atyniadau treftadaeth, diwylliant neu gelfyddydol gan ddefnyddio canllawiau llesiant a rhagamcanion ymwelwyr gan arbenigwyr ar gyfer y prosiect. Cymerwyd i ystyriaeth y buddion llesiant a fwynheir gan y mynychwyr hyn, gan gofio'r gwerthoedd meincnod sy'n deillio o ymchwil 2014 Y DCMS ac a gefnogir gan Ganllawiau Atodol y Llyfr Gwyrdd ar gyfer Llesiant. Ar brisiau 2022, mae hyn yn tybio bod cyfranogwyr yn sylweddoli gwerth lles o [redacted] i fynychu V&S a Thŷ Injan Musgrave.

• Gwerth Economaidd Diwylliant (1,3) – Mae Canllawiau Atodol y Llyfr Gwyrdd ar gyfer Llesiant yn dangos bod gwerth economaidd yn gysylltiedig â gwell diwylliant yn yr ardal. Gan ddefnyddio'r Banc Tystiolaeth Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth, a ddyfynnir yng Nghanllawiau'r Llyfr Gwyrdd ar gyfer Lles a Chanllawiau'r GFfB, rydym wedi cymhwyso'r cyfraniad cymedrig blynyddol (£[redacted] yr unigolyn yn ôl prisiau 2020) ar gyfer gwaith i du mewn a thu allan yr amgueddfa (WTP) gan aelodau'r boblogaeth gyffredin.

Cyflwynwyd ail BCR gan gynnwys dadansoddiad dosbarthiadol – i adlewyrchu'r buddion mwy a gynhyrchir mewn rhan fwy difreintiedig o'r wlad, gan gyd-fynd gyda rhesymeg Ffyniant Bro.

• Dadansoddiad dosbarthiadol - Y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r rhain yw'r un a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, yn seiliedig ar bwysoliad incwm gwario aelwydydd cyfwerthedig a llesiant (amcangyfrif defnyddioldeb incwm ymylol).

Mae tybiaethau manwl ar gyfer y buddion a'r ychwanegedd wedi'u nodi yn y Nodyn Technegol Achos Economaidd. Yn gyffredinol, mae cyfradd ychwanegedd o [redacted]% wedi bod cymhwyso at y buddion.

## Darparwch grynodeb o Werth am Arian cyffredinol y cynnig

Defnyddir Cymarebau Cost a Budd, neu BCRs, yn eang yn y llywodraeth i asesu gwerth cyffredinol arian ymyrraeth. Fe'u mynegir fel cymhareb buddion dros gostau. Er enghraifft, mae BCR = 2.34:1 yn golygu y bydd prosiect yn cynhyrchu £[redacted] o fudd am bob £[redacted] o gost. Mae'n bwysig nodi bod y mewnbynnau hyn nad ydynt yn ariannol ac yn cael eu defnyddio yn yr Achos Economaidd i asesu Gwerth am Arian yn unig.

Prosiect 1 – Gwaith Copr

Amcangyfrifir y bydd cynllun safle'r Gwaith Copr yn creu buddion uniongyrchol o fwy na £[redacted]. Gan ganiatáu ar gyfer effeithiau dosbarthiadwy, ac adlewyrchu budd buddsoddi mewn ardal o amddifadedd cymharol, mae'r budd a aseswyd wedi cynyddu i bron £[redacted].

Yn seiliedig ar gostau ymylol net amcangyfrifedig o £[redacted], bydd y budd a nodwyd yn cefnogi BCR cychwynnol o 2.20:1 a BCR wedi'i addasu o 2.9:1. Mae hyn yn uwch na throthwy o 2.0 ac felly yn cael ei ystyried yn werth uchel am arian, yn enwedig o ystyried y manteision ehangach a ddisgrifir isod.

Prosiect 2 – Cysylltiadau Afon Tawe

Amcangyfrifir y bydd cynllun Cysylltiadau Afon Tawe yn creu buddion uniongyrchol o fwy na [redacted]. Gan ganiatáu ar gyfer effeithiau dosbarthiadwy, ac adlewyrchu budd buddsoddi mewn ardal o amddifadedd cymharol, mae'r budd a aseswyd wedi cynyddu i bron [redacted].

Yn seiliedig ar gostau ymylol net amcangyfrifedig o [redacted], bydd y budd a nodwyd yn cefnogi BCR cychwynnol o 2.1:1 a BCR wedi'i addasu o 2.8:1. Mae hyn yn uwch na throthwy o 2.0 ac felly yn cael ei ystyried yn werth uchel am arian, yn enwedig y manteision ehangach a ddisgrifir isod.

Prosiect 3 – Amgueddfa Abertawe

Amcangyfrifir y bydd cynllun Amgueddfa Abertawe yn creu buddion uniongyrchol o fwy na [redacted]. Gan ganiatáu ar gyfer effeithiau dosbarthiadwy, ac adlewyrchu budd buddsoddiad mewn ardal o amddifadedd cymharol, mae'r budd a aseswyd wedi cynyddu i bron [redacted].

Yn seiliedig ar gostau ymylol net amcangyfrifedig o [redacted], bydd y budd a nodwyd

yn cefnogi BCR cychwynnol o 2.0:1 a BCR wedi'i addasu o 2.61. Mae hyn uwchlaw'r trothwy o 2.0 ac felly ystyrir ei fod yn werth uchel am arian, yn enwedig yng ngoleuni'r manteision ehangach a ddisgrifir isod.

Cyfanswm
Mae gan y rhaglen gyffredinol BCR cychwynnol o 2.2:1 a BCR wedi'i addasu o 2.8:1 – ac ystyrir ddau yn werth uchel am arian.

[redacted]

[redacted]

## Ydych chi wedi amcangyfrif Cymhareb Cost a Budd (BCR)?

Do

## Cymarebau Cost a Budd Amcangyfrifedig

| | |
|---|---|
| **Cymhareb cost a budd gychwynnol** | 2.2 |
| **BCR wedi'i addasu** | 2.8 |

## Disgrifiwch yr effeithiau anariannol y bydd y cynnig yn eu cael a rhowch grynodeb o sut yr aseswyd y rhain

Bydd yr ymyriad arfaethedig yn cyflwyno ystod o effeithiau ehangach pwysig:

Adfywio – Cafwyd diffyg buddsoddiad yn Amgueddfa Abertawe dros y degawdau diweddar sydd wedi arwain at gadw llawer o'r casgliad mewn storfa anhygyrch i'r cyhoedd yn adeilad y Felin Rolio. Yn ogystal, mater allweddol yw'r hen safle diwydiannol trwm nad oedd yn cael ei ddefnyddio ddigon ac a oedd unwaith yn flaenllaw yn y diwydiant Copr. Bydd y pecyn CFfB hwn yn gwrthdroi tuedd y blynyddoedd diweddar drwy wella'r cysylltiadau i gerddwyr o'r ardal i'r orsaf, canol y ddinas, y marina a phrifysgolion yn cefnogi nifer yr ymwelwyr ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio’r ardal ymhellach.

Delwedd - Mae'r ardal yn dioddef o ganfyddiadau a delwedd negyddol, yn ogystal â ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau troseddu. Amlygir hyn gan y gyflwr adfeiliedig a/neu wael asedau treftadaeth ar safle Gwaith Copr, sydd wedi denu fandaliaeth gan drigolion. Nod y cynlluniau arfaethedig yw mynd i'r afael â'r materion sylfaenol craidd sy'n effeithio ar drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd drwy greu cyrchfan ymwelwyr unigryw gyda chyfleoedd i fusnesau lleol a dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd masnachol er mwyn goresgyn problemau troseddu.

Balchder cymunedol – Mae yna ddatgysylltiad rhwng y Strand a’r Stryd Fawr oherwydd cysylltiadau gwael a pharthau cyhoeddus yn achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Mae'r problemau hyn wedi creu diffyg cydlyniant cymunedol. Bydd yr ymyriad hwn yn gwella'r ddarpariaeth amwynderau cyhoeddus ac atyniad mannau cyhoeddus. Bydd y gwelliannau i barthau cyhoeddus yn rhoi cyfleoedd allweddol i’r gymuned leol ac eraill i gasglu a gwella cydlyniant cymdeithasol.

Twf sectorau newydd - Bydd y prosiect yn annog twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, gan helpu busnesau lleol i fasnachu am gyfnodau hwy drwy gydol y flwyddyn. Bydd bydd ymyriadau newydd yn helpu i ddatblygu cyfleoedd busnes newydd oherwydd y nifer ychwanegol o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn. Yn ogystal, bydd yr ymyriadau yn trawsnewid adeilad y Felin Rolio (Prosiect 1) yn Neuadd Fwyd hyblyg gan greu cyfleoedd i’r sector bwyd dyfu. Yn olaf, bydd trosglwyddo arteffactau treftadaeth o'r Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn galluogi eu harddangos a’u cadw yn unol ag arfer gorau, gwella arlwy amgueddfa hynaf Cymru ac arwain at gynnydd yn

nifer yr ymwelwyr ar gyfer economi canol y ddinas yn unol â Fframwaith Datblygu Diwylliannol Abertawe

Mynd i'r afael ag anfantais – Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lluosog o amgylch yr ymyriadau ymhlith yr [redacted] o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Bydd y pecyn ymyrraeth hwn yn creu cyfleoedd cyflogaeth o fewn sectorau sydd yn hygyrch i drigolion lleol, yn darparu cyrchfan i drigolion fynychu a bod yn falch ohono, a chreu amgylchedd mwy diogel sy'n annog peidio â throseddu. Bydd y prosiectau arfaethedig wedi'u lleoli yn ward Glandŵr yn helpu'n uniongyrchol i greu cyfleoedd cyflogaeth i'r hawlwyr hyn drwy'r rhaglen waith adnewyddu.

Defnyddiwyd system bwysoli a sgorio i asesu'r effeithiau hyn -
mae'r buddion ehangach pwysicaf yn ymwneud â gwella delwedd a gwella balchder cymunedol. Yn gyffredinol, disgwylir manteision ehangach sylweddol gyda sgoriau uwch na 8.0/10 ar gyfer pob prosiect.

## Darparwch asesiad o'r risgiau a'r ansicrwydd a allai effeithio ar Werth am Arian cyffredinol y cynnig

Ymagwedd cofrestr risgiau
Mae'r gofrestr risgiau yn darparu rhestr gynhwysfawr o risgiau a'u mesurau lliniaru.  Mae risgiau Gwerth am Arian (VfM) allweddol yn cynnwys:

Cynnydd mewn costau – oherwydd nodweddion safle nas rhagwelwyd sy'n achosi oedi neu'n cyfyngu'r gwaith arfaethedig, neu bwysau chwyddiant yn deillio o lafur a phrinder ffactorau eraill.
Diffyg galw/llai o fuddiannau – risg y bydd y sectorau twristiaeth a hamdden yn parhau i ddioddef wedi pandemig COVID-19 (a gostyngiad cysylltiedig yn nifer yr ymwelwyr).

Sensitifrwydd
Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn profi cadernid yr amcangyfrifon gwerth am arian i newidiadau mewn amodau allweddol, trwy a) brofi senarios gyda newidiadau technegol i gostau/allbynnau a b) newid gwerthoedd i ddarganfod y newidiadau sydd eu hangen ar gyfer y prosiect i beidio â chynrychioli gwerth am arian (BCR>1).
Senarios
Mae'r senarios canlynol wedi'u rhedeg:
1) Gosodir tuedd optimistiaeth o [redacted] ar yr holl gostau
2) Gosodir tuedd optimistiaeth o [redacted] ar y buddion
3) Gostyngir nifer yr ymwelwyr a’r defnyddwyr [redacted]
4) Gostyngir LVU ehangach [redacted]
5) Costau’n cynyddu [redacted] a buddion yn gostwng [redacted]

Mae'r BCR cychwynnol ym mhob senario yn parhau i fod yn uwch na 1.5, sy’n ofyniad i fod yn werth am arian [redacted].

Canfu'r dadansoddiad newid gwerthoedd y byddai angen i gostau gynyddu [redacted] neu fuddion ostwng [redacted] i'r prosiect beidio â chynrychioli gwerth am arian; teimlir fod y ddau yn dra annhebygol.

## Uwchlwythwch Dabl Arfarniad Crynodol i alluogi ystyried ystod lawn o effeithiau

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted]

## Cadarnhewch gyfanswm gwerth eich cynnig

**Cyfanswm gwerth y cynnig** £28761264

## Cadarnhewch werth y grant cyfalaf yr ydych yn gofyn amdano gan y GFfB

**Gwerth y grant cyfalaf** £20000000

## Cadarnhau gwerth yr arian cyfatebol a sicrhawyd

£8761263

[redacted] [redacted]

## Lle mae arian cyfatebol eto i'w sicrhau, nodwch y manylion isod

Mae'r holl arian cyfatebol wedi'i sicrhau.
[redacted]

## Cyfraniad tir

**Os ydych yn bwriadu gwneud cyfraniad tir (trwy ddefnyddio tir sy'n eiddo i chi eisoes), rhowch mwy o fanylion isod** Mae'r holl dir ac asedau sydd eu hangen ar gyfer y prosiect hwn yn eiddo i ac yn cael eu rheoli gan Gyngor Abertawe. O ran y prosiect cyffredinol, gwerth y tir yw de minimus ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y llyfrau gwaith a'r arfarniad cysylltiedig

[redacted]

## Cadarnhewch a yw eich cyllideb yn cynnwys costau TAW na ellir eu hadennill a disgrifiwch beth yw'r rhain, gan roi mwy o fanylion isod

Ddim yn berthnasol

## Disgrifiwch pa weithgaredd meincnodi neu ymchwil yr ydych wedi'i wneud i'ch helpu i bennu'r costau rydych wedi'u cynnig yn eich cyllideb

Ymgynghorwyr cost
Fel rhan o ddatblygiad y llyfr gwaith dylunio sydd ynghlwm wrth y ffurflen gais, penodwyd ymgynghorwyr costau [redacted] i ymgymryd â chostio'r cynllun. Mae adroddiadau cost QS ar gyfer pob elfen o'r prosiect wedi'u cynnwys yn y llyfr gwaith. Mae gan [redacted] gronfa ddata costau mewnol helaeth a luniwyd o brosiectau blaenorol, a

ddefnyddir i feincnodi'r holl gyngor ar gostau. Mae eu tîm dadansoddi data yn adolygu dilysrwydd y data hwn yn barhaus ac yn monitro tueddiadau o fewn y farchnad fel eu bod yn gallu cynnig y cyngor mwyaf diweddar posibl drwy gydol cylch bywyd prosiect. Yn ogystal, mae [redacted] yn defnyddio eu harbenigwyr Mecanyddol a Thrydanol mewnol i ddarparu cyngor costau MEP arbenigol. Mae cynlluniau costau [redacted] ill dau wedi'u halinio â Rheolau Mesur Newydd 1 - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, gan hyrwyddo arfer gorau.

## Rhowch wybodaeth am elw ac arian wrth gefn y caniatawyd ar eu cyfer a'r rhesymeg y tu ôl iddynt

Elw ac arian wrth gefn
Ymgymerwyd â'r costau adeiladu amcangyfrifedig ar gyfer y prosiect gan [redacted]; mae'r ddau yn syrfewyr meintiau profiadol.

Yn seiliedig ar eu cyngor, ar ben y costau adeiladu cyfalaf, mae'r ystyriaethau hyn wedi'u gwneud:

- Gwaith rhagarweiniol y prif gontractwr yn [redacted],
- Gorbenion ac elw'r prif gontractwyr yn [redacted]
- Ffi y tîm prosiect/dylunio yn [redacted]
- Costau datblygu/prosiect eraill yn [redacted]
- Lwfansau risg yn 10%, gan ymgorffori dylunio, adeiladu a risgiau newid cyflogwr
- Chwyddiant a amcangyfrifir ar gyfer y tendr yn [redacted]
- Chwyddiant a amcangyfrifir ar gyfer y gwaith adeiladu yn [redacted]

Y tu hwnt i'r costau QS mae lwfans lefel rhaglen pellach o [redacted] wedi cael ei gymhwyso i ddatblygiad cyffredinol y prosiect ar gyfer arian wrth gefn a risgiau'r prosiect. Mae ffioedd tîm rheoli prosiectau cleientiaid mewnol (Cyngor Abertawe) o [redacted] hefyd wedi eu cynnwys yng nghostau'r gweithlyfr i sicrhau bod lefelau priodol o adnoddau yn eu lle i weithio ochr yn ochr â'r tîm amlddisgyblaethol a benodwyd.

Mae amserlen fanwl wedi'i chynnwys yn y cynllun costau y gellir ei darparu ar gais.

Mae'r canrannau a ddefnyddir ar gyfer y gronfa wrth gefn yn cael eu llywio gan ymgynghorwyr sy'n gweithio ar y prosiect. Bydd y Cyngor yn dyrannu adnoddau mewnol yn erbyn arian wrth gefn yn unol â'r Llyfr Gwyrdd. Bydd y darpariaethau yn cael eu lleihau wrth i'r cynllun fynd rhagddo, gan ganiatáu ar gyfer mecanweithiau trosglwyddo risgiau priodol.

Hepgorwyd tuedd optimistiaeth o'r ystyriaethau a'r proffiliau ariannu yn yr Achos Ariannol.

## Disgrifiwch y prif risgiau ariannol a sut y cânt eu lliniaru

Trosolwg o risgiau
Mae rheoli risgiau yn broses sy'n caniatáu deall a rheoli digwyddiadau risg unigol a risgiau cyffredinol yn rhagweithiol, gan sicrhau'r llwyddiant gorau posibl drwy leihau bygythiadau a manteisio ar gyfleoedd.

Mae'r prif risgiau i'r prosiect a'u mesurau lliniaru wedi cael eu crynhoi yn y Gofrestr Risgiau atodedig. Prif amcan y Gofrestr Risgiau yw cymhwyso gweithdrefnau rheoli risgiau a aseswyd ymlaen llaw ac wedi'i dogfennu i beryglon penodol a nodwyd. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gyda'r Gofrestr Risgiau, gan gynnwys yr ystyriaethau a wnaed ar gyfer risgiau, yn darparu dealltwriaeth llawer gwell o gostau sylfaenol a chost trosglwyddo risgiau.
Mae'r risgiau wedi'u hasesu gan ddefnyddio dyfarniadau ynghylch tebygolrwydd ac effaith pob eitem risg. Mae sgôr o 0 (isel iawn) i 5 (uchel iawn) wedi cael ei rhoi ym mhob achos ar gyfer tebygolrwydd ac effaith yn y drefn honno, gyda'r sgôr risg yn gynnyrch tebygolrwydd a risg. Cyflwynir y matrics risgiau isod.

Mae risg unigol a risg gyffredinol wedi’u nodi a byddant yn cael eu rheoli yn rhagweithiol.
Mae'r risgiau wedi'u hasesu gan ddefnyddio dyfarniadau ynghylch tebygolrwydd ac effaith pob eitem risg. Mae sgôr o 1 (isel iawn) i 5 (uchel iawn) wedi cael ei rhoi ym mhob achos ar gyfer tebygolrwydd ac effaith yn y drefn honno, gyda'r sgôr risg yn gynnyrch tebygolrwydd a risg. Cyflwynir y matrics risgiau yn y gofrestr risgiau atodedig

Risgiau a mesurau lliniaru ariannol allweddol

1. Cyllid Grant / Ffyniant Bro (CFfB) a gollwyd oherwydd diffyg gwariant ariannol yn arwain at ganslo'r prosiect
Mesur Lliniaru: Mae'r cyflwyniad CFfB sy'n cael ei baratoi yn realistig gydag amserlen fanwl ac yn gyflawnadwy o fewn cyfyngiadau cyflwyno hysbys. Bydd y prosiect yn amodol ar arfer da rheoli prosiectau parhaus a sefydledig.
Sgôr Risg Gweddilliol: (Gwyrdd) Risg Isel

2. Oedi yn y rhaglen yn golygu bod caniatâd cynllunio yn darfod ac o ganlyniad bydd angen ail-ymgeisio
Mesur Lliniaru: Bydd y rhaglen sy'n cael ei datblygu yn ymgorffori prosesau priodol a mesurau lliniaru amser. Bydd y rhaglen yn cael ei chyd-ddatblygu gyda'r tîm prosiect cyfan yn cytuno arni ac yn glynu iddi a'i hadolygu'n rheolaidd.
Sgôr Risg Gweddilliol: (Gwyrdd) Risg Isel

3. Caniatâd cynllunio yn darfod oherwydd na chyflawnwyd Materion a Gadwyd yn Ôl ac o'r herwydd rhaid ail-gyflwyno
Mesur Lliniaru: Bydd y rhaglen sy'n cael ei datblygu yn ymgorffori prosesau priodol a mesurau lliniaru amser. Bydd y rhaglen yn cael ei chyd-ddatblygu gyda'r tîm prosiect cyfan yn cytuno arni ac yn glynu iddi a'i hadolygu'n rheolaidd.
Sgôr Risg Gweddilliol: (Gwyrdd) Risg Isel

4. Camau cyflwyno prosiectau ddim yn gyflawnadwy gan arwain at oedi i'r prosiect wrth addasu'r camau
Mesur Lliniaru: Bydd y rhaglen sy'n cael ei datblygu yn ymgorffori prosesau priodol a mesurau lliniaru amser. Bydd y rhaglen yn cael ei chyd-ddatblygu gyda'r tîm prosiect cyfan yn cytuno arni ac yn glynu iddi a'i hadolygu'n rheolaidd.
Sgôr Risg Gweddilliol: (Gwyrdd) Risg Isel

5. Mae'r cymorth ariannol i gwblhau prosiect Cwm Tawe Isaf yn fwy na'r hyn a a wobrwywyd gan y Gronfa Ffyniant Bro
Mesur Lliniaru: Mae'r cyflwyniad i CFfB, a'r prosiect yn ei gyfanrwydd, yn cael ei ddatblygu i gynnwys lefel briodol o fesurau lliniaru ac wrth gefn.
Bydd Cyngor Abertawe yn ceisio trosglwyddo risg ariannol i'r contractwr, ac hefyd yn gwneud darpariaeth fewnol ar gyfer gorwario costau posibl o fewn y gyllideb cyfalaf. Rhagwelir y bydd unrhyw orwariant costau posibl yn cael ei liniaru ymlaen llaw neu gyda symiau wrth gefn priodol a realistig.
Sgôr Risg Gweddilliol: (Gwyrdd) Risg Isel

6. Mae oedi wrth sicrhau cyllid yn arwain at oedi o ganlyniad wrth benodi'r prif gontractwr, oedi yn cyflawni amodau cyn cychwyn ar y gwaith ac oedi cyffredinol wrth ddechrau ar y safle.
Mesur Lliniaru: Mae'r rhaglen yn cadw at brosesau ymgeisio am arian ffyniant bro. Mae gennym ni hyder ym mhroses ymgeisio am arian ffyniant bro. Bydd Cyngor Abertawe yn cynnal sgwrs reolaidd gyda DLUCH yn ystod y cyfnod pennu ariannu ac yn ceisio lliniaru unrhyw oedi na ragwelwyd.
Sgôr Risg Gweddilliol: (Oren) Risg Gymedrol

Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli’n barhaus gan y Perchennog Risgiau a’r Rheolwr Risgiau, a fydd yn amcanu i optimeiddio graddau cyfyngiant yn erbyn y tebygolrwydd ac effaith y risgiau cyn rheoli'r risg i lefel dderbyniol fel y gellir ei gau.

Trosglwyddo risg / gorwariant costau
Lle y bo modd, bydd y Cyngor yn ceisio trosglwyddo risg ariannol i'r prif gontractwr. Hyd nes y cwblheir y broses caffael a chontractio, bydd y Cyngor yn gwneud darpariaeth fewnol ar gyfer gorwariant posibl o fewn dyraniad y gyllideb cyfalaf. Yna bydd y risg yn cael ei drosglwyddo i'r contractwr.

Fodd bynnag, ni ddisgwylir gorwario oherwydd bod strwythurau rheoli prosiect a masnachol yn eu lle. Bydd y risg yn cael ei drosglwyddo i'r contractwr cychwynnol lle y bo modd.

[redacted] [redacted]

## Os ydych yn bwriadu dyfarnu cyfran o'ch grant Cronfa Ffyniant Bro i bartner trwy gontract neu is-grant, rhowch wybod isod

Ddim yn berthnasol i'r prosiect hwn

## Pa strwythur cyfreithiol / llywodraethu ydych chi'n bwriadu ei roi ar waith gydag unrhyw bartneriaid cynnig sydd â budd ariannol yn y prosiect?

Ddim yn berthnasol i'r prosiect hwn

## Crynhowch eich strwythur masnachol, dyraniad risg a strategaeth gaffael sy'n amlygu'r rhesymeg dros y strategaeth a ddewiswyd a'r opsiynau eraill a ystyriwyd ac a ddiystyrwyd

Dileu risg ymhellach a denu buddsoddiad gan y sector preifat

Bydd prosiect Cwm Tawe Isaf yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Abertawe a bydd adeiladu ar nifer o ddatblygiadau a gyflawnwyd gan y Cyngor yn y blynyddoedd diweddar. Fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y ffurflen gais, mae'r safleoedd sy'n rhan o'r pecyn o brosiectau wedi mynd yn adfail a heb fuddsoddiad ar eu cyfer ers degawdau. Mae bwlch hyfywedd sylweddol yn bodoli i ddod â datblygiad yn ei flaen ac mae angen ymyrraeth o'r fath gan y sector cyhoeddus i adfywio safleoedd allweddol a fydd yn eu tro yn lleihau'r risgiau i ddatblygiadau pellach ac yn denu buddsoddiad gan y sector preifat.

Mae Cyngor Abertawe wedi arfarnu strategaethau caffael amrywiol wrth ystyried y cynllun cyflwyno ar gyfer y prosiect arfaethedig. O ystyried yr heriau a wynebir wrth ailddatblygu asedau treftadaeth, sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r buddsoddiad sydd ei angen yn y pecyn prosiectau arfaethedig, mae Cyngor Abertawe yn bwriadu caffael tîm dylunio amlddisgyblaethol (MDT) i ddatblygu ymhellach waith datblygu dylunio i gychwyn.

Ar ôl penodi'r tîm aml-ddisgyblaethol cynhelir gwerthusiad opsiynau arall i benderfynu ar y llwybr caffael mwyaf priodol ar gyfer pob un prosiect.

Adroddiad caffael
Asesir pob prosiect a chontract yn ôl ei rinweddau ei hun, yn seiliedig ar werth, cyflawniadau, amserlen a'r adnoddau sydd eu hangen. Bydd y tîm cleient angen i'r tîm ymgynghorol amlddisgyblaethol baratoi adroddiad caffael, gan amlinellu'n fanwl y math o gontract sydd ar gael, y manteision a'r anfanteision, ystyriaeth o'r farchnad (cadwyn gyflenwi, llafur ac ati) ar gyfer y math o brosiect sy'n cael ei gyflawni, rheolau a gofynion ariannu, yr amserlenni sydd ar gael, yr arbenigedd sydd ei angen, a byddant yn derbyn yr holl opsiynau caffael sydd ar gael megis OJEU, GwerthwchiGymru – llwybrau agored neu gyfyngedig, fframweithiau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w defnyddio, ac argymell llwybr caffael a dangos pam arall y disystyrwyd llwybrau ac opsiynau eraill.

Caiff arddull cytundeb h.y. Opsiwn A NEC a manylion tendro megis y dyraniad Ansawdd / Pris i'w ystyried gan y tîm cleientiaid a chydweithwyr caffael yng Nghyngor Abertawe gan gynnwys unrhyw ymgysylltu cyn y farchnad megis cwrdd â'r prynwr neu Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw/Datganiad o Ddiddordeb a gyhoeddwyd drwy GwerthwchiGymru hefyd eu cynnwys ac yn y rhan fwyaf o achosion eu cyhoeddi. Mae adroddiadau o'r fath yn addas ar gyfer contractau gwerth uchel. Lle y bo angen, cyflogir Swyddogion Cyfreithiol hefyd.

Llwybr caffael

Er mwyn pennu'r llwybr caffael, bydd y Cyngor a'i gynghorwyr penodedig yn ystyried yr amcanion blaenoriaeth ar gyfer y prosiect ac yn eu hasesu yn erbyn nodweddion pob llwybr caffael. Ymhlith yr opsiynau allweddol i'w hystyried yn y broses hon mae:

- Caffael traddodiadol.
- Dylunio ac Adeiladu (cam sengl a dau gam).
- Fframwaith caffael e.e. Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Bydd yr arferion caffael ar gyfer y cynnig hwn yn cadw at reolau a rheoliadau a amlinellir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a bydd yn rhoi cyfrif am y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygiedig) (Ymadael â'r UE) 2020 OS 1319 ("PPAR"). Yn ogystal â chadw at Reoliadau Contractau Cyhoeddus statudol y Deyrnas Unedig mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor gyhoeddi ei reolau sefydlog ei hun sy'n ymwneud â'n rheolaeth o wariant a gelwir y ddogfen yn Reolau Gweithdrefnau Contractau (CPRs) sy'n rhan greiddiol o Gyfansoddiad y Cyngor.

Penderfynir rhoi ystyriaeth i gontract Dylunio ac Adeiladu neu Gontract Traddodiadol fel arfer yn gynnar yn natblygiad y prosiect fel y bydd yn cwmpasu'r telerau a'r allbynnau sy'n ofynnol gan dîm dylunio ymgynghorol. Mae manteision ac anfanteision hyn yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer y math hwn o adeilad a lle y dylai'r risg fod.

Er enghraifft, mae contractau traddodiadol yn tueddu i roi llawer o'r risg ar y cleient, fodd bynnag, wrth ddelio ag adeilad treftadaeth, mae'r mathau hyn o gontractau yn llawer mwy addas gan ei fod yn rhoi mwy o reolaeth i'r cleient dros y cynnyrch terfynol, yn enwedig o ran cadwraeth. Gyda chontractau dylunio ac adeiladu mae hyn yn cyd-fynd yn well â datblygiadau adeiladu modern, lle mae'r risg yn tueddu i fod yn fwy gyda'r contractwr ac mae llai o reolaeth gan y cleient.

Rheoli prosiectau

Mae rheoli prosiect a threfniadaeth da yn allweddol mewn unrhyw ymarfer caffael, yn benodol cynllunio prosiect/rhaglen a rheoli risgiau. Gyda rheolau caffael ac amserlenni cysylltiedig, er mwyn sicrhau ffurflenni tendro llwyddiannus ac addas, rhaid caniatáu digon o amser ar eu cyfer, gan gynnwys cyflwyno'r prosiect. Rhaid datblygu rhaglen brosiect gyda gwybodaeth fanwl am sut mae'r holl brosesau mewnol ac allanol yn cael eu cofnodi o fewn yr amserlen gywir gysylltiedig. Gydag Awdurdodau Lleol yn amlach na pheidio mae angen prosesau cyfansoddiadol i symud prosiectau yn eu blaenau a chyflawni. Dyma lle mae'r tîm cleient (awdurdod lleol) yn gweithio gyda thimau o ymgynghorwyr yn hollbwysig ac mae eu profiad a'u gwybodaeth yn gweithio'r ddwy ffordd.

Mae pob contractwr tendro o leiaf yn cwblhau tendr dau gam nodweddiadol.

Cam 1: Holiadur Cyflenwyr. Bydd gofyn i bob contractwr ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani megis statws cyfreithiol, is-gontractio, rheolaeth cadwyn gyflenwi, troseddau megis twyll, llwgrwobrwyo, terfysgaeth, gwyngalchu arian; tor cyfraith megis cyfraith gymdeithasol, amgylcheddol, camymddwyn difrifol; sefyllfa economaidd ac ariannol megis cymhareb trosiant blynyddol o 2:1; y lleiafswm trothwy yswiriant, tystiolaeth o brofiad perthnasol yn y gorffennol o fewn 3-5 o blynyddoedd, gallu, caethwasiaeth fodern, cyfle cyfartal, y Gymraeg, Iechyd a Diogelwch megis gorfodaeth, statws cofrestru SSIP neu debyg, Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Rhaid i bawb sy'n tendro FODLONI'R trothwy ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn. Os na wnânt, caiff eu tendr ei anghymwyso ac ni chaiff ei asesu ymhellach. Bydd manylion y contractwr llwyddiannus yn cael eu gwirio fel yr amlinellwyd, megis adolygu cyfrifon a thystysgrifau yswiriant.

Cam 2: Ansawdd a Phris. Rhoddir % pwysoliad ar bob un yn dibynnu ar ffactorau prosiect, a rhoddir pwysoliad gwahanol i gontractau gwahanol. Er enghraifft, gall ansawdd gael pwysoliad trymach na phris, ac i'r gwrthwyneb, h.y., 60% Ansawdd, 40% Pris.

Cynhwysir cwestiynau ansawdd a ystyrir sy'n edrych i'r dyfodol, megis adeilad sy'n adfail ac wedi bod ar draul yr elfennau ers 20 mlynedd. Mae'r adeilad yn wlyb ac angen sychu, rydym yn gofyn sut mae'r contractwr yn bwriadu cyflawni'r gwaith i oresgyn hyn a gwneud y cyfnod sychu cyhyd â phosib. Gofynnir am raglen gontract bob tro. Mae pob cwestiwn yn cael ei sgorio allan o 5 a gallwn ddatgan bod yn rhaid i gwestiynau sgorio isafswm trothwy ac os nad ydynt yn cyflawni hynny caiff eu tendr ei wrthod. Mae hwn yn fesur da i sicrhau

bod contractwr o ansawdd yn cael ddefnyddio. Bydd personau cymwys yn sgorio'r ffurflenni tendro a phob ymateb yn cael ei sgorio'n deg ac mewn modd tryloyw.
Yr holl wybodaeth berthnasol megis manylion y prosiect, gwybodaeth ddylunio, y rhaglen, h.y. paratoi, gwybodaeth cyllidwr, terfynau amser, allbynnau, gwybodaeth cleient a gwybodaeth tîm dylunio, gofynion adrodd, cynnydd yn bodloni disgwyliadau a chyhoeddir y contract fel rhan o'r pecyn tendro. Mae'r holl dendrwyr felly yn ymwybodol o'r disgwyliadau y maent yn tendro ar eu cyfer.
Gofynnir am bris a cheir cyfanswm sgôr, a dewisir y tendr gyda'r sgôr uchaf, cydymffurfiol, yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy derbyniol.

Caiff yr holl gyfathrebu tendro ei gynnal trwy'r porth tendro i sicrhau proses deg a thryloyw.

Gofynnir am Fond Perfformiad. Mae Banc Prosiectau bellach yn ofyniad safonol ar gyfer Cyngor Abertawe ac mae'n amddiffyniad cadarn i'r cleient a'r is-gontractwyr.

Bydd y pecyn tendro yn cael ei ddyfeisio rhwng y ddau dîm o ymgynghorwyr, Syrfëwr Meintiau, Rheolwr y Prosiect, dylunwyr, a'r tîm cleientiaid yng Nghyngor Abertawe.

Er mwyn lliniaru unrhyw risgiau, bydd disgwyl i'r contractwr gyflawni yn unol â'r gofynion a nodir yn y contract, i'r safonau a nodwyd. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu monitro trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chyflenwyr lle gellir trafod perfformiad a materion perthnasol eraill.
Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i ymdrin â materion yn gyflym ac er lles pennaf y cyngor. Bydd perfformiad gwael yn cael ei godi'n gyflym, fel y gall cyflenwyr fynd i'r afael â'r problemau a'u cywiro.

Lle nad yw cyflenwyr yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael, gallai hyn arwain at ddirwyn y contract i ben. Mae'n bwysig felly bod y cyflenwyr yn deall yn glir anghenion y contract, yn teimlo eu bod yn gallu eu cyflawni ac wedi darllen yr amodau thelerau cyn tendro. Yn ystod y broses dendro, gofynnir i gyflenwyr uwchlwytho datganiadau dull ac asesiadau risgiau a fydd yn cael eu gwerthuso am eu gallu i gyflawni'r contract

Sero net
Yn unol ag uchelgeisiau Sero Net; bydd y cais hwn yn dilyn yr ystyriaethau caffael sy'n cefnogi cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys gweithio yn unol â phum ffordd o weithio yr egwyddor datblygu cynaliadwy, effeithiau amgylcheddol, ystyriaethau gwaredu, lleihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, dosbarthu eitemau, lleihau nifer y danfoniadau i sicrhau llai o effaith ar yr amgylchedd, annog defnyddio technoleg arloesol glân ac annog arloesedd. Pwyslais ar gaffael yn lleol i leihau ôl troed carbon a helpu i ddatblygu cadwyn gyflenwi gynaliadwy yn unol â mentrau Gwerth Cymdeithasol. Mae gennym swyddog cefnogi penodedig sy'n ymgysylltu â chyflenwyr lleol i gynnig cymorth gyda'r prosesau tendro, ac i gynyddu ymgysylltiad a chystadleuaeth.

Gwerth Cymdeithasol

Bydd Gwerth Cymdeithasol yn chwarae rhan annatod ym mhob contract sy'n ymwneud â'r prosiect hwn. Byddwn yn tynnu ar Bolisi Gwerth Cymdeithasol y Cyngor sydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i gwreiddio drwyddi draw. Ymhellach, bydd Polisi Buddiannau Cymunedol Cyngor Abertawe yn cael ei weithredu lle y bo'n berthnasol a bydd hyn yn cael ei reoli gan dîm arobryn Y Tu Hwnt i Frics a Morter (BBM) y cyngor. Lle y bo'n briodol, bydd cymalau Budd Cymunedol yn cwmpasu recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, a fydd yn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael i ymgeiswyr sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor, yn NEET, neu'n economaidd anweithgar. Am Werth Cymdeithasol Ychwanegol, bydd BBM yn annog tendrwyr llwyddiannus i gymryd rhan mewn mentrau addysgiadol gydag Ysgolion, Colegau, a Phrifysgolion lleol, megis cynnig lleoliadau gwaith, ymweliadau safle a sgyrsiau addysgol neu gyfrannu cyfarpar addysgol.

Cadwyni cyflenwi lleol
Anogir ymgysylltu â'r gymuned leol gyda disgwyliadau o ran diwrnodau

gwirfoddoli, rhoi amser/offer i fentrau/prosiectau cymunedol. Yn ogystal, bydd BBM yn hyrwyddo'r defnyddio cadwyni cyflenwi lleol a fydd yn gweithio tuag at lunio cadwyn gyflenwi gynaliadwy ar gyfer yr economi leol. Bydd BBM yn gyfrifol am werthuso cyflwyniadau tendr yn seiliedig ar eu teilyngdod i gyrraedd targedau a osodwyd ac yn ogystal byddant yn monitro ac yn adrodd ar gyfres o dargedau wedi hynny.

## Pwy fydd yn arwain ar gaffael a rheoli contractwyr ar y cynnig hwn ac esboniwch pa arbenigedd a sgiliau sydd ganddynt wrth reoli caffael a chytundebau o'r math yma?

Y Tîm Datblygu Economaidd a'r Tîm Cyllido Allanol
Bydd tîm rheoli prosiectau cleientiaid Cyngor Abertawe o fewn y tîm Datblygu Economaidd ac Ariannu Allanol yn arwain ar gaffael y tîm dylunio amlddisgyblaethol (MDT), ar y cyd â Swyddogion Caffael yn nhîm caffael corfforaethol y Cyngor. Bydd cydweithwyr caffael yn cefnogi gwahanu dyletswyddau rhwng gwasanaethau corfforaethol a'r adran sy'n caffael y cleientiaid a bydd yn darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol i'r tîm prosiect. Bydd swyddogion hefyd yn sicrhau bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn.

Y rheolwr prosiect o fewn y Tîm Datblygu Economaidd ac Ariannu Allanol fydd yn arwain ar gaffael y tîm amlddisgyblaethol ac mae ganddo dros 10 mlynedd o brofiad yn rheoli caffael a chontractio cyfalaf a threftadaeth.

Ar ôl penodi'r tîm amlddisgyblaethol, y rheolwr prosiect a benodwyd fel rhan o'r tîm amlddisgyblaethol fydd wedyn yn arwain ar gaffael unrhyw wasanaethau pellach, galluogi a phrif waith – fodd bynnag bydd hyn yn o hyd ar y cyd â'r rheolwr prosiectau cleientiaid.

## A ydych yn bwriadu rhoi gwaith ar gontract allanol neu is-gontractio unrhyw waith arall ar y cynnig hwn i drydydd parti?

Dangosyddion perfformiad allweddol

Bydd disgwyl i'r prif gontractwr a gaffaelir reoli unrhyw is-gontractwyr.
Bydd disgwyl i'r contractwr gyflawni yn unol â'r gofynion a osodwyd yn y contract, i'r safonau a nodwyd. Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) yn cael eu monitro trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chyflenwyr lle gellir trafod perfformiad a materion perthnasol eraill. Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i ymdrin â phroblemau yn gyflym ac er lles gorau'r cyngor.
Bydd perfformiad gwael yn cael ei godi'n gyflym, felly gall cyflenwyr fynd i'r afael â'r problemau a'u cywiro. Lle nad yw cyflenwyr yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael, gallai hyn arwain at ddod â'r contract i ben. Felly mae'n bwysig bod cyflenwyr yn deall anghenion y contract yn glir, yn teimlo'n alluog i'w cyflawni ac yn darllen yr amodau a'r telerau cyn tendro.

Swyddogion Budd Cymunedol
Lle cynhwysir cymalau Budd Cymunedol/Gwerth Cymdeithasol, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos rhwng Swyddogion Budd Cymunedol a'r contractwr i wirio bod targedau recriwtio a hyfforddiant yn cael eu cyflawni a'u cofnodi a bod taenlen y pecyn cymorth Budd Cymunedol yn cael ei diweddaru yn rheolaidd.

Bydd Cyfrif Banc Prosiectau (PBA) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect hwn a phob dogfennaeth sy'n ymwneud â hyn yn cael ei chynnwys yng nghymalau'r dogfennau ITT. Bydd y dogfennau hyn yn cyfeirio at y defnydd o PBAs ac yn cynnwys gofynion penodol ar sut y bydd y PBA yn gweithredu.
Bydd y contractau rhwng cwmnïau yng nghadwyn gyflenwi'r prosiect yn cynnwys darpariaethau PBA addas, mewn perthynas â'r contract a osodwyd gan Gyngor Abertawe a bydd yn cynnwys y canlynol:

· Dogfennau PBA
· Gofyniad i'r prif gontractwr gynnwys dogfennau PBA yn y dogfennau tendr

ar gyfer pob is-gontract gyda darpar is-gontractwyr; ac i'r prif gontractwr hefyd i'w gwneud yn ofynnol i is-gontractwyr wneud yr un peth ar gyfer pob is-gontract gyda darpar is-gontractwyr.
· Gofyniad bod y dogfennau PBA yn cael eu hailadrodd mewn contractau rhwng cwmnïau cadwyn gyflenwi ac yn cael eu diwygio yn ôl yr angen yn unig i weithredu'r PBA ar y lefel honno.
· Mae gan NEC a JCT ill dau gymalau PBA safonol wedi'u paratoi.

Bydd y gadwyn gyflenwi gyfan yn cael ei thalu drwy'r PBA, er gellid cymhwyso'r eithriadau hyn:

· Cyflenwyr sy'n cael eu talu'n amlach nag yn fisol.
· Cyflenwyr nad ydynt yn ddiamddiffyn nad ydynt yn dymuno cymryd rhan.
· Cyflenwyr nad yw eu trefn danfon/anfonebu yn gydnaws â PBA e.e. cyflenwr deunydd yn darparu ar draws nifer o safleoedd / prosiectau.
· Is-gontractwyr y mae hyd eu contract cyfan yn fyrrach nag un gylch dalu.

· Cyflenwyr â chylchoedd talu na ellir eu halinio â'r prif gontract.

Lle cymhwysir yr eithriadau uchod, bydd prosesau ar waith i sicrhau bod cyflenwyr y tu allan i PBA yn cael eu talu'n brydlon ac o fewn uchafswm o 30 diwrnod ar gyfer anfonebau dilys. Bydd is-gontractwyr y mae eu gwerth pecyn yn llai nag 1% o werth y contract yn cael yr opsiwn i ymuno â'r PBA os dymunant.

## Sut byddwch yn ymgysylltu â chyflenwyr allweddol i reoli eu contractau'n effeithiol fel eu bod yn cyflawni eich allbynnau a ddymunir

Rheolau Caffael Corfforaethol

Fel rhan o Reolau Caffael Corfforaethol (CPRs) Cyngor Abertawe mae'n ofyniad hanfodol i'r holl gontractwyr tendro gwblhau tendr dau gam nodweddiadol sy'n nodi'n benodol y gofynion diwydrwydd dyladwy a chanlyniadau a ddymunir o'r contract. Mae'r rheolaethau cadarn hyn ar waith i liniaru risg i'r Cyngor ac ymgorffori holiadur cyflenwyr yng ngham 1 ac asesiad ansawdd a phris yng ngham dau, fel yr amlinellir isod:

Cam 1: Holiadur Cyflenwyr. Bydd gofyn i bob contractwr ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani megis statws cyfreithiol, is-gontractio, rheolaeth cadwyn gyflenwi, troseddau megis twyll, llwgrwobrwyo, terfysgaeth, gwyngalchu arian; tor cyfraith megis cyfraith gymdeithasol, amgylcheddol, camymddwyn difrifol; sefyllfa economaidd ac ariannol megis cymhareb trosiant blynyddol o 2:1; y lleiafswm trothwy yswiriant, tystiolaeth o brofiad perthnasol yn y gorffennol o fewn 3-5 o flynyddoedd, gallu, caethwasiaeth fodern, cyfle cyfartal, y Gymraeg, Iechyd a Diogelwch megis gorfodaeth, statws cofrestru SSIP neu debyg, Diogelu Data a GDPR. Rhaid i bawb sy'n tendro FODLONI'R trothwy ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn. Os na wnânt, caiff eu tendr ei anghymwyso ac ni chaiff ei asesu ymhellach. Bydd manylion y contractwr llwyddiannus yn cael eu gwirio fel yr amlinellwyd megis adolygu cyfrifon a thystysgrifau yswiriant.

Cam 2: Ansawdd a Phris. Rhoddir % pwysoliad ar bob un yn dibynnu ar ffactorau prosiect, a rhoddir pwysoliad gwahanol i gontractau gwahanol. Er enghraifft, gall ansawdd gael pwysoliad trymach na phris, ac i'r gwrthwyneb, h.y., 60% Ansawdd, 40% Pris.
Cynhwysir cwestiynau ansawdd a ystyrir sy'n edrych i'r dyfodol, megis adeilad sy'n adfail ac wedi bod ar draul yr elfennau ers 20 mlynedd. Bydd adeilad yn wlyb ac angen sychu, rydym yn gofyn sut mae'r contractwr yn bwriadu cyflawni'r gwaith i oresgyn hyn a gwneud y cyfnod sychu cyhyd â phosib. Gofynnir am raglen gontract bob tro. Mae pob cwestiwn yn cael ei sgorio allan o 5 a gallwn ddatgan bod yn rhaid i gwestiynau sgorio isafswm trothwy ac os nad ydynt yn cyflawni hynny caiff eu tendr ei wrthod. Mae hwn yn fesur da i sicrhau yr ymgysylltir â chontractwr o ansawdd. Bydd personau cymwys yn sgorio'r ffurflenni tendro a phob ymateb yn cael ei sgorio'n deg ac mewn modd tryloyw.

Mae'r holl wybodaeth berthnasol megis manylion y prosiect, gwybodaeth ddylunio, y rhaglen, h.y. paratoi, gwybodaeth cyllidwr, terfynau amser, allbynnau, gwybodaeth cleient a gwybodaeth tîm dylunio, gofynion adrodd, cynnydd yn bodloni disgwyliadau a'r contract wed'u cyhoeddi fel rhan o'r pecyn tendro.

Mae'r holl dendrwyr felly yn ymwybodol o'r disgwyliadau maent yn tendro ar eu cyfer o'r cychwyn.

Gofynnir am bris a cheir cyfanswm sgôr, a dewisir y tendr gyda'r sgôr uchaf, cydymffurfiol, yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy derbyniol.

Caiff yr holl gyfathrebu tendro ei gynnal trwy'r porth tendro i sicrhau proses deg a thryloyw.

Gofynnir am Fond Perfformiad. Mae Banc Prosiectau bellach yn ofyniad safonol ar gyfer Cyngor Abertawe ac mae'n amddiffyniad cadarn i'r cleient ac is-gontractwyr.

Bydd y pecyn tendro yn cael ei ddyfeisio rhwng y ddau dîm o ymgynghorwyr; Syrfëwr Meintiau, Rheolwr y Prosiect, dylunwyr, a'r tîm cleientiaid yng Nghyngor Abertawe.

Mae'n arferol i Gyngor Abertawe ddefnyddio Opsiwn A NEC. Fodd bynnag, mae pob prosiect yn cael ei asesu yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn unol â'r farchnad gyfredol.
Felly, pe bai Opsiwn NEC gwahanol yn fwy addas, bydd hwnnw'n cael ei ddewis yn dilyn cyngor a geisiwyd gan y Rheolwr Prosiect ymgynghorol a'r Syrfëwr Meintiau ynghyd â chydweithwyr caffael yng Nghyngor Abertawe sy'n ymwneud â phrosiectau tebyg eraill. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau'r llwyddiant gorau. Anaml y defnyddir JCT bellach.
Bydd yr asesiad wrth ddewis contractwr addas hefyd yn ystyried llwybrau tendro, fel fframwaith lleol neu ranbarthol, GwerthwchiGymru, neu OJEU.

Bydd gan y tîm cleientiaid gyfrifoldebau rheoli contractau, megis sicrhau bod yr holl yswiriant perthnasol yn gyfredol.

Ar ôl cwblhau'r broses gaffael a dyfarnu'r contract yn llwyddiannus bydd gofyn i'r contractwyr a benodwyd gynnal cyfarfodydd tîm dylunio wythnosol/pythefnosol i drafod y prosiect a'r wybodaeth sydd ei hangen i alluogi cynnydd a thrafod unrhyw bryderon. Bydd gofyn i gontractwyr arwain cyfarfodydd cynnydd misol, gan ddarparu adroddiadau ar y cynnydd a wnaed yn y cyfnod adrodd hwnnw, unrhyw faterion/oedi/risgiau, yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn y cyfnod adrodd nesaf, diweddariad ar statws y rhaglen, a chostiadau.
Yn ogystal, disgwylir i'r Rheolwr Prosiect ymgynghorol a'r Ymgynghorydd Costau (QS) baratoi adroddiadau cynnydd misol ac adroddiadau costau, yn cynnwys cynnydd, risgiau a phroblemau ac ati., sy'n cael eu rhoi i'r tîm rheoli prosiectau cleientiaid a'u trafod yn unol â hynny.

Mae contractau NEC yn gweithredu proses rhybuddio cynnar a lleihau risgiau.
Rhybudd cynnar – yn nodi problemau’n gynnar, er mwyn cymryd camau gweithredu i leihau eu heffaith, ni waeth ble mae atebolrwydd yn disgyn. Dyma gyfrifoldeb y contractwr a'r rheolwr prosiect. Mae hyn yn ofyniad cytundebol.

Rheoli risgiau – digwyddiad risg, lle gall risg ddigwydd ac os bydd yn digwydd a fydd yn effeithio ar yr amcanion; bygythiad, risg negyddol a fydd yn cael effaith andwyol ar brosiect; cyfle, risg gadarnhaol a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith fuddiol ar brosiect; a risg prosiect, ansicrwydd ynghylch y prosiect yn cyflawni amcanion unigol.

Bydd gan bob prosiect olrheiniwr risgiau’r prosiect - cofnod sy'n nodi pob risg y prosiect, megis risgiau ariannol, enw da, cyffredinol, ariannu, sy'n cael eu gwirio a'u monitro'n rheolaidd i sicrhau rheolaeth risgiau gadarn. Mae hyn fel arfer yn cael ei ddatblygu a'i reoli gan dîm y cleient a'r rheolwr prosiect. Mae pob risg yn derbyn statws coch, oren a gwyrdd, a mesurau lliniaru. Mae Traciwr Risgiau yn ddogfen fyw.
Mae cofrestr risgiau contractwr hefyd yn allweddol ac yn cael ei rheoli gan y contractwr ond fe'i trafodir gyda rheolwr y prosiect. Gellir cynnwys rhybuddion cynnar hefyd.
Cynhelir cyfarfodydd lleihau risgiau i drafod sut i liniaru risg neu broblem benodol.
Gyda'r gofynion cytundebol ar sut i reoli prosiect, mae strwythur cyfarfod ffurfiol

ac adrodd nid yn unig ar lefel prosiect yn rhan o lwyddiant prosiect. Bydd gan bob prosiect adnodd o dîm cleient penodol yng Nghyngor Abertawe a thîm ymgynghorol penodedig i sicrhau y defnyddir yr arbenigedd cyfunol a'r dyraniad amser i reoli a chyflawni prosiectau'n llwyddiannus.

## Nodwch sut rydych chi'n bwriadu cyflawni'r cynnig

Cynllun Cyflawni
Darperir prif gynllun cyflawni'r prosiect yn Atodiad 8.1, gyda chefnogaeth ogfennau atodol megis y Rhaglen a'r Gofrestr Risgiau.

Ar adeg drafftio cynnig Cronfa Ffyniant Bro Cwm Tawe Isaf, roedd mwyafrif yr ymyriadau arfaethedig wedi'u cynllunio i gam 1+ RIBA , gydag eithrio'r Adeilad y Labordy gynt. Y camau nesaf ar gyfer y cynnig arfaethedig yw i dîm rheoli prosiectau cleientiaid Cyngor Abertawe fwrw ymlaen gyda chaffael tîm dylunio amlddisgyblaethol, yn cynnwys rheolwr prosiect, syrfëwr meintiau, penseiri a pheirianwyr strwythurol/M&E ac ati. Bydd y briff ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol yn adeiladu ar ac yn datblygu dyluniadau cam 1+ RIBA drwy gamau RIBA, ac ochr yn ochr â chaffael prif gontractwr i ymgymryd ag adfer adeilad y Labordy i greu bwyty.

Cerrig Milltir Allweddol y Prosiect
Mae cerrig milltir lefel uchel wedi'u nodi'n glir fel rhan o'r rhaglen [redacted] Ceir crynodeb o gerrig milltir allweddol dangosol isod:

- [redacted] Derbyn caniatâd cynllunio llawn, a chyflawni Caniatâd Adeilad Rhestredig i newid defnydd adeilad y Labordy gynt o ddosbarth B1/B2 i ddosbarthiadau defnydd cymysg A1, A2 ac A3.
- [redacted] Dechrau caffael tîm dylunio amlddisgyblaethol (MDT)
- [redacted] Caffael prif gontractwr ar gyfer adeilad Labordy
- [redacted] Penodi tîm amlddisgyblaethol a dechrau arolygon a cham 2 RIBA
- penodi prif gontractwr ar gyfer adeilad Labordy
- [redacted] cwblhau cam 2 RIBA a dechrau profi'r farchnad tenantiaid
- [redacted] cychwyn cam 3 RIBA, datblygu dyluniadau, gweithdai risg ac ymgynghori â'r cyhoedd
- [redacted] cyflwyno ceisiadau cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig
- [redacted] dechrau cam dylunio manwl 4 RIBA, dirwyn i ben gwaith ymgysylltu â rhanddeiliad, cyflwyno rheoliadau adeiladu a pharatoi dogfennau tendro ar gyfer y prif gontractwr.
- [redacted] prif waith yn dechrau ar y safle.
- [redacted] – cwblhau gwaith ymarferol ar y safle

Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu gan y tîm rheoli prosiectau cleientiaid yng Nghyngor Abertawe gydag ymgynghorwyr [redacted]. Oherwydd hyn, a hanes profedig y Cyngor a'r tîm prosiect, rydym yn hyderus y bydd gwaith yn cael ei gyflawni yn unol ag amserlenni a phrif allbynnau.

Dibyniaethau Allweddol y Prosiect

- Caniatâd cynllunio – mae angen caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y gwaith. Bydd y tîm yn sicrhau ymgysylltu cynnar â cheisiadau rhagarweiniol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi nodi ei fod yn cefnogi'r cynlluniau.
- Cyllid - mae'r prosiect yn dibynnu ar ddyfarniad buddsoddiad Cronfa Ffyniant Bro ac arian cyfatebol gan y Cyngor
- Ymrwymiad statudol a chyfreithlondeb – gweithredoedd grant, hawddfreintiau, nwy, dŵr a draenio.

Rolau a chyfrifoldebau
Rhagwelir y bydd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys cwmni arweiniol fel rhan o gais consortiwm, a bydd yn ymgorffori gwasanaethau rheolwr prosiect, pensaer, peirianwyr (mecanyddol a thrydanol (M&E), strwythurol ac ati), a syrfëwr meintiau. Swyddogaeth y rheolwr prosiect yn y pen draw fydd yn arwain yr elfennau dylunio a'r prif waith er mwyn sicrhau bod y cynllun yn dilyn y rhaglen a'r llwybr critigol, y gyllideb a'r ansawdd, yn unol â briff y prosiect.

Rheolwr y prosiect fydd yn gyfrifol am y gwaith o reoli o ddydd i ddydd y timau amlddisgyblaethol a benodwyd a'r tîm rheoli prosiectau i reoli'r rhaglen o brosiectau gan sicrhau bod mecanwaith cyflawni di-dor yn ei le.

Bydd y rheolwr prosiect yn arwain ar reolaeth gyffredinol y prosiect gan adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr arweiniol y tîm amlddisgyblaethol a fydd yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect.

Bydd y rheolwr prosiect penodedig yn rheoli cyfarfodydd tîm dylunio gyda'r tîm ymgynghorol a hefyd yn rheoli'r rhaglen adeiladu ochr yn ochr â'r prif gontractwr unwaith y bydd y gwaith wedi dechrau ar y safle, rheoli'r canlyniadau, perthnasoedd a chyfathrebu rhwng y tîm dylunio a chontractwyr y gwaith.

Er mai'r tîm amlddisgyblaethol fydd yn arwain y gwaith o gyflwyno o ddydd i ddydd, bydd bob amser yn ymagwedd gydweithredol a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm y prosiect y cyngor i drafod materion allweddol a diweddaru ar gynnydd ac unrhyw feysydd risg. Bydd fframwaith manwl o fesurau monitro'r prosiect yn cael ei gytuno ac adrodd yn ei gylch yn y cyfarfodydd misol sefydledig, ond fel arfer byddant yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglen/Llinell Amser y Cynllun.
- Olrheiniwr Risgiau, Problemau, Camau Gweithredu, Dibyniaethau (RAID)
- Cynllun rhanddeiliaid a chyfathrebu.
- Cynllun monitro ariannol.

Llywodraethu
O ran llywodraethu ac adrodd, mae gan Gyngor Abertawe Fwrdd Rhaglen Adfywio'r Ddinas (CRPB) sefydledig sy'n cynnwys uwch-reolwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr o fewn y Cyngor. Yng nghyfarfodydd misol y CRPB rhoddir diweddariadau prosiect lefel uchel ac adroddir ar risgiau gan ddefnyddio statws RAG, ynghyd ag unrhyw ofynion gwneud penderfyniadau. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, bydd pob penderfyniad allweddol yn cael ei uwchgyfeirio at aelodau'r Cabinet, yng nghyfarfod misol Grŵp Llywio'r Aelodau. Bydd adroddiadau cynnydd gan y rheolwr prosiect yn cael eu crynhoi a'u hadrodd drwy strwythur y CRPB a Grŵp Llywio'r Aelodau.

Darperir craffu ychwanegol mewn cyfarfodydd rhwng y Bwrdd Prosiect a Chabinet y Cyngor. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol i'r grŵp hwn pan fydd angen awdurdodiad ychwanegol.

- Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Ddinas (CRPB) – rhoi cyfeiriad a throsolwg o'r pecyn
- SRO – pwerau dirprwyedig i 'gymeradwyo' ar ran y CRPB fel y nodir yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor. Gyda chefnogaeth y CRPB,
- Byrddau Rheoli Prosiect ED&EFT - atebol am lwyddiant y prosiect. Byddant yn cefnogi'r SRO i fonitro a rheoli cynnydd ar y cyd Rheolwyr Prosiect a Thimau
- Cyflawni - yn gyfrifol am reoli pob prosiect o ddydd i ddydd, gyda'r awdurdod i wneud penderfyniadau yn unol â'r polisïau y cytunwyd arnynt gan y Byrddau Prosiect

Bydd y strwythur hwn yn sicrhau'r elfennau trawsbynciol gofynnol i gyflawni prosiect Cwm Tawe Isaf, gan helpu i sicrhau cydgysylltu effeithiol a darbodion maint.

Cyngor Abertawe fydd yn gweithredu fel y corff ariannu ar ôl derbyn arian y Gronfa Ffyniant Bro. Bydd yr arian yn cael ei reoli o fewn rheolaethau ariannol cyfredol y Cyngor.

Deiliaid / Tenantiaid Terfynol
Fel rhan o ddatblygiad dylunio cam 2 RIBA, bydd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gweithdai a chyfathrebiadau ynghylch y prosiectau arfaethedig yn cael eu datblygu. Yn gysylltiedig â hyn bydd y cyfleoedd masnachol hefyd yn cael eu hysbysebu'n ehangach er mwyn hybu a chynyddu diddordeb y sector preifat a'r trydydd sector yn y prosiect. Bydd marchnata ffurfiol yr ardaloedd manwerthu, bwyd a diod, caffi a bwyty arfaethedig yn dilyn hyn.

Pwerau cadarnhau neu ganiatadau a chymeradwyaeth statudol
· Mae'r holl dir sydd ei angen i gyflawni'r prosiect yn eiddo i/o dan reolaeth

Cyngor Abertawe.
· Derbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer hen adeilad y Labordy yng Ngwaith Copr Hafod-Morfa [redacted]
· Bydd cais cynllunio ar gyfer pob prosiect sy'n weddill yn cael ei gyflwyno yn ystod Ebrill '23, ynghyd â cheisiadau Cydsyniad Adeilad Rhestredig i Cadw, lle y bo'n berthnasol.

Monitro
Bydd angen cyflwyno adroddiadau misol, gan gynnwys statws ariannol a chyllidebol, i Fwrdd Cyflawni Portffolio Partneriaeth Abertawe, a hefyd i strwythur llywodraethu mewnol – Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Ddinas Cyngor Abertawe, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Lle, ac i Grŵp Llywio Aelodau Adfywio'r Ddinas, sy'n cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymeradwyaeth.
Bydd cynllun gwireddu buddion yn cael ei baratoi gan y Rheolwr Prosiect ac yn cael ei fonitro gan Dîm y Tu Hwnt i Frics a Morter Cyngor Abertawe. Bydd hyn cynnwys datblygu mentrau cyflogaeth, hyfforddiant a chadwyn gyflenwi lleol priodol.

## Dangoswch y gellir cyflawni rhywfaint o weithgarwch y cynnig yn 2022-23

Gwariant 2022-
[redacted]

Bydd gwariant yn bennaf yn ystod 2022-23 mewn perthynas â ffioedd ac arolygon tîm dylunio amlddisgyblaethol. Fodd bynnag bydd y prif waith yn dechrau ar y safle ar gyfer adeilad y labordy yng Ngwaith Copr Hafod-Morfa a bydd yn gwneud cynnydd digon da erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Gweler y cerrig milltir allweddol isod:

- [redacted] – Dechrau caffael tîm dylunio amlddisgyblaethol (MDT)

- [redacted] – Caffael prif gontractwr ar gyfer adeilad Labordy
- [redacted] – Penodi tîm amlddisgyblaethol a dechrau arolygon a cham 2 RIBA
- [redacted] - Penodi prif gontractwr ar gyfer adeilad y Labordy a dechrau gwaith ar y safle.
- [redacted] – cwblhau cam 2 RIBA a dechrau profi'r farchnad tenantiaid

- [redacted] – cychwyn cam 3 RIBA, datblygu dyluniadau, gweithdai risg ac ymgynghori â'r cyhoedd
- [redacted] – cyflwyno ceisiadau cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig

## Rheoli risgiau: Nodwch eich asesiad risg manwl

Y broses Rheoli Risgiau
Bydd y tîm dylunio amlddisgyblaethol (MDT) a benodir yn gyfrifol am reoli'r prosiect o ddydd i ddydd ac yn asesu addasrwydd y cyflenwr ac ansawdd y tendrau ac felly disgwylir y byddant yn brofiadol iawn wrth gyflawni a rheoli risgiau prosiect adfywio a threftadaeth cymhleth a heriol ar raddfa fawr.

Bydd cyfres hynod gadarn, ac wedi'i mireinio, o weithdrefnau, prosesau a dogfennau cytundebol yn cael ei rhoi ar waith i reoli'r prosiect hwn yn llwyddiannus, yn unol â llywodraethiant y prosiect. Bydd y tîm aml-ddisgyblaethol yn gyfrifol am benodi holl aelodau'r tîm dylunio a phroffesiynol a'r holl brif gontractwyr gan ddefnyddio dogfennaeth gytundebol safonol a phrofedig y diwydiant.

Er bod materion technegol yn bryder mawr yn gynnar a thrwy pob cam yn y prosiect, bydd rheoli risgiau yn ystyried ffynonellau cost, amser, a risgiau technegol mewnol ac allanol. Mae canfod risg yn gynnar yn bwysig oherwydd ei bod fel arfer yn haws, yn llai costus ac yn llai aflonyddgar gwneud newidiadau a chywiro gwaith yn ystod cyfnodau cynharach, yn hytrach na chyfnodau diweddarach y prosiect.

Mae rheoli risgiau yn broses sy'n caniatáu deall a rheoli digwyddiadau risg unigol a risgiau cyffredinol yn rhagweithiol, gan sicrhau'r llwyddiant gorau posibl drwy leihau bygythiadau a manteisio ar gyfleoedd. Mae'r Gofrestr Risgiau yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm a'i diweddaru yn ôl yr angen.

Mae'r pwyntiau isod yn nodi'r risgiau allweddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, sydd ar hyn o bryd â sgôr cyn-lliniarol uchel ar y gofrestr risgiau. Manylir ar y mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer y risgiau hyn ochr yn ochr.
Cyfreithiol/Gweithdrefnol:
Gwrthwynebiad gan gyrff amgylcheddol ac ecolegol statudol a lleol
Gwrthwynebiad gan y gymuned yn golygu methiant wrth sicrhau caniatâd cynllunio.
Mesur Lliniaru: Cynnal strategaeth ymgysylltu glir a chyson. Ystyried gwahodd Cynghorwyr lleol/Aelodau Senedd LlC.
Sgôr Risg Gweddilliol: Gwyrdd/Oren

Trefniadaethol:
Mae cyswllt aneffeithiol â rhanddeiliaid yn arwain at ddiffyg cefnogaeth neu wrthwynebiadau posibl, gyda'r potensial i ohirio'r cynllun.
Oedi wrth gymeradwyo dogfennau yn achosi oedi i weithgaredd dilynol ac o ganlyniad oedi'r prosiect.
Mesur Lliniaru: Datblygu ymagwedd grŵp / fforwm prosiect gyda chyfarfodydd diffiniedig, a matrics penderfyniadau gyda rolau, cyfrifoldebau a chamau gweithredu diffiniedig.
Sgôr Risg Gweddilliol: Gwyrdd/Oren
Amgylcheddol/Ecolegol:
Mae newid mewn deddfwriaeth amgylcheddol yn achosi newid i gwmpas prosiect, gyda oedi dilynol/potensial ar gyfer costau uwch.
Mesur Lliniaru: Tîm prosiect i gynnal deialog gyda'r priodol cyrff statudol/deddfwriaethol
Sgôr Risg Gweddilliol: Oren

Archeolegol:
Darganfyddiadau archeolegol yn amharu ar y broses adeiladu ac yn arwain at oedi a chost gynyddol o bosib.
Mesur Lliniaru: Yn dilyn astudiaeth ddesg briodol, ymgorffori briff gwylio archaeolegol o fewn contractau adeiladu
Risgiau Gweddilliol: Gwyrdd

Technegol:
Gwybodaeth waelodlin/cyfeirio annigonol sy'n gofyn am arolygon ychwanegol gan achosi oedi a chost ychwanegol bosibl
Mesur Lliniaru: Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael a chwmpasu arolygon ychwanegol cyn gynted ag y nodir y broblem
Risgiau Gweddilliol: Oren

## Rhowch fanylion eich tîm prosiect craidd a rhowch dystiolaeth o'u hanes a'u profiad wrth gyflawni cynlluniau o'r math hwn

Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd
Mae Cyngor Abertawe wedi bod yn ymwneud â rheoli rhaglenni a phrosiectau cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ers ei ffurfio. Mae gan y cyngor brofiad helaeth o reoli a chyflawni prosiectau cyflogadwyedd megis Prosiect [redacted] y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) o dan arweiniad rhanbarthol gan ddarparu cymorth cyflogadwyedd i 6 awdurdod lleol a phartneriaid trydydd sector, a helpodd y miloedd o unigolion sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i ennill sgiliau cyflogaeth.
Y Fargen Ddinesig
Mae gan y Cyngor hefyd brofiad o gyflawni cynlluniau adfywio a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn fwyaf nodedig Cam 1 cynllun Bae Copr [redacted] sydd bron wedi'i gwblhau ac a oedd yn rhan o'r Fargen Ddinesig. Y contract adeiladu a ddyfarnwyd i Buckingham Plc ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn yw'r contract mwyaf y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo hyd yma. Mae cynllun o'r raddfa a'r cymhlethdod hyn yn gofyn am reolaeth prosiect gadarn, systemau ariannol a

chaffael yn eu lle – mae’r tîm Ariannu Allanol yn darparu'r gefnnogaeth swyddfa gefn hon fel rhan o'r cynllun.

Y Tîm Datblygu Economaidd a'r Tîm Cyllido Allanol
Bydd y Tîm Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol yn arwain ac yn rheoli'r prosiect. [redacted]

Mae gan yr adran dîm amlddisgyblaethol sydd ag arbenigedd rheoli prosiectau, rheoli cydymffurfio, ariannol, cyfreithiol a chaffael ac yn barod i ddefnyddio hynny i gyflawni’r prosiect. Mae rheoli prosiectau, rheolaeth ariannol a gweithdrefnau gweinyddol i gyd wedi'u sefydlu'n dda.
Tîm Rheoli Prosiect Craidd (tîm cleient):
[redacted] Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol
[redacted] Rheolwr Ariannu Allanol / Uwch-reolwr Prosiect
[redacted] Prif Swyddog Ariannu Allanol / Rheolwr Prosiect
[redacted] Swyddog Rhaglen Ariannu Allanol

## Nodwch pa weithdrefnau llywodraethu fydd yn cael eu rhoi ar waith i reoli’r grant a'r prosiect

Tîm Ariannu Allanol
Ymgymerir â gweinyddu cyllid a grantiau swyddfa gefn cyffredinol gan dîm ymroddedig o fewn Cyngor Abertawe – y Tîm Ariannu Allanol. Bydd y tîm yn sicrhau bod canolfan gostau ar wahân yn cael ei sefydlu o'r cychwyn cyntaf ym mhecyn cyfrifo Oracle y Cyngor i gofnodi gwariant pob prosiect penodol. Ochr yn ochr â hyn bydd y tîm yn cefnogi caffael cyflenwadau a gwasanaethau, yn prosesu pob archeb brynu, anfoneb, taliadau a hawliadau grant i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a bod trywydd archwilio llawn yn ei le sy’n cydymffurfio ag amodau a thelerau'r cyllido ac sy’n bodloni amcanion y prosiect, gan gynnwys cadw at God Ymddygiad Cyhoeddedig Llywodraeth EM ar gyfer Derbynyddion Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth.

Adolygiad annibynnol
Bydd swyddog hawliadau penodol o fewn y tîm yn adolygu trafodion yn rheolaidd yn erbyn canolfan gostau'r prosiect, yn monitro'r gyllideb, yn cysoni ac yn paratoi hawliadau grant gyda thystiolaeth gefnogol i arddangos gwariant cymwys. At hyn ac i sicrhau gwahaniad dyletswyddau, bydd hawliadau grant wedyn yn cael eu cyflwyno i gydweithwyr yn adran Gyfrifeg y Cyngor i'w hadolygu'n annibynnol a'u cymeradwy gan uwch-swyddog cyn cyflwyno unrhyw hawliadau grant – er mwyn sicrhau gwahaniad dyletswyddau.

Rheolau Gweithdrefn Ariannol
Mae rheolaethau ariannol wedi'u gwreiddio yng nghyfansoddiad y Cyngor a chyfeirir atynt fel Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Mae'r rheolau hyn yn pennu'r gofynion ar gyfer rheoli cyllidebau, amrywiannau, ceisiadau am grantiau a rheolaeth. O bryd i'w gilydd bydd timau archwilio mewnol yn cynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth swyddogion y cyngor â'r rheolau hyn. Gallai enghreifftiau o reolau o'r fath ar sail weithredol gynnwys NGAs (Hysbysiad o Ddyfarniad Grant), proses dau gam i hysbysu a cheisio cymeradwyaeth gan Aelodau’r Cabinet, a Swyddog A151 (Prif Swyddog Ariannol) a Swyddog Cyfrifol y cais am grant, ac un arall pan fydd y dyfarniad grant wedi bod yn llwyddiannus i gadarnhau'r dyfarniad. Mae Aelodau Ward Lleol hefyd yn cael eu hysbysu am grantiau dros £75k. Mae angen adroddiadau FPR7 hefyd ar gyfer cymeradwyaeth cyllid ac yn y pen draw gymeradwyaeth Aelod y Cabinet, i gymeradwyo, i bob pwrpas, ganiatâd gwario a datblygu'r prosiectau.

Rheolau Gweithdrefn Contract
Diwydrwydd Dyladwy - Cam 1: Holiadur Cyflenwyr. Bydd gofyn i bob contractwr gyflenwi gwybodaeth yn ôl y gofyn megis statws cyfreithiol, is-gontractio, rheoli cadwyn gyflenwi, troseddau fel twyll, llwgrwobrwyo, terfysgaeth, gwyngalchu arian; torri cyfraith megis cyfraith gymdeithasol, amgylcheddol, camymddwyn difrifol; sefyllfa economaidd ac ariannol megis cymhareb trosiant blynyddol o 2:1; isafswm trothwy yswiriant, tystiolaeth o brofiad perthnasol o fewn y 3-5 mlynedd diwethaf, gallu, caethwasiaeth fodern, cyfle cyfartal, y Gymraeg, Iechyd a Diogelwch megis gorfodaeth, cofrestriad statws SSIP

neu debyg, Diogelu Data a GDPR. Rhaid i bawb sy'n tendro BASIO'r trothwy ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn. Os na wnânt, caiff eu tendr ei anghymwyso ac ni fydd yn cael ei asesu ymhellach. Bydd y contractwr llwyddiannus yn gwirio manylion fel yr amlinellwyd megis adolygu cyfrifon a thystysgrifau yswiriant. Yn ei dro, yn ystod cyfnod y contract, bydd gofyn i'r contractwyr penodedig hysbysu'r tîm cleientiaid am unrhyw newidiadau i statws o'r fath. Bydd gan y tîm cleientiaid gyfrifoldeb dros reoli contractau i sicrhau bod yswiriant perthnasol ac ati yn eu lle yn ystod cyfnod y contract.

## Os yw'n berthnasol, eglurwch sut byddwch yn talu'r costau gweithredu ar gyfer rheoli'r ased/cyfleuster newydd o ddydd i ddydd unwaith y bydd wedi'i gwblhau er mwyn sicrhau bod buddion y prosiect yn cael eu gwireddu

Arfarniadau ariannol
Bydd arfarniadau ariannol llawn a chynlluniau costio gweithredol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob un o’r asedau a ddarperir gan y cyllid (a phob elfen o’r safleoedd datblygu ehangach) i sicrhau hyfywedd hirdymor ac argaeledd cyllid ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd. Bydd incwm rhent a rhaglen o daliadau gwasanaeth ar denantiaid a deiliaid yr unedau masnachol yn darparu cynaladwyedd ariannol ac yn darparu costau cynnal a chadw a gweithredu.

Amserlen Rheoli a Chynnal a Chadw
Datblygir amserlen Rheoli a Chynnal s Chadw wedi'i chostio'n llawn ar gam priodol datblygiad y cynllun, gyda chyfrifoldebau perchnogaeth, rheolaeth a chynnal a chadw wedi'u diffinio a'u dyrannu i'r parti priodol. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y datblygiad yn mabwysiadu ymagwedd debyg i'r hyn a welwyd gyda datblygiadau eraill y Cyngor, sy'n clustnodi incwm o'r safle i gronfa ad-dalu i dalu am gynnal a chadw'r parth cyhoeddus a'r seilwaith a rennir.

[redacted]

## Gosod cynlluniau cymesur ar gyfer monitro a gwerthuso

Cyflwyniad

Wrth ddatblygu dull cadarn o fonitro a gwerthuso, rhoddir ystyriaeth lawn i'r canllawiau a amlinellir yn Atodiad E y Nodyn Technegol a'r wybodaeth atodol. Cyngor Abertawe fydd yn gyfrifol am gasglu data at ddibenion monitro, gyda DLUHC yn arwain ar werthuso'r rhaglen.

Nodau

Bydd rheoli, monitro a gwerthuso buddion yn cael ei wneud gan y Cyngor a phartneriaid cyflawni i ddeall llwyddiant ymyriadau, i ganfod a ydynt yn cyflawni canlyniadau dymunol, sut a pham mae hyn yn wir, ac i alluogi gwneud newidiadau neu ddefnyddio strategaethau rheoli. Bydd y cwestiynau ymchwil allweddol a fydd yn llywio’r yamgwedd M&E yn cynnwys:

A yw'r ymyriad yn y cyfnod gweithredu yn mynd rhagddo yn unol â’r cynllun cyflawni – sicrhau trosolwg o’r broses gyflawni.

A oedd y rhesymeg dros ymyrryd yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cam gweithredu – cadarnhau bod yr achos dros newid a'r tybiaethau allweddol yn parhau i fod yn ddilys.

A yw tybiaethau sy'n sail i'r Theori Newid ac sy'n arwain at fuddion ymarferol yn gymwys – gan lywio llunio penderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â blaenoriaethu a chyflunio ymyriadau.

Priodoli allbynnau a chanlyniadau i ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Bro – i gadarnhau ychwanegolrwydd yr ymyriad.

Effaith y rhaglen ffyniant bro ac a yw'n darparu gwerth am arian.

Bydd allbynnau monitro yn cynnwys adroddiadau dangosfwrdd misol i'r Bwrdd Prosiect yn ystod y cyfnod rhoi ar waith, gan symud i adroddiadau chwarterol yn ystod y cyfnod defnyddio. Ar lefel prosiect, bydd y Cyngor yn gwerthuso'r broses, yr effaith, a gwerth am arian.

Amlinelliad o ymagwedd M&E y cynnig

Ymgymerir â M&E yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan DLUHC. Mae'r ymagwedd yn manylu ar yr amserlen ddisgwyliedig lle daw'r buddion a sut y bydd y buddion hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Gronfa Ffyniant Bro. Bydd hyn yn cynnwys proses ar gyfer adolygu a diweddaru cynlluniau gwireddu buddion os bydd ymyriadau arfaethedig yn newid. Mae'r cyfnodau allweddol yn cynnwys:

- Adolygiadau Porth ar gyfer penderfyniadau allweddol yn unol â cherrig milltir, allbynnau a chanlyniadau.

Cytuno ar gwestiynau ymchwil allweddol.

Proffilio a monitro buddion - amlinellir proffil clir o fuddion ar gyfer pob prosiect, gan gynnwys y sefyllfa waelodlin, targedau gwariant ariannol, amserlen cyflawni targedau, cerrig milltir allweddol a rhagolygon allbwn targed. Mae dangosyddion perfformiad allweddol penodol wedi'u nodi i sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni o fewn amserlenni cyflawni gosodedig. Datblygir gynllun budd ymhellach i gynnwys disgrifiad o'r buddion a wireddwyd, enillion ariannol mesuradwy y budd, y metrigau a ddefnyddiwyd i fesur maint y budd, prif fuddiolwyr y prosiect a'r hyd.

Gwireddu buddion – bydd staff y prosiect a nodwyd yn olrhain cynnydd gwireddu buddion, gan sicrhau bod buddion yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyflawnadwy ac yn ddilys. Cytunir bod buddion wedi eu gwireddu pan fydd y mesur newid a ddisgwylir wedi ei gyflawni. Cyfrifoldeb y rheolwr prosiect fydd sicrhau bod y targedau yn cael eu cyflawni fel y cynlluniwyd.

Monitro ac adolygu - Bydd yr ymagwedd yn gymesur â'r adnodd a fuddsoddwyd ym mhob ymyriad, gan wneud defnydd effeithlon o gapasiti, data ac arbenigedd. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau ynghylch siâp y prosiect ac yn amlygu meysydd lle mae angen adnoddau/capasiti ychwanegol, gan alluogi cymryd camau adferol os nad yw ymyriadau'n cyflawni'r allbynnau a ddymunir. Bydd y data a gesglir yn bwydo i mewn i'r gwerthusiad.

Gwerthusiad - bydd y gwerthusiad yn ystyried sut mae'r rhaglen wedi gweithio o safbwynt cyflawni a thrwy brofiad rhanddeiliaid. Lle y bo'n briodol, bydd y Cyngor yn cymryd rhan yn y gwerthusiad lefel rhaglen.

Trosolwg o Fetrigau Allweddol

[redacted] Dangosyddion Perfformiad a nodwyd i olrhain cynnydd y rhaglen ffyniant bro. Mae'n cynnwys ffynonellau ar gyfer monitro pob amcan, amlder casglu a chyfrifoldeb am hyn. Mae'r metrigau wedi'u nodi yn unol â'r Theori Newid ar gyfer y prosiect, a byddant yn cynnwys:

Allbynnau:

Y gofod manwerthu a grëwyd; Y lle lletygarwch a grëwyd; Gofod masnachol arall a grëwyd; Y parth cyhoeddus a grëwyd; Tir wedi'i adsefydlu; Adeiladau adfeiliedig a gafodd eu gwella – Gwaith Copr Hafod-Morfa

Llwybr newydd neu well i gerddwyr, Llwybr beicio newydd neu well, hybiau trafnidiaeth gyda phwyntiau cyswllt amlfodd newydd, gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, creu a gwella tir y cyhoedd – Cysylltiadau Afon Tawe

Adeilad treftadaeth wedi'i adfer; gofod diwylliannol a grëwyd; Cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd – Amgueddfa Abertawe

Allbynnau:

Newid i lif cerddwyr

Newid i lif beicio

Newid yn nifer y defnyddwyr

Newid mewn teimlad busnes

Newid mewn buddsoddiad busnes

Newid mewn gwariant defnyddwyr

Newid moddol

Newid yn ansawdd yr aer

Newid yn y canfyddiad o le

Newid yn nifer yr ymwelwyr i leoliadau diwylliannol

Newid mewn gwariant defnyddwyr mewn lleoliadau diwylliannol.

Newid yn y gyfradd cyflogaeth

Bydd y dangosyddion canlynol hefyd yn cael eu monitro yn ystod y cyfnod rhoi ar waith:

Gwariant y prosiect (cyfanswm, cyd-ariannu, cyd-ariannu a roddwyd)

Cyflwyno'r prosiect (y ffrydiau prosiect a gychwynnwyd ar amser, a gwblhawyd, a gwblhawyd yn unol â'r gyllideb, a gwblhawyd ar amser)

Capasiti cyflawni (staff a chyllideb wedi'u buddsoddi)

Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol (swyddi wedi'u creu a'u diogelu)

Trefniadau adnoddu a llywodraethu

Mae cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer y gweithgareddau M&E canlynol:

Amser i gasglu, dilysu ac adrodd ar yr wybodaeth fonitro ofynnol i DLUHC

Prynu data/comisiynu arolygon a chasglu data gan ymchwil i'r farchnad neu gwmnïau arbenigol eraill (e.e. ar swyddi gwag, lefelau rhent ac ati.)

Astudiaethau gwerthuso darnau gosod annibynnol ar gamau gwerthuso interim ac effaith, gan sicrhau asesiad gwrthrychol a chadarn o gynnydd a galluogi'r holl randdeiliaid i roi eu barn.

Bydd y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am fonitro a rheoli perfformiad wedi'i ddyrannu ymhlith tîm rheoli'r prosiect, gan gynnwys cyfrifoldeb am adrodd ar gyllid, gwariant a chanlyniadau ehangach. Bydd unigolion a benodwyd o fewn Cyngor Abertawe â'r cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio ac adrodd ar berfformiad i DLUHC. Bydd systemau Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) priodol yn cael eu sefydlu cyn rhoi'r prosiect ar waith. Defnyddir adolygiadau porth o fewn strwythur llywodraethu'r prosiect i sicrhau bod y prosiect yn parhau ar amser ac o fewn y gyllideb.

Rhoddir adborth rheolaidd i bartneriaid a rhanddeiliaid ar gynnydd a pherfformiad y prosiect. Gall hyn gynnwys grwpiau ffocws neu gyfarfodydd i drafod unrhyw faterion a nodwyd wrth fonitro'r prosiect ac sy'n codi o'r gwerthusiadau interim ac effaith.

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

## Cyhoeddi

| | |
|---|---|
| **URL y wefan lle bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi** | www.abertawe.gov.uk |

[redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

## Prosiect 1 Enw

Adfywio Gwaith Copr Hafod-Morfa

## Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect hwn

Mae Prosiect 1 yn cydgrynhoi etifeddiaeth ddiwydiannol y diwydiant copr ar lannau afon Tawe ar safle Gwaith Copr Hafod-Morfa, gan warchod y nodweddion treftadaeth cyfoethog gan gynnwys nifer o adeiladau rhestredig a'u rhyddhau ar gyfer defnydd busnes, paratoi ar gyfer buddsoddiad sector preifat newydd ar raddfa a chynyddu cysylltedd ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd ac adrodd y stori i genedlaethau newydd. Bydd buddsoddiad yn cynnwys adeiladau allweddol ar y safle, creu marchnad, a chreu parth cyhoeddus.

## Rhowch drosolwg mwy manwl o'r prosiect

Pecynnau buddsoddi penodol ar gyfer y prosiect hwn yw:

Adfer hen adeilad y Labordy i greu bwyty/man bwyd a diod (F&B).

Adfer Tai Injan Musgrave a Vivian, ac adeiladu ardal newydd i greu atyniad treftadaeth i ymwelwyr a chaffi.

Creu marchnad yn adeilad y Felin Rolio gynt.

Adfer y Sied V&S, i ailosod y trac a'r locomotif.

Creu parth cyhoeddus bywiog newydd o fewn y safle.

Mae'r tri phrosiect cydran yn canolbwyntio ar agweddau amlwg ar etifeddiaeth entrepreneuriaeth Fictoraidd a'i heffeithiau ar y ddinas fodern, gan eu hamlygu yn erbyn y rhaglen adfywio gref sydd ar y gweill ar draws y sir.

Er bod y safleoedd yn rhai o elfennau mwyaf arwyddocaol treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol Abertawe, nid ydynt yn tueddu i gael eu darllen gyda'i gilydd; fodd bynnag, o'u gweld ar fap, mae'n amlwg sut mae'r safleoedd hyn i gyd yn ffurfio rhan o, neu'n union gerllaw, cwm agored afon Tawe a ddaeth yn un o'r ardaloedd mwyaf diwydiannol trwm y byd datblygedig – sef Cwm Tawe Isaf.

Bydd y cyfuniad o fuddsoddiadau yn ysgogi ac yn annog deilliannau cymdeithasol, cyflogaeth ac adfywio cryf. Byddant yn gwella'n sylweddol gyfleoedd i bob oedran ymgysylltu â threftadaeth, gan gynyddu hyfywedd a chynaladwyedd asedau allweddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a gwerthfawrogiad a llawer cryfach ymhlith y boblogaeth ehangach. Bydd y prosiectau yn cymysgu cyfleoedd creu incwm newydd ag asedau treftadaeth sy'n ei chael hi'n anodd i'w bywiogi o'r newydd a rhoi dyfodol cynaliadwy hirdymor.

## Darparwch ddisgrifiad byr o'r ardal lle bydd y buddsoddiad yn digwydd ar gyfer y prosiect hwn

Bydd y prosiect hwn yn digwydd ar Safle Gwaith Copr Hafod-Morfa, Plasmarl, Abertawe SA1 2LE, sy'n rhedeg yn gyfochrog â Heol y Morfa ac Afon Tawe.
[redacted]

## Mwy o fanylion am leoliad y prosiect hwn

**Lleoliad 1 y prosiect**

| | |
|---|---|
| **Côd post** | SA1 2LE |
| **Cyfeirnod grid** | SS660952 |

[redacted]

| | |
|---|---|
| **% o fuddsoddiad y prosiect yn y lleoliad hwn** | 42% |

## Dewiswch yr etholaethau a gwmpesir gan y prosiect hwn

**Etholaeth prosiect 1**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch etholaeth** | Dwyrain Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr etholaeth hon** | 100% |

## Dewiswch yr awdurdodau lleol / cynghorau YG y mae'r prosiect hwn yn berthnasol iddynt

**Prosiect awdurdod lleol 1**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch awdurdod lleol** | Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr Awdurdod Lleol hwn** | 100% |

[redacted]

[redacted]

## Beth yw cyfran y cyllid y gofynnir amdani ar gyfer pob un o dair thema buddsoddi'r Gronfa?

| | |
|---|---|
| **Adfywio a Chanol Trefi** | 60% |
| **Diwylliannol** | 40% |
| **Trafnidiaeth** | 0% |

[redacted]

[redacted]

## Rhowch fanylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cynnig ar gyfer y prosiect cydrannol hwn

Arian cyfatebol gan Gyngor Abertawe, wedi'i gefnogi gan lythyr arian cyfatebol yn [redacted]

## Gwerth am arian

Amcangyfrifir y bydd cynllun safle'r Gwaith Copr yn creu buddion uniongyrchol o fwy na [redacted]. Gan ganiatáu ar gyfer effeithiau dosbarthiadwy, ac adlewyrchu budd buddsoddi mewn ardal o amddifadedd cymharol, mae'r budd a aseswyd wedi cynyddu i bron [redacted].

Yn seiliedig ar gostau ymylol net amcangyfrifedig o [redacted], bydd y budd a nodwyd yn cefnogi BCR cychwynnol o 2.20:1 a BCR wedi'i addasu o 2.9:1. Mae hyn yn uwch na throthwy o 2.0 ac felly yn cael ei ystyried yn werth uchel am arian, yn enwedig o ystyried y manteision ehangach a ddisgrifir isod

Adfywio - Mater allweddol yw'r hen safle diwydiant trwm nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon a fu ar un adeg yn flaenllaw yn y diwydiant Copr.

Delwedd - Mae'r ardal yn dioddef o ganfyddiadau a delwedd negyddol, yn ogystal â ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau troseddu. Amlygir hyn gan y gyflwr adfeiliedig a/neu wael asedau treftadaeth ar safle Gwaith Copr, sydd wedi denu fandaliaeth gan drigolion. Nod y cynlluniau arfaethedig yw mynd i'r afael â'r materion sylfaenol craidd sy'n effeithio ar drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd drwy greu cyrchfan ymwelwyr unigryw gyda chyfleoedd i fusnesau lleol a dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd masnachol er mwyn goresgyn problemau troseddu.

Balchder cymunedol – Mae yna ddatgysylltiad rhwng y Strand a'r Stryd Fawr oherwydd cysylltiadau gwael a pharthau cyhoeddus yn achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Mae'r problemau hyn wedi creu diffyg cydlyniant cymunedol. Bydd yr ymyriad hwn yn gwella'r ddarpariaeth amwynderau cyhoeddus ac atyniad mannau cyhoeddus. Bydd y gwelliannau i barthau cyhoeddus yn rhoi cyfleoedd allweddol i'r gymuned leol ac eraill i gasglu a gwella cydlyniant cymdeithasol.

Twf sectorau newydd - Bydd y prosiect yn annog twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, gan helpu busnesau lleol i fasnachu am gyfnodau hwy drwy gydol y flwyddyn. Bydd bydd ymyriadau newydd yn helpu i ddatblygu cyfleoedd busnes newydd oherwydd y nifer ychwanegol o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn. Yn ogystal, bydd yr ymyriadau yn trawsnewid adeilad y Felin Rolio (Prosiect 1) yn Neuadd Fwyd hyblyg gan greu cyfleoedd i'r sector bwyd dyfu.

Mynd i'r afael ag anfantais – Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lluosog o amgylch yr ymyriadau ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Bydd y pecyn ymyrraeth hwn yn creu cyfleoedd cyflogaeth o fewn sectorau sydd yn hygyrch i drigolion lleol, yn darparu cyrchfan i drigolion fynychu a bod yn falch ohono, a chreu amgylchedd mwy diogel sy'n annog peidio â throseddu. Bydd y prosiectau arfaethedig wedi'u lleoli yn ward Glandŵr yn helpu'n uniongyrchol i greu cyfleoedd cyflogaeth i'r hawlwyr hyn drwy'r rhaglen adnewyddu.

## Cymhareb cost a budd ac asesiad gwerth

| | |
|---|---|
| **Os nad yw'n bosibl darparu BCR gyffredinol ar gyfer eich cynnig, eglurwch pam isod** | Rydym wedi cynnal Cymhareb Cost a Budd cyffredinol ac asesiad Gwerth am Arian [redacted] |

## Cymarebau Cost a Budd

| | |
|---|---|
| **Cymhareb cost a budd gychwynnol** | 2.25 |
| **BCR wedi'i addasu** | 2.94 |

## Buddion anariannol ar gyfer y prosiect hwn

Er mwyn dadansoddi effeithiau anfesuradwy, bydd asesiad o'r manteision Ehangach cysylltiedig wedi'i wneud drwy fframwaith sgorio a phwysoli. Mae manteision ehangach posibl yn cynnwys: adfywio, delwedd, cymuned, datblygu sectorau newydd, a mynd i'r afael ag anfantais. Yn gyffredinol, disgwylir manteision ehangach sylweddol gyda sgôr o 8.7/10 [redacted]

## A yw'r prosiect hwn yn cynnwys cynlluniau ar wario rhywfaint o grant y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?

Ydy

## A ellid cyflawni'r prosiect hwn fel prosiect ar ei ben ei hun?

Na - mae angen i'r prosiect fod yn rhan o'r cais cyffredinol

## Dangoswch y gellir cyflawni gweithgaredd ar gyfer y prosiect hwn yn 2022-23

[redacted]

Bydd ffioedd timau dylunio ac arolygu yn codi yn ystod 22-23 i ddatblygu dyluniadau RIBA 1+ hyd at RIBA 3 a chais cynllunio. Bydd gwaith ar y safle hefyd yn dechrau i ailddatblygu adeilad y Labordy, am fod yr ased hwn eisoes wedi symud ymlaen i RIBA 4 ac wedi cael caniatâd cynllunio.
Bydd tua [redacted] o'r costau hynny yn codi yn ystod 22-23. Gweler gerrig milltir allweddol isod:

[redacted] - Dechrau caffael tîm dylunio amlddisgyblaethol (MDT)

[redacted] – Caffael prif gontractwr ar gyfer adeilad Labordy

[redacted] – Penodi tîm amlddisgyblaethol a dechrau arolygon a cham 2 RIBA
[redacted] - Penodi prif gontractwr ar gyfer adeilad y Labordy a dechrau gwaith ar y safle.

[redacted] – cwblhau cam 2 RIBA a dechrau profi'r farchnad tenantiaid

[redacted] – cychwyn cam 3 RIBA, datblygu dyluniad, gweithdai risg ac ymgynghoriad cyhoeddus

[redacted] – cyflwyno ceisiadau cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig

## Pwerau a Chaniatadau Statudol

**Rhestrwch ar wahân isod bob pŵer/caniatâd ac ati a gafwyd ar gyfer y prosiect hwn**

Mae'r holl dir sydd ei angen i gyflawni'r prosiect yn eiddo i/o dan reolaeth Cyngor Abertawe.

[redacted] Derbyn caniatâd cynllunio llawn, a chyflawni Caniatâd Adeilad Rhestredig i newid defnydd adeilad y Labordy gynt o ddosbarth B1/B2 i ddosbarthiadau defnydd cymysg A1, A2 ac A3. Cyfeirnod cynllunio: 2021/0711/FUL

[redacted]

[redacted]

## Pwerau/caniatadau statudol heb eu bodloni

Rhestrir ddyddiadau allweddol ar gyfer caniatâd cynllunio yn y brif ffurflen gais, y cynllun cyflawni a'r rhaglen. Gweler y crynodeb isod:

[redacted] – cychwyn cam 3 RIBA, datblygu dyluniad, gweithdai risg ac ymgynghoriad cyhoeddus

[redacted] – cyflwyno ceisiadau cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig / oddeutu 12-16 wythnos ar gyfer prosesu.

[redacted] – dechrau cam dylunio manwl 4 RIBA, dirwyn i ben gwaith ymgysylltu â rhanddeiliad,
cyflwyno rheoliadau adeiladu a pharatoi dogfennau tendro ar gyfer y prif gontractwr.
[redacted] – prif waith yn dechrau ar y safle.

[redacted] – cwblhau gwaith ymarferol ar y safle

## Prosiect 2 Enw

Cysylltiadau Afon Tawe a'r Strand

## Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect hwn

Mae'r prosiect hwn yn trafod cysylltiadau'r afon ac yn hwyluso'r rhyngwyneb cyhoeddus â chraidd Canol y Ddinas trwy ail-ddefnyddio bwâu rheilffordd Fictoraidd yn greadigol i alluogi gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar fysiau, trenau ac afon, a pharhau

y profiad treftadaeth na fanteisir ddigon arno ar hyn o bryd.

Bydd yn buddsoddi mewn gosod dau bontŵn, creu blaenau siopau ym Mwau Fictoraidd y Strand, podiau manwerthu, gwelliannau i barthau cyhoeddus, gwell cysylltiadau i gerddwyr.

## Rhowch drosolwg mwy manwl o'r prosiect

Pecynnau buddsoddi penodol ar gyfer y prosiect hwn yw:

Gosod dau bontŵn ar hyd Afon Tawe

Creu blaenau siopau ac unedau manwerthu bychan ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint ym Mwâu Fictoraidd y Strand, a mynediad esgynyddion allanol i'r Stryd Fawr.
Gwelliant sylweddol i isadeiledd cyhoeddus a thirlunio parthau cyhoeddus yn y Strand, cyfagos i'r bwâu a'r twneli.

Gwell cysylltiadau i gerddwyr yn Nhwneli'r Strand, gan gynnwys creu podiau manwerthu ac uwchraddio'r goleuadau.

Mae'r tri phrosiect cydran yn canolbwyntio ar agweddau amlwg ar etifeddiaeth entrepreneuriaeth Fictoraidd a'i heffeithiau ar y ddinas fodern, gan eu hamlygu yn erbyn y rhaglen adfywio gref sydd ar y gweill ar draws y sir.

Er bod y safleoedd yn rhai o elfennau mwyaf arwyddocaol treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol Abertawe, nid ydynt yn tueddu i gael eu darllen gyda'i gilydd; fodd bynnag, o'u gweld ar fap, mae'n amlwg sut mae'r safleoedd hyn i gyd yn ffurfio rhan o, neu'n union gerllaw, cwm agored afon Tawe a ddaeth yn un o'r ardaloedd mwyaf diwydiannol trwm y byd datblygedig – sef Cwm Tawe Isaf.

Bydd y cyfuniad o fuddsoddiadau yn ysgogi ac yn annog deilliannau cymdeithasol, cyflogaeth ac adfywio cryf. Byddant yn gwella'n sylweddol gyfleoedd i bob oedran ymgysylltu â threftadaeth, gan gynyddu hyfywedd a chynaladwyedd asedau allweddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a gwerthfawrogiad a llawer cryfach ymhlith y boblogaeth ehangach. Bydd y prosiectau yn cymysgu cyfleoedd creu incwm newydd ag asedau treftadaeth sy'n ei chael hi'n anodd i'w bywiogi o'r newydd a rhoi dyfodol cynaliadwy hirdymor.

## Darparwch ddisgrifiad byr o'r ardal lle bydd y buddsoddiad yn digwydd ar gyfer y prosiect hwn

Mae'r prosiect hwn yn cysylltu'r safle Gwaith Copr ac yn anelu tua'r de lle mae Heol y Morfa yn ymuno â'r Strand – mae hon yn rhedeg gyfochrog â'r Stryd Fawr.
[redacted]

## Mwy o fanylion am leoliad y prosiect hwn

**Lleoliad 1 y prosiect**

**Cod post** SA1 2EA

**Cyfeirnod grid** SS659937

[redacted]

**% o fuddsoddiad y prosiect yn** 34%

**y lleoliad hwn**

## Dewiswch yr etholaethau a gwmpesir gan y prosiect hwn

**Etholaeth prosiect 1**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch etholaeth** | Dwyrain Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr etholaeth hon** | 5% |

**Etholaeth prosiect 2**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch etholaeth** | Gorllewin Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr etholaeth hon** | 95% |

## Dewiswch yr awdurdodau lleol / cynghorau YG y mae'r prosiect hwn yn berthnasol iddynt

**Prosiect awdurdod lleol 1**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch awdurdod lleol** | Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr Awdurdod Lleol hwn** | 100% |

[redacted]

[redacted]

## Beth yw cyfran y cyllid y gofynnir amdani ar gyfer pob un o dair thema buddsoddi'r Gronfa?

| | |
|---|---|
| **Adfywio a Chanol Trefi** | 60% |
| **Diwylliannol** | 40% |
| **Trafnidiaeth** | 0% |

[redacted]

[redacted]

## Rhowch fanylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cynnig ar gyfer y prosiect cydrannol hwn

Arian Cyfatebol wedi'i sicrhau gan Gyngor Abertawe. [redacted]

## Gwerth am arian

Amcangyfrifir y bydd cynllun Cysylltiadau Afon Tawe yn creu buddion uniongyrchol [redacted] Gan ganiatáu ar gyfer effeithiau dosbarthiadwy, ac adlewyrchu manteision buddsoddi mewn ardal o amddifadedd cymharol, mae'r budd a aseswyd wedi cynyddu [redacted].

Yn seiliedig ar gostau ymylol net amcangyfrifedig o [redacted], bydd y budd a nodwyd yn cefnogi BCR cychwynnol o 2.1:1 a BCR wedi'i addasu o 2.8:1. Mae hyn yn uwch na throthwy o 2.0 ac felly yn cael ei ystyried yn werth uchel am arian, yn enwedig y manteision ehangach a ddisgrifir isod.

Adfywio - Bydd y pecyn ffyniant bro hwn yn gwrthdroi'r duedd yn y blynyddoedd diwethaf drwy wella'r cysylltiadau i gerddwyr o'r ardal i'r orsaf, canol y ddinas, y marina a phrifysgolion gan gefnogi nifer yr ymwelwyr ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer rhagor o waith adfywio yn yr ardal.

Delwedd - Mae'r ardal yn dioddef o ganfyddiadau a delwedd negyddol, yn ogystal â ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau troseddu. Nod y cynlluniau arfaethedig yw mynd i'r afael â'r materion sylfaenol craidd sy'n effeithio ar drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd drwy greu cyrchfan ymwelwyr unigryw gyda chyfleoedd i fusnesau lleol ac yn dwyn yr adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd masnachol i oresgyn problemau troseddu.

Balchder cymunedol – Mae yna ddatgysylltiad rhwng y Strand a’r Stryd Fawr oherwydd cysylltiadau gwael a pharthau cyhoeddus yn achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu.  Mae'r problemau hyn wedi creu diffyg cydlyniant cymunedol. Bydd yr ymyriad hwn yn gwella'r ddarpariaeth amwynderau cyhoeddus ac atyniad mannau cyhoeddus. Bydd y gwelliannau i barthau cyhoeddus yn rhoi cyfleoedd allweddol i’r gymuned leol ac eraill i gasglu a gwella cydlyniant cymdeithasol.

Twf sectorau newydd - Bydd y prosiect yn annog twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, gan helpu busnesau lleol i fasnachu am gyfnodau hwy drwy gydol y flwyddyn. Bydd bydd ymyriadau newydd yn helpu i ddatblygu cyfleoedd busnes newydd oherwydd y nifer ychwanegol o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn.

Mynd i'r afael ag anfantais – Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lluosog o amgylch yr ymyriadau ymhlith yr [redacted] o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Bydd y pecyn ymyrraeth hwn yn creu cyfleoedd cyflogaeth o fewn sectorau sydd yn hygyrch i drigolion lleol, yn darparu cyrchfan i drigolion fynychu a bod yn falch ohono, a chreu amgylchedd mwy diogel sy'n annog peidio â throseddu.

## Cymhareb cost a budd ac asesiad gwerth

| | |
|---|---|
| **Os nad yw'n bosibl darparu BCR cyffredinol ar gyfer eich cynnig, eglurwch pam isod** | Ddim yn berthnasol. Darparwyd BCR cyffredinol ar gyfer y cynnig a'r tri phrosiect unigol |

## Cymarebau Cost a Budd

| | |
|---|---|
| **Cymhareb cost a budd gychwynnol** | 2.12 |
| **BCR wedi'i addasu** | 2.77 |

## Buddion anariannol ar gyfer y prosiect hwn

Er mwyn dadansoddi effeithiau anfesuradwy, bydd asesiad o'r manteision ehangach cysylltiedig wedi'i wneud drwy fframwaith sgorio a phwysoli. Mae manteision ehangach posibl yn cynnwys: adfywio, delwedd, cymuned, datblygu sectorau newydd, a mynd i'r afael ag anfantais. Yn gyffredinol, disgwylir manteision ehangach sylweddol gyda sgôr ddisgwyliedig o 8.1/10 [redacted]

## A yw'r prosiect hwn yn cynnwys cynlluniau ar wario rhywfaint o grant y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?

Ydy

## A ellid cyflawni'r prosiect hwn fel prosiect ar ei ben ei hun?

Gellid - gellir cyflwyno'r prosiect fel prosiect ar ei ben ei hun

## Dangoswch y gellir cyflawni gweithgaredd ar gyfer y prosiect hwn yn 2022-23

I ddechrau yn ystod 2022-23 bydd llawer o'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar ffioedd tîm dylunio, arolygon ychwanegol a pheth gwaith hwyluso i fwâu a thwneli'r Strand.

## Pwerau a Chaniatadau Statudol

**Rhestrwch ar wahân isod bob pŵer/caniatâd ac ati a gafwyd ar gyfer y prosiect hwn**

Er na cheisiwyd caniatâd cynllunio eto, mae hyn wedi'i raglennu ar ei gyfer Ebrill 2023 fel yr amlinellir isod. Mae'r rhan fwyaf o'r parth cyhoeddus o fewn cwmpas y cynllun ym mherchnogaeth Cyngor Abertawe, fodd bynnag bydd gwaith ar y twneli yn galw am ganiatâd Network Rail ar gyfer gosod pontynau a bydd angen caniatâd gan ystâd Dug Beaufort.
Mae trafodaethau gyda Network Rail wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r un peth yn wir am drafodaethau gyda Dug Beaufort.

[redacted]

## Pwerau/caniatadau statudol heb eu bodloni

Rhestrir ddyddiadau allweddol ar gyfer caniatâd cynllunio yn y brif ffurflen gais, y cynllun cyflawni a'r rhaglen. Gweler y crynodeb isod:

[redacted] – cychwyn cam 3 RIBA, datblygu dyluniad, gweithdai risg ac ymgynghoriad cyhoeddus

[redacted] – cyflwyno cais cynllunio, caniatâd Network Rail, caniatâd Dug Beaufort a cheisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig / amser prosesu oddeutu 12-16 wythnos.

[redacted] – dechrau cam dylunio manwl 4 RIBA, dirwyn i ben gwaith ymgysylltu â rhanddeiliad, cyflwyno rheoliadau adeiladu a pharatoi dogfennau tendro ar gyfer y prif gontractwr.

[redacted] – prif waith yn dechrau ar y safle.

[redacted] – cwblhau gwaith ymarferol ar y safle

## Prosiect 3 Enw

Amgueddfa Abertawe

## Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect hwn

Bydd y prosiect hwn yn creu cyrchfan ar y cyd gyda'r coridor treftadaeth ac uwchraddio a gwella Amgueddfa Abertawe, yr hynaf yng Nghymru, gan alluogi arddangosiad cyfoethocach o hanes y lle, yn ogystal â dwyn ei gasgliad yn nes i'r gofod arddangos mwy a rhyddhau lle ym Melin Rolio'r Gwaith Copr ar gyfer gwaith adfywio defnydd cymysg a budd economaidd.

Bydd y prosiect yn buddsoddi mewn adeilad newydd i Amgueddfa Abertawe, gofod arddangos ac oriel ychwanegol, creu caffi newydd, ardaloedd cadwraeth a storfa newydd, a mynedfa ddeuol newydd i wella'r cysylltiad rhwng Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

## Rhowch drosolwg mwy manwl o'r prosiect

Pecynnau buddsoddi penodol ar gyfer y prosiect hwn yw:

Ychwanegu adeilad newydd i Amgueddfa Abertawe a fydd yn ehangu ei ôl troed yn sylweddol er mwyn galluogi;

Gofod arddangos ac oriel ychwanegol, gan ddod â chasgliadau sydd wedi'u storio yn y Felin Rolio i leoliad cyhoeddus i'w harddangos.

Ardaloedd cadwraeth a storio newydd

Caffi newydd a fydd ar agor i'r cyhoedd

Mynedfa ddeuol newydd i ddarparu 'cysylltiad' i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, sydd wedi'i lleoli ar draws y cwrt allanol.

Mae'r tri phrosiect cydran yn canolbwyntio ar agweddau amlwg ar etifeddiaeth entrepreneuriaeth Fictoraidd a'i heffeithiau ar y ddinas fodern, gan eu hamlygu yn erbyn y rhaglen adfywio gref sydd ar y gweill ar draws y sir.

Er bod y safleoedd yn rhai o elfennau mwyaf arwyddocaol treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol Abertawe, nid ydynt yn tueddu i gael eu darllen gyda'i gilydd; fodd bynnag, o'u gweld ar fap, mae'n amlwg sut mae'r safleoedd hyn i gyd yn ffurfio rhan o, neu'n union gerllaw, cwm agored afon Tawe a ddaeth yn un o'r ardaloedd mwyaf diwydiannol trwm y byd datblygedig – sef Cwm Tawe Isaf.

Bydd y cyfuniad o fuddsoddiadau yn ysgogi ac yn annog deilliannau cymdeithasol, cyflogaeth ac adfywio cryf. Byddant yn gwella'n sylweddol gyfleoedd i bob oedran ymgysylltu â threftadaeth, gan gynyddu hyfywedd a chynaladwyedd asedau allweddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a gwerthfawrogiad a llawer cryfach ymhlith y boblogaeth ehangach. Bydd y prosiectau yn cymysgu cyfleoedd creu incwm newydd ag asedau treftadaeth sy'n ei chael hi'n anodd i'w bywiogi o'r newydd a rhoi dyfodol cynaliadwy hirdymor.

## Darparwch ddisgrifiad byr o'r ardal lle bydd y buddsoddiad yn digwydd ar gyfer y prosiect hwn

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar Amgueddfa Abertawe sydd wedi'i lleoli i'r de o'r A4067 a nesaf at Burrows Place, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Pharc yr Amgueddfeydd yng nghanol dinas Abertawe.

[redacted]

## Mwy o fanylion am leoliad y prosiect hwn

**Lleoliad 1 y prosiect**

| | |
|---|---|
| **Côd post** | SA1 1SN |
| **Cyfeirnod grid** | SS659927 |

[redacted]

| | |
|---|---|
| **% o fuddsoddiad y prosiect yn y lleoliad hwn** | 24% |

## Dewiswch yr etholaethau a gwmpesir gan y prosiect hwn

**Etholaeth prosiect 1**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch etholaeth** | Gorllewin Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr etholaeth hon** | 100% |

## Dewiswch yr awdurdodau lleol / cynghorau yG y mae'r prosiect hwn yn berthnasol iddynt

**Prosiect awdurdod lleol 1**

| | |
|---|---|
| **Dewiswch awdurdod lleol** | Abertawe |
| **Amcangyfrifwch ganran y buddsoddiad y pecyn prosiect hwn yn yr Awdurdod Lleol hwn** | 100% |

[redacted]

[redacted]

## Beth yw cyfran y cyllid y gofynnir amdani ar gyfer pob un o dair thema buddsoddi'r Gronfa?

| | |
|---|---|
| **Adfywio a Chanol Trefi** | 60% |
| **Diwylliannol** | 40% |
| **Trafnidiaeth** | 0% |

[redacted]

[redacted]

## Rhowch fanylion yr holl ffynonellau arian cyfatebol yn eich cynnig ar gyfer y prosiect cydrannol hwn

Arian Cyfatebol wedi'i sicrhau trwy Gyngor Abertawe. [redacted]

## Gwerth am arian

Amcangyfrifir y bydd cynllun Amgueddfa Abertawe yn creu buddion uniongyrchol [redacted]. Gan ganiatáu ar gyfer effeithiau dosbarthiadwy, ac adlewyrchu budd buddsoddi mewn ardal o amddifadedd cymharol, [redacted]

Yn seiliedig ar gostau ymylol net amcangyfrifedig o £6.9m, bydd y budd a nodwyd yn cefnogi BCR cychwynnol o 2.0:1 a BCR wedi'i addasu o 2.6:1. Mae hyn yn uwch na trothwy o 2.0 ac felly yn cael ei ystyried yn werth uchel am arian, yn enwedig o ystyried y manteision ehangach a ddisgrifir isod.

Adfywio – Cafwyd diffyg buddsoddiad yn Amgueddfa Abertawe dros y degawdau diweddar sydd wedi arwain at gadw llawer o'r casgliad mewn storfa anhygyrch i'r cyhoedd yn adeilad y Felin Rolio.

Delwedd - Mae'r ardal yn dioddef o ganfyddiadau a delwedd negyddol, yn ogystal â ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau troseddu. Nod y cynlluniau arfaethedig yw mynd i'r afael â'r materion sylfaenol craidd sy'n effeithio ar drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd drwy greu cyrchfan ymwelwyr unigryw gyda chyfleoedd i fusnesau lleol ac yn dwyn yr adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd masnachol i oresgyn problemau troseddu.

Balchder cymunedol – Bydd yr ymyriad hwn yn gwella darpariaeth amwynderau cyhoeddus ac atyniad mannau cyhoeddus. Bydd gwellliannau i'r parth cyhoeddus yn darparu cyfleoedd allweddol i'r gymuned leol ac yn ychwanegol i gasglu a gwella cydlyniant cymdeithasol.

Twf sectorau newydd - Bydd y prosiect yn annog twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, gan helpu busnesau lleol i fasnachu am gyfnodau hwy drwy gydol y flwyddyn. Bydd bydd ymyriadau newydd yn helpu i ddatblygu cyfleoedd busnes newydd oherwydd y nifer ychwanegol o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn. Bydd trosglwyddo arteffactau treftadaeth o'r Felin Rolio i Amgueddfa Abertawe yn galluogi eu harddangos a'u cadw yn unol ag arfer gorau, gan wella arlwy amgueddfa hynaf Cymru ac arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar gyfer economi canol y ddinas yn unol â Fframwaith Datblygu Diwylliannol Abertawe

Mynd i'r afael ag anfantais – Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lluosog o amgylch yr ymyriadau ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Bydd y pecyn ymyrraeth hwn yn creu cyfleoedd cyflogaeth o fewn sectorau sydd yn hygyrch i drigolion lleol, yn darparu cyrchfan i drigolion fynychu a bod yn falch ohono, a chreu amgylchedd mwy diogel sy'n annog peidio â throseddu.

## Cymhareb cost a budd ac asesiad gwerth

**Os nad yw'n bosibl darparu BCR cyffredinol ar gyfer eich cynnig, eglurwch pam isod**

Ddim yn berthnasol. Darparwyd BCR cyffredinol ar gyfer y cynnig a'r tri phrosiect unigol

## Cymarebau Cost a Budd

| | |
|---|---|
| **Cymhareb cost a budd gychwynnol** | 2.03 |
| **BCR wedi'i addasu** | 2.65 |

## Buddion anariannol ar gyfer y prosiect hwn

Er mwyn dadansoddi effeithiau anfesuradwy, bydd asesiad o'r manteision ehangach cysylltiedig wedi'i wneud drwy fframwaith sgorio a phwysoli.
Mae manteision ehangach posibl yn cynnwys: adfywio, delwedd, cymuned, datblygu sectorau newydd, a mynd i'r afael ag anfantais. Yn gyffredinol, disgwylir manteision ehangach sylweddol gyda sgôr ddisgwyliedig o 8.4/10 [redacted]

## A yw’r prosiect hwn yn cynnwys cynlluniau ar wario rhywfaint o grant y Gronfa Ffyniant Bro yn 2022-23?

Ydy

## A ellid cyflawni'r prosiect hwn fel prosiect ar ei ben ei hun?

Gellid - gellir cyflwyno'r prosiect fel prosiect ar ei ben ei hun

## Dangoswch y gellir cyflawni gweithgaredd ar gyfer y prosiect hwn yn 2022-23

I ddechrau yn ystod 2022-23 bydd llawer o’r gweithgaredd yn canolbwyntio ar ffioedd tîm dylunio, arolygon ychwanegol a pheth gwaith hwyluso yn Amgueddfa Abertawe.

## Pwerau a Chaniatadau Statudol

**Rhestrwch ar wahân isod bob pŵer/caniatâd ac ati a gafwyd ar gyfer y prosiect hwn**
Abertawe ac yn

[redacted]

Mae'r holl dir sydd ei angen i gyflawni'r prosiect yn eiddo i/o dan reolaeth Cyngor Abertawe. Mae Amgueddfa Abertawe ei hun yn eiddo i Gyngor Abertawe ac yn ased a reolir.

## Pwerau/caniatadau statudol heb eu bodloni

[redacted] caniatâd cynllunio yn y brif ffurflen gais, y cynllun cyflawni a'r rhaglen. Gweler y crynodeb isod:

[redacted] – cychwyn cam 3 RIBA, datblygu dyluniad, gweithdai risg ac ymgynghoriad cyhoeddus

[redacted] – cyflwyno cais cynllunio, caniatâd Network Rail, caniatâd Dug Beaufort a cheisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig / [redacted]

[redacted] – dechrau cam dylunio manwl 4 RIBA, dirwyn i ben gwaith ymgysylltu â rhanddeiliad, cyflwyno rheoliadau adeiladu a pharatoi dogfennau tendro ar gyfer y prif gontractwr.

[redacted] – prif waith yn dechrau ar y safle.

[redacted] – cwblhau gwaith ymarferol ar y safle